

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Aseiad o Lesiant Lleol 2017

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Llesiant Abertawe

EBRILL 2017



Asesiad o Lesiant Lleol Abertawe 2017 [DRAFFT]

Cynnwys:

Adran	Tudalen
Cyflwyniad	4
Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe	4
Cefndir yr asesiad	7
Sut caiff yr asesiad ei strwythuro - sbardunau llesiant	8
Cynnwys crynodebau'r sbardunau	9
Gwybodaeth am Abertawe a'i hardaloedd cymunedol	11
Asesiad o lesiant lleol	14
Canlyniadau llesiant a phrif sbardunau Abertawe	14
<i>Canlyniad A. Bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd</i>	
Sbardunau sylfaenol ac eilaidd	14
Ynghylch y canlyniad hwn	14
A1. Babanod yn cael eu geni'n iach	16
A2. Plant yn ddiogel rhag niwed	
A3. Plant cyn-ysgol yn iach	17
A4. Plant yn barod i fynd i'r ysgol	17
<i>Canlyniad B. Bod pobl yn dysgu'n llwyddiannus</i>	29
Sbardunau sylfaenol ac eilaidd	29
Ynghylch y canlyniad hwn	30
B1. Plant, pobl ifanc ac oedolion yn mynychu eu hysgolion a'u cyrsiau hyfforddi	31
B2. Pobl yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau mae arnynt eu hangen ac yn gallu dysgu ar hyd eu hoes	32
<i>Canlyniad C. Bod gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da</i>	35
Sbardunau sylfaenol ac eilaidd	35
Ynghylch y canlyniad hwn	36
C1. Rhwystrau i gyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu dileu	37
C2. Cyfleoedd da am swyddi yn cael eu creu	40
<i>Canlyniad D. Bod gan bobl safon weddus o fyw</i>	44
Sbardunau sylfaenol ac eilaidd	44
Ynghylch y canlyniad hwn	45
D1. Pobl yn bodloni'r Safon Isafswm Incwm (cost safon byw sylfaenol a derbyniol)	46
D2. Pobl yn osgoi'r Premiwm Tlodi (y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion)	50

D3. Pobl yn cael y gwerth gorau am eu harian	52
<i>Canlyniad E. Bod pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol</i>	56
Sbardunau sylfaenol ac eilaidd	56
Ynghylch y canlyniad hwn	57
E1. Pobl yn gorfforol iach ac mewn sefyllfa i gael bywyd hir, iach	58
E2. Iechyd meddwl a llesiant da gan blant, pobl ifanc ac oedolion	62
E3. Pobl hŷn yn heneiddio'n dda ac yn cael eu cefnogi i barhau'n annibynnol	67
E4. Pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel	70
<i>Canlyniad F. Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw</i>	75
Sbardunau sylfaenol ac eilaidd	75
Ynghylch y canlyniad hwn	76
F1. Yr amgylchedd naturiol yn iach ac yn wydn	77
F2. Pobl yn meddu ar amgylchedd adeiledig o ansawdd da ac isadeiledd cynhaliol	79
F3. Pobl yn byw mewn cymunedau cryf ac amgylcheddol gynaliadwy	81
F4. Pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol yn ôl eu hanghenion	83
Atodiadau	
1: Proffil demograffig o Abertawe	
2: Ardaloedd Cymunedol yn Abertawe	
3: Ynghylch yr Asesiad	
4: Tystiolaeth ansoddol ar gyfer yr Asesiad o Lesiant Lleol: Adroddiad Cynnwys Dinasyddion	
5: Adroddiad adborth ar yr ymgynghoriad	
6: Meysydd i'w datblygu, 2017/18	

Cyflwyniad: Neges gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Croeso.

Mae'r ddogfen hon yn ddechrau sgwars am les yn Abertawe.

Fel partneriaeth rydym wedi archwilio gwahanol agweddau ar lesiant yn Abertawe. Rydym wedi edrych ar Abertawe yn ei chyfanrwydd ac ar faterion cymunedol. Rydym wedi ceisio deall yr hyn sydd bwysicaf.

Fel rhan o'r asesiad hwn rydym wedi edrych ar 19 agwedd wahanol ar lesiant yn Abertawe sy'n ganolog i'r asesiad hwn. Rydym wedi awgrymu sgôr o rhwng sero a deg ar gyfer pob un ohonynt – sero yw'r sefyllfa waethaf bosib, a deg yw'r sefyllfa orau bosib.

Ond cyn i chi fwrw ati, gadewch i ni ddweud ychydig mwy wrthyfych am yr asesiad.

Ynghylch yr Asesiad hwn

Prif ddiben yr asesiad yw helpu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe i nodi nifer bach o amcanion llesiant a fydd yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru 2015), sef:

- **Cymru lewyrchus:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
- **Cymru gydnherth:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
- **Cymru iachach:** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i ieched yn y dyfodol.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
- **Cymru o gymunedau cydlynus:** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang:** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i gyfrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i

gilydd, a hefyd geisio atal problemau a dilyn dull gweithredu cyson. Bydd hyn yn helpu i greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Yn ogystal â helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i nodi eu hamcanion llesiant, rydym ni'n gobeithio y bydd yr asesiad hwn hefyd yn adnodd gwerthfawr ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio ynghylch unrhyw faterion sy'n derbyn sylw ynddo. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd yn ffocws ar gyfer trafodaeth a dadlau.

Beth rydym ni'n ei olygu wrth 'llesiant'?

Wrth gwrs, nid cysyniad syml yw 'llesiant' o bell ffordd. Yma, ein diffiniad o lesiant yw'r ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pennu 'ansawdd bywyd' rhywun.

Rydym wedi nodi chwe chanlyniad llesiant sy'n cynrychioli'r math o le yr hoffem i Abertawe fod, ac mae ein hasesiad wedi'i seilio ar y rhain, sef:

- Bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd
- Bod pobl yn dysgu'n llwyddiannus
- Bod gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da
- Bod gan bobl safon weddus o fyw
- Bod pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol
- Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw.

Mae'r canlyniadau poblogaeth yn adlewyrchu'r amcanion a luniwyd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a nodwyd yn yr adroddiad 'Fair Society Health Lives' (Adroddiad Marmot) yn ogystal â'n dyheadau ein hunain i drechu tlodi a lleihau anweithgarwch economaidd. Fe'u datblygwyd mewn partneriaeth yn 2015 a'u hadolygu gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2016 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Ar gyfer pob canlyniad rydym wedi nodi nifer bach o 'sbardunau sylfaenol' - y pethau hynny y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn sicrhau bod ein canlyniadau lles yn dod yn realiti. Yn y ffordd hon, rydym wedi gallu dadansoddi'r cysyniad cymhleth o lesiant yn faterion y bydd pobl yn eu hadnabod a'u deall. Y 19 sbardun sylfaenol hyn yw'r agweddau ar lesiant rydym wedi awgrymu sgorau llesiant ar eu cyfer.

Pam rydym wedi awgrymu sgorau llesiant?

Yn achos pob un o'r sbardunau sylfaenol rydym wedi awgrymu sgôr llesiant o rhwng sero a deg, lle mae sero'n cynrychioli'r sefyllfa waethaf bosib, a deg yw'r sefyllfa orau.

Nid mesuriadau 'gwyddonol' yw'r sgoriau llesiant, wrth gwrs. Dyfarniadau ydynt, a wnaed ar adeg benodol, gan bobl benodol, gan roi sylw i'r dystiolaeth oedd ar gael. Mae angen eu cyfiawnhau a'u trafod, a gallent fod yn ddadleuol bob amser. Serch hynny, maent yn darparu nifer o fanteision:

- Ffocws clir ar gyfer dadlau a thrafod

- Mae sgoriau'n hawdd eu hegluro ac yn hwylus i ymgysylltu â phobl – mae'r dull gweithredu'n addas iawn i gynnwys y cyhoedd
- Ffordd o ystyried asedau cadarnhaol y gymuned yn ogystal â'r problemau
- Ffordd o ystyried tystiolaeth ansoddol ochr yn ochr â thystiolaeth feintiol
- Ffordd o fod yn uchelgeisiol ynghylch y dyfodol ac yn realistig – hyd yn oed os gellir dadlau ynghylch y sgôr, mae gofyn "sut gallwn ni wneud y sgôr yma yn '+ 1'?" yn rhoi ffocws ar welliant
- Fframwaith ar gyfer asesu cynnydd – gallwn ni ofyn a yw sgôr wedi codi neu ddisgyn, a faint
- Fframwaith ar gyfer siarad â gwahanol bobl a chymunedau ynghylch Asesu Llesiant Lleol.

Llunio'r Asesiad Hwn

Lluniwyd yr asesiad mewn dau gam yn dilyn cynllun y cytunwyd arno mewn gweithdy amlasiantaeth yn 2016. Yn gyntaf, lluniwyd dogfen ddrafft a'i rhannu mewn ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2017. Yna, ystyriwyd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn ofalus gan dasglu amlasiantaeth a chynhwyswyd y newidiadau yn y ddogfen ddiwygiedig hon. Yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Cynnwys y Cyhoedd rydym wedi rhestru'r holl gynigion a glywyd yn yr ymgynghoriad ynghyd â sut rydym wedi ymateb i bob un, mewn Adroddiad Adborth ar wahân.

Y Ddogfen Ymgynghori Ddrafft

Mae'r dystiolaeth yn y ddogfen ddrafft hon wedi cael ei chrynhai gan Grŵp Ymchwil Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe – tîm amlasiantaeth o ymchwilwyr a dadansoddwyr/ Partneriaeth o asiantaethau cyhoeddus yn gweithio yn Abertawe yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Mae rhagor o fanylion amdano ar gael ar ei wefan [yma](#).

Mae cydweithio wedi bod yn factor allweddol wrth lunio'r asesiad hwn. Cydlynwyd y cynnwys ar gyfer pob un o'r canlyniadau gan chwe 'arweinydd canlyniad'- o Fwrdd Iechyd PABM, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Fforwm Amgylcheddol Abertawe a'r cyngor. Mae'r Grŵp Ymchwil wedi ymgymryd â'r gwaith hwn yng nghyd-destun adnoddau cyfyngedig iawn ond gobeithiwn y gall sail y gwaith partneriaeth hwn arwain at fwy o gydweithio ar gyfer asesiadau yn y dyfodol.

Rydym yn hynod ddiolchgar felly i'r Grŵp Ymchwil, sy'n cynnwys nifer o gyrrff cyhoeddus a sector gwirfoddol sydd wedi dod ag ystod eang o dystiolaeth ynghyd mewn cyfnod byr o amser.

Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2017 gwahoddwyd y cyhoedd a sefydliadau i edrych ar ein hasesiad drafft, a oedd yn cynnwys sgorau llesiant awgrymedig, a rhoi eu hadborth i ni.

Roeddem am wybod:

- Barn pobl am lesiant yn Abertawe yn ei chyfanrwydd?
- Pa faterion llesiant sy'n effeithio ar gymunedau gwahanol?
- A yw pobl yn cytuno â'r sgorau llesiant a awgrymir?
- Pa dystiolaeth a gollwyd?

Derbyniom 159 o ymatebion i'n harowg cyhoeddus a 10 ymateb ysgrifenedig gan sefydliadau. Er y byddem yn gobeithio cynyddu nifer yr ymatebion mewn ymgynghoriadau yn y dyfodol, roeddem yn teimlo bod y model yn gweithio'n dda a bod defnyddio system raddio'n ddefnyddiol i gynnwys y cyhoedd yn arbennig. Yn gyffredinol, roedd yn galonogol gweld bod yr ymatebion a gawsom gan y cyhoedd i'r sgorau arfaethedig yn debyg, os nad yr un peth â'n hawgrymiadau ein hunain. Roedd y dull hefyd wedi'n helpu i gynhyrchu data meintiol i ni ei ymgorffori yn ein dadansoddiad – derbyniom gyfanswm o 474 o ymatebion testun ar wahân.

Y dystiolaeth newydd a ystyriwyd gennym

Fel rhan o'r ymgynghoriad, ystyriwyd nifer o ffynonellau dystiolaeth ychwanegol gan gynnwys:

- Adborth gan y digwyddiad Cynnwys y Gymuned rhanbarthol a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Miller Research UK – a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar ran CBS Pen-y-bont ar Ogwr, CBS Castell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe a Bwrdd Iechyd PABM i gefnogi'r broses hon a'r asesiad o boblogaeth sy'n ofynnol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Darparwyd cyllid ar gyfer yr ymarfer cynnwys hwn gan Lywodraeth Cymru ar sail ranbarthol. Mae adroddiad Abertawe 'Tystiolaeth Ansoddol ar gyfer Asesu Lles Lleol: Adroddiad Cynnwys Dinasyddion' yn cael ei gynnwys fel Atodiad 4.
- Nifer o ymatebion gan sefydliadau a oedd yn gwneud pwyntiau penodol a chyffredinol ynglŷn â'r asesiad drafft. Aed i'r afael yn uniongyrchol â'r rhain lle'r oedd amser yn caniatáu, neu cânt eu cynnwys mewn rhaglen ddatblygu tymor hwy bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwrw ymlaen â hi yn y dyfodol. Caiff tabl o argymhellion ac ymateb cytunedig y bwrdd eu cynnwys yn yr Adroddiad Adborth yn Atodiad 5. Caiff ymatebion y sefydliad eu cynnwys yn llawn yn yr adroddiad hwn.
- Cynnwys y cyhoedd lleol: gyda chynnwys yr asesiad a'r sgôr 'llesiant' awgrymedig yn cael eu darparu fel man cychwyn, gofynnwyd i'r cyhoedd sgorio (0-10) a darparu sylwadau ar eu hamgyffrediad o'n 19 prif sbardun a'n 6 chanlyniad poblogaeth. Caiff yr adborth a dderbyniwyd ei gynnwys yn yr Adroddiad Adborth (Atodiad 5).

Yr Asesiad Terfynol

Ystyriwyd a chytunwyd ar fersiwn derfynol Asesiad Lles 2017 ar gyfer Abertawe gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn ei gyfarfod ar 12 Ebrill, 2017.

Er bod hyn yn nodi casgliad y broses asesu ar gyfer 2016/2017 mae llawer o waith ychwanegol i'w wneud. Mae digon o gwmpas i wella'r asesiad ynghyd â nifer o faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad nad oeddem yn gallu mynd i'r afael â hwy ar y cam hwn. Nodwyd rhai bylchau yn y dystiolaeth hefyd a bydd angen ystyried y rhain yn lleol neu'n genedlaethol. Am y rheswm hwn, bwriedir ei ddiweddarau ymhellach ymhen 12 mis a bydd y Grŵp Ymchwil yn gweithio ar nifer o'r materion hyn yn y cyfamser. Caiff y rhain eu rhestru yn Atodiad 6.

Fodd bynnag, bydd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried rhai o'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriad ymhellach (crynhoir y rhain hefyd yn Atodiad 6).

Rydym yn ystyried yr asesiad hwn yn ddechrau sgwrs am lesiant yn Abertawe, ac nid y diwedd. Gobeithiwn y bydd yn adnodd gwerthfawr ac yn ysgogi dadl a thrafodaeth. Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i'r Grŵp Ymchwil, sy'n cynnwys nifer o wahanol gyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol, sydd wedi crynhoi ystod eang o dystiolaeth o fewn cyfnod byr iawn.

Dilyn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Wrth lunio'r ddogfen hon rydym wedi cadw mewn cof y pum dull o weithio sy'n darparu sylfaen ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy a gynhwysir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Tymor hir: Wrth feddwl am y sgoriau llesiant rydym ni'n eu hawgrymu rydym wedi rhoi sylw i faterion tymor byr a thueddiadau posibl i'r dyfodol, gan gymryd y ddwy elfen i ystyriaeth

Ataliaeth: Rydym wedi ystyried cryfderau Abertawe a sut gallai'r asedau sydd gennym helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu yn y dyfodol

Integreiddio: Bydd y sgoriau llesiant yn yr asesiad terfynol yn helpu'r gwahanol gyrff cyhoeddus yn Abertawe i bennu eu nodau llesiant unigol a'r rhai a rennir mewn modd cydlynus

Cydweithio: Cynhyrchir yr asesiad mewn partneriaeth gan y gwahanol gyrff sy'n rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, ac yn cynrychioli'r farn a rennir ganddynt

Ymwneud: Rydym ni'n rhannu ein gwaith yn gynnar yn y broses ac yn gofyn i amrywiaeth o sefydliadau ac ymarferwyr unigol gyfrannu ato. Rydym hefyd yn gwahodd y cyhoedd i gyfrannu. Byddwn ni'n cyhoeddi sgoriau'r cyhoedd ochr yn ochr â'r sgoriau rydym ni'n eu hawgrymu – bydd gwahaniaethau mawr yn destun trafod diddorol!

Y Camau Nesaf

Er y credwn fod yr asesiad hwn yn werthfawr yn ei hanfod ei hun, rydym yn glir mai ei brif bwrpas yw cyfeirio Cynllun Llesiant ar gyfer Abertawe a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddinasyddion.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Cynllunio Amlasiantaeth i lunio'r cynllun hwn ac wedi cytuno ar amserlen 12 mis i sicrhau y caiff y cynllun ei lunio erbyn mis Mai 2018. Yn y broses hon, defnyddir cynnwys yr asesiad hwn, ac eir ati i:

- Ddrafftio cyfres o amcanion lleol a chamau i fynd i'r afael â hwy
- Derbyn cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Casglu gwybodaeth gan bartneriaid
- Cynnal asesiadau effaith integredig a chydaddoldeb
- Ymgynghori â'r cyhoedd cyn cytuno ar yr amcanion terfynol.

Drwy gydol y broses, bydd cyfleoedd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill â diddordeb gyfrannu, felly gobeithiwn y byddwch yn ein helpu i wneud y cynllun y gorau y gall fod!

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe

Cefndir yr asesiad

Yn 2016, bu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn adolygu ei ganlyniadau poblogaeth a'i sbardunau sylfaenol cyfredol – a ddatblygwyd trwy broses helaeth o ymchwil ac ymgysylltu – er mwyn sicrhau cysondeb â'r pedwar llinyn llesiant a nodwyd gan Lywodraeth Cymru (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) a'r saith nod llesiant cenedlaethol a gynhwyswyd yn y Ddeddf. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, gwnaed rhai newidiadau ac ychwanegiadau i'r canlyniadau a'r sbardunau sylfaenol. Mae'r asesiad hwn wedi'i strwythuro yn ôl y canlyniadau hyn a'r sbardunau sy'n rhan ohonynt.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch cefndir y Ddeddf a dull Abertawe o fynd ati i asesu llesiant lleol yn Atodiad 3, sydd ar gael o'r dudalen ganlynol ar y we: www.abertawe.gov.uk/ymgynghoribgc

Sut caiff yr asesiad ei strwythuro: sbardunau llesiant

Mae'r tabl crynhoi ar dudalen 13 yn amlinellu canlyniadau poblogaeth ac 19 sbardun sylfaenol Abertawe ar un dudalen. Mae pob un o brif adrannau neu benodau'r asesiad hwn, sy'n cyfateb i'n canlyniadau poblogaeth, yn cychwyn â'r diagram perthnasol o sbardunau, sy'n dangos y sbardunau sylfaenol ac eilaidd cyfredol. Er mai'r sylfaen o dystiolaeth ar lefel y sbardunau sylfaenol yn unig sy'n cael ei chynnwys yn uniongyrchol at ddibenion dadansoddiad crynodol, ym mhob achos bydd y sylfaen honno wedi'i llywio gan y sbardunau eilaidd a'r materion sy'n codi ynddynt.

Er mwyn darparu strwythur cydlynus ar gyfer dadansoddi ar draws meysydd pwnc gwahanol, mae'r broses a ddefnyddiwyd yn gyffredinol gan y rhai a fu'n gweithio ar yr asesiad hwn wedi datblygu'n ddau brif gam:

- Casglu tystiolaeth: crynhoi'r ffynonellau tystiolaeth unigol manwl a'r gwaith dadansoddi sy'n gysylltiedig â phob sbardun sylfaenol.
- Paratoi crynodebau ar gyfer y sbardunau: crynhoi'r prif ffynonellau tystiolaeth ar gyfer pob sbardun, gan ffurfio sail ar gyfer cynnwys craidd yr asesiad.

Rhagwelir y bydd sylfaen dystiolaeth fanylach ar gael maes o law drwy we-dudalen benodol a gaiff ei chynnal a'i datblygu dros amser.

Cynnwys crynodebau'r sbardunau

Yn y ddogfen hon, nod y crynodebau yw ystyried y dystiolaeth sydd ar gael am lesiant sy'n gysylltiedig â phob un o'n sbardunau sylfaenol mewn fformat cyffredin, sy'n cynnwys yr agweddau canlynol:

- **Tystiolaeth:** rhestr syml o'r ffynonellau sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn y sylfaen o dystiolaeth ar gyfer y sbardun sylfaenol.
- **Sgôr llesiant a awgrymir:** gan adlewyrchu dyfarniad sy'n seiliedig ar y gwahanol agweddau ar y dystiolaeth a gasglwyd - h.y. ar raddfa o sero i ddeg, lle mae sero'n cynrychioli'r sefyllfa waethaf bosib a deg y sefyllfa orau, mae gan y sbardun hwn sgôr o 'x'. Roedd yr asesiad drafft yn adlewyrchu'n barn gyffredinol gychwynnol ynghylch

y dystiolaeth a oedd ar gael am lesiant yn achos y sbardun dan sylw. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys sgôr yr arolwg cyhoeddus o'r ymgynghoriad diweddar, ac unrhyw ddiwygiadau i sgôr gyffredinol y sbardun.

- **Cryfderau Abertawe:** prif gryfderau'r sbardun hwn neu'r asedau sy'n ymwneud ag ef. Mae'n adlewyrchu symudiad oddi wrth ddull gweithredu 'seiliedig ar anghenion', a mwy o ffocws ar lesiant (yn unol â'r Ddeddf). Mae'r dadansoddiad yn y fan hon yn cynnwys y cryfderau yn y boblogaeth neu'r amgylchedd sy'n cefnogi'r sbardun hwn (a'r dystiolaeth y tu ôl i hynny), ac amlinelliad o'r gwasanaethau, y polisiau a'r partneriaethau sy'n ei gynnal.
- **Newidiadau dros amser:** yr wybodaeth berthnasol sydd ar gael ynghylch tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r dystiolaeth yng nghyswllt y sbardun hwn.
- **Cymharu â manau eraill:** oddi mewn i Gymru ac â'r Deyrnas Unedig, fel sy'n briodol.
- **Gwahaniaethau yn Abertawe:** cymharu ein gwahanol ardaloedd cymunedol a nodwyd, neu ardaloedd/daearyddiaethau lleol eraill (os nad oes tystiolaeth ar gael ar y lefel hon); a gwahanol agweddau ar lesiant sy'n effeithio ar wahanol grwpiau poblogaeth, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn y Ddeddf.
- **Canfyddiadau a safbwyntiau:** tystiolaeth berthnasol o arolygon (barn y cyhoedd), adroddiadau, archwiliadau a sylwebaeth ymchwil, a thystiolaeth anecdotaidd (lle mae'n cynrychioli cydbwysedd barn).
- **Rhagolygon i'r dyfodol:** beth fydd yn digwydd os na fydd dim gwahanol yn digwydd, h.y. os bydd y sefyllfa gyfredol a'r cyfeiriad presennol yn parhau; a sut gallai tueddiadau disgwylidig yn y dyfodol effeithio ar y sbardun hwn. Gall adnoddau ychwanegol, gan gynnwys gwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru ar dueddiadau i'r dyfodol (fel y nodwyd yn y Ddeddf) gael eu hystyried yma hefyd yn ddiweddarach.
- **Sut olwg fyddai ar welliant:** yn syml iawn, beth byddem ni'n disgwyl ei weld petaem ni'n rhoi sgôr +1, er enghraifft, i'r un a nodwyd? (e.e. dangosydd(ion) y mae angen iddynt wella, unrhyw dystiolaeth arall byddem ni am ei gweld).
- **Ynghylch y dystiolaeth:** sylwadau ar y ffynhonnell/ffynonellau tystiolaeth ar gyfer y sbardun hwn, unrhyw gysylltiadau rhwng ffynonellau, eu cryfderau a'u cyfyngiadau, ac unrhyw wrthdaro rhyngddynt. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys unrhyw fylchau a nodwyd yn y dystiolaeth ac unrhyw waith a dadansoddi pellach sy'n ofynnol, yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Gwybodaeth am Abertawe a'i hardaloedd cymunedol

Ffeithiau a thueddiadau allweddol

Mae Abertawe mewn lleoliad canolog ar arfordir De Cymru, a hi yw ail ddinas fwyaf Cymru. Isod ceir crynodeb o ystadegau diweddar ynghylch y bobl sy'n byw yn Ninas a Sir Abertawe:

- Poblogaeth Abertawe: 242,400 (canol 2015), bron 8% o boblogaeth Cymru, gyda dwysedd poblogaeth o 638 o bobl fesul cilometr sgwâr.
- Mae strwythur y boblogaeth yn gymharol nodweddiadol, ond mae'r grwpiau oedran 19-22 yn codi'n uchel iawn yn sgîl presenoldeb a derbyn myfyrwyr prifysgol i Abertawe.
- Rhwng 2005 a 2015, bu cynnydd o 13,000 o bobl (5.7%) yn y boblogaeth, a mudo rhyngwladol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r twf diweddar.
- Yn ystod y degawd hwn cofnodwyd twf sylweddol yn y boblogaeth o ran y cyfrannau 20-29 oed a'r grwpiau oed hynaf, gyda 1,200 o bobl ychwanegol (+23.7%) 85 oed a throsodd.
- Yn Abertawe, mae hyd oes disgwylidig pobl adeg eu geni bellach yn 78.0 o flynyddoedd (gwrywod) ac 82.4 o flynyddoedd (benywod). Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae hyd oes disgwylidig wedi codi rhyw 2 flynedd yn achos gwrywod a benywod.
- Rhagwelir y bydd poblogaeth Abertawe yn cynyddu 21,600 (9.0%) erbyn 2039, y drydedd gyfradd twf uchaf a ragwelir yng Nghymru, gyda chynnydd o 18,400 (+39.8%) yn y bobl 65 oed a throsodd.
- Mae 105,300 o aelwydydd yn byw yn Abertawe (2015), a maint cyfartalog aelwyd yw 2.23 o bobl. Mae 36,500 (34.3%) yn aelwydydd un oedolyn, ac mae hynny wedi cynyddu 2,600 yn ystod y pum mlynedd diwethaf.
- Mae amcangyfrifon y Cyfrifiad yn awgrymu poblogaeth ethnig nad yw'n wyn o ryw 14,300 – 6.0% o gyfanswm poblogaeth Abertawe (2011). Y grwpiau ethnig mwyaf nad ydynt yn wyn yw'r Tsieineid a phobl o Fangladesh (cyfanswm: 4,000).
- Gostyngodd y gyfradd (3+ oed) yn Abertawe sy'n gallu siarad Cymraeg i 11.4% (26,300) yn ystod y deng mlynedd hyd at 2011, ond mae'n codi ymhlith rhai o dan 16 oed.
- Mae gan Abertawe rôl allweddol yn isranbarth De-orllewin Cymru fel economi sy'n canolbwyntio ar y sector gwasanaeth, gyda chyfradd uchel o swyddi sector cyhoeddus.
- Mae gweithgarwch economaidd a chyflogaeth yn Abertawe yn agos at gyfraddau cyfatebol Cymru, ond yn is na chyfraddau'r Deyrnas Unedig.
- Mae cyfran gymharol uchel o drigolion (16-64 oed) sydd â chymwysterau lefel uwch (NVQ 3+) yn byw yn Abertawe, ond hefyd rai heb gymwysterau o gwbl.

- Mae Abertawe yn gweithredu fel canolbwynt isranbarthol, gyda nifer sylweddol yn cymudo i'r sir o'r awdurdodau cymdogol Castell-nedd Port Talbot (13,200) a Sir Gaerfyrddin (8,600).

Mae proffil ystadegol mwy cyflawn o Abertawe a'i phobl ar gael yn Atodiad 1 i'r asesiad hwn, trwy'r dudalen ganlynol ar y we: www.abertawe.gov.uk/ymsgynghoribgc

Ardaloedd Cymunedol Abertawe

Mae'n ofynnol bod yr Asesiad Llesiant Lleol yn cyflwyno'r 'ardaloedd cymunedol' sydd oddi mewn i ardal y Bwrdd; dylai'r rhain fod yn ardaloedd lleol sydd ag ymdeimlad o hunaniaeth, ond sy'n ddigon mawr i ddangos gwahaniaethau rhyngddynt. Maent yn cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) – rhestrir y rhain yn Atodiad 2.

At ddibenion yr asesiad hwn, rhennir y ddinas a'r sir yn chwe ardal gymunedol sy'n cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI):


- Dwyrain y Bae
- Gorllewin y Bae
- Y Ddinas
- Cwm Tawe
- Llchwyr
- Penderi

Caiff crynodeb o wybodaeth ystadegol am bob un o'r rhain ei chynnwys yn Atodiad 2.


At ei gilydd, mae'r ardaloedd hyn yn cyfateb i'n Hardaloedd Rhwydwaith Gofal Sylfaenol lleol, ac maent yn rhan o rwydwaith Cymru gyfan o ardaloedd clwstwr Meddygon Teulu sy'n cael eu defnyddio'n helaeth, ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn arbennig. Fodd bynnag, rhennir y mwyaf ohonynt ('y Bae') yn ardaloedd Dwyrain a Gorllewin. Mae Tabl 1 a ffigur 1 isod yn amlinellu lleoliad a data poblogaeth allweddol yr ardaloedd hyn.

Tabl 1: Ardaloedd cymunedol yn Abertawe – crynodeb o'r ystadegau poblogaeth/ardal:


Ardal Gymunedol:	Poblogaeth (amcan 2015)	Arwynebedd (km.sg.)	Dwysedd (p/kmsg)
Dwyrain y Bae	42,000	19	2,210
Gorllewin y Bae	28,900	158	180
Y Ddinas	37,800	12	3,250
Cwm Tawe	57,500	45	1,280
Llwchwyr	44,700	137	330
Penderi	31,600	9	3,430
<i>Cyfanswm y Sir</i>	<i>242,400</i>	<i>380</i>	<i>640</i>



Asesiad o Les Lleol: Canlyniadau Llesiant a Sbardunau Sylfaenol Abertawe



Canlyniad A: Bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd



Ynghylch y Canlyniad hwn

Mae dechrau da mewn bywyd i'n plant yn allweddol i lesiant cymunedol pawb. Y blynyddoedd cyn-ysgol yw'r adeg pryd y gellir gwneud y gwahaniaeth mwyaf, ac mae'r ymchwil yn awgrymu mai'r cyfnod brig ar gyfer datblygiad yr ymennydd yn y blynyddoedd cynnar yw rhwng 0 a 3 oed. Os bydd plant yn cael dechrau da mewn bywyd maen nhw'n debygol o fod yn iachach, yn debygol o fod yn ddysgwyr gwell, ac yn llai tebygol o brofi amddifadedd. Mae profiadau blynyddoedd cynnar cadarnhaol yn hanfodol i ddatblygu'r gwydnwch angenrheidiol a lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol, gan helpu i dorri'r cysylltiadau hynny. Mae'r ffactorau hyn yn eu tro yn arwain at fod yn fwy tebygol o gael swydd dda a sicrhau safon well o fyw, bod yn fwy abl i ofalu am yr amgylchedd a chyfrannu at gymunedau diogel, llewyrchus.

Roedd ffocws ar ymyriadau yn y blynyddoedd cynnar yn elfen allweddol yn Adolygiad Marmot o anghydraddoldebau iechyd, lle nodwyd bod "y sylfeini ar gyfer bron pob agwedd ar ddatblygiad dynol – corfforol, emosiynol – yn cael eu gosod yn ystod plentyndod cynnar". Nodau penodol adroddiad Marmot oedd:

- lleihau anghydraddoldebau yn natblygiad cynnar iechyd corfforol ac emosiynol a sgiliau gwybyddol, ieithyddol a chymdeithasol;
- sicrhau gwasanaethau mamolaeth, rhaglenni rhianta, gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i ymateb i'r angen ar draws y llethr cymdeithasol;
- meithrin gwydnwch a llesiant plant ifanc ar draws y llethr cymdeithasol.

Mae'r diagram sbardunau yn rhannu Canlyniad A yn bedair agwedd allweddol ar ddatblygiad plant, yn gysylltiedig â'u geni (Sbardun Sylfaenol A1), diogelwch (A2), iechyd (A3) a pharodrwydd i fynd i'r ysgol (A4). Fodd bynnag, mae cysylltiad rhwng pob un o'r chwe chanlyniad poblogaeth a'i gilydd, a gall ffactorau (neu sbardunau) eraill effeithio hefyd ar y canlyniad - 'Bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd'.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch y sbardunau hyn yn awgrymu darlun cyffredinol cymysg; ar lawer o'r mesurau perthnasol, mae Abertawe'n gymharol agos at gyfartaledd Cymru, er mai thema gyson yw'r gwahaniaethau sylweddol a geir yn aml rhwng gwahanol ardaloedd Abertawe. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o weithgarwch lleol ar waith neu'n cael ei ddatblygu gyda'r nod o wella'r gwahanol agweddau hyn ar lesiant plant a chau'r bwlch.

Adolygiad o'r sbardunau unigol: Canlyniad A

A1: Babanod yn cael eu geni'n iach

Tystiolaeth:	Cyfran y babanod pwysau geni isel (LBW) a'r bwlch anghydraddoldeb
	Cyfraddau smygu a gordewdra a'r bwlch anghydraddoldeb
	Gweinyddu'r brechiad MMR (y frech goch, y dwymyn doben a rwbela) cyn beichiogi
	Imiwneiddio mamau beichiog yn erbyn y fflw
	Imiwneiddio menywod beichiog yn erbyn pertussis (y pês)
	Cyflwyno Fitamin D atodol (Cynllun Cychwyn Cadarn)
Sgôr llesiant a chrynodeb.	6 – Mae'r sgôr llesiant a awgrymir yn adlewyrchu barn nad yw Abertawe'n wahanol iawn i gyfartaledd Cymru mewn llawer o ffyrdd, a bod nifer o fentrau cadarnhaol ar waith. Fodd bynnag, mae'r heriau ar gyfer Abertawe'n cynnwys y cyfraddau smygu uchel cyson, deiet gwael a lefelau isel o weithgarwch corfforol fel yr adlewyrchir yn nifer y menywod beichiog sydd dros bwysau ac yn ordew, a'r angen i gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol a helpu i gryfhau gwydnwch ymhlith teuluoedd diamddiffyn. Her fawr i Abertawe fydd mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran iechyd rhwng pobl sy'n byw yn y cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig a'r amrywiadau rhwng y cymunedau hyn mewn cyfraddau bwydo ar y fron, pwysau geni isel a chyfraddau beichiogi ymhlith merched dan 18 oed yn enwedig.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe 2017):	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6. • Roedd y sylwadau a roddwyd ar gyfer y sbardun hwn yn ymwneud yn bennaf â mwy o help/gefnogaeth ac arweiniad gan fydwragedd ac ymwelwyr iechyd (<i>'Mae angen mwy o arweiniad ar y pethau sylfaenol'</i>) <p>Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 6 ar gyfer y sbardun hwn ar hyn o bryd.</p>

Cryfderau Abertawe

- Cynigir monitro Carbon Monocsid (CO) i bob menyw feichiog yn ardal ABMU ac mae menywod sy'n smygu yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at Dim Smygu Cymru. Mae tua 18-20% o'r holl fenywod beichiog yn cyfaddef eu bod yn smygu yn ystod eu beichiogrwydd, a chynigir amrywiaeth o wasanaethau i'r menywod hynny, o gwnsela un-i-un i Therapi Amnewid Nicotîn (NRT).
- Mae rhaglen newydd yn gweithio gyda menywod beichiog sy'n gleifion mewnol. Yn y rhaglen hon, mae ymarferwyr 'stopio smygu' o'r fferyllfa fewnol yn cael hyd i hyrwyddwyr ar y wardiau. Bydd yr hyrwyddwyr yn cysylltu â'r ymarferydd stopio pan fydd claf sy'n smygu yn cael ei dderbyn, ac yna cynigir cymorth ac arweiniad. Mae hon yn ymgais i gefnogi'r ymgyrch "Ysbytai Dim Smygu", ac ar yr un pryd yn annog menywod i roi'r gorau i smygu yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Y gobaith yw y gallai hyn gael effaith hefyd ar ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn sefyll y tu allan i'r prif fynedfeydd ac yn smygu.
- Mae dosbarthiadau ymarfer corff arbennig ar gael i fenywod beichiog sydd ag Indecs Mas y Corff (BMI) o 35 neu fwy. Trefnir y dosbarthiadau gan y Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff (NERS) ac maent yn cael eu cefnogi gan Chwaraeon Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynigir y dosbarthiadau am bris

gostyngol, ac mewn amrywiol leoliadau, ar wahanol adegau a diwrnodau o'r wythnos. Gall pob menyw eu mynychu; ond mae angen i fenywod sydd â BMI uchel gael eu hatgyfeirio trwy'r gwasanaethau mamolaeth. Ar hyn o bryd, mae 26% o'r menywod beichiog yn ABMU dros bwysau neu'n or-dew.

- Mae'r negeseuon sy'n cael eu trosglwyddo ar y 'Teledu Babi' a ddefnyddir yn ardaloedd y clinig cyn-geni yn cael eu newid i ddarparu'r cyngor diweddaraf ynghylch ymarfer corff diogel yn ystod bechiogrwydd; i annog mwy o fenywod i barhau ag ymarfer corff neu gychwyn ymarfer corff newydd.
- Mae'r dudalen Facebook ar Iechyd Menywod a Phlant yn cael ei diweddarau â gwybodaeth ynghylch diogelwch ymarfer corff yn ystod bechiogrwydd a'r rhaglen NERS.
- Mae pob menyw feichiog yn cael cynnig brechiad Pertussis yn ystod bechiogrwydd.
- Yn ystod tymor y fflw, cynigir brechiad fflw i bob menyw sy'n feichiog ar y pryd. Mae data ynghylch cyfraddau derbyn yn cael ei gasglu i weld a oes ffordd well o gydweithio er budd menywod beichiog a'u teuluoedd.
- Mae'r Gwasanaeth Ymateb a Rheolaeth Amenedigol (PRAMS) yn cael ei ehangu i Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Mae'r gwasanaeth hwn, sydd wedi ennill gwobrau, wedi bod yn cynnig cymorth iechyd meddwl amenedigol i fenywod yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr ers rhai blynyddoedd bellach. Defnyddiwyd yr arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i ehangu'r gwasanaeth a'i gynnig i bob menyw ag angen ar draws ardal ABMU. Mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau risg profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE) a bydd yn lleihau tebygolrwydd dioddef problemau iechyd meddwl pan fyddant yn hŷn.
- Mae'r gwasanaeth Ymweliadau Iechyd yn datblygu model Gwasanaeth Amenedigol yn unol â chanllawiau NICE, gyda llwybrau i mewn i PRAMS ac allan ohono. Mae grwpiau wedi'u cynllunio ar gyfer gwanwyn 2017.
- Mae'r timau Jig-so a Dechrau'n Deg sy'n ehangu yn gweithio gyda theuluoedd agored i niwed mewn ymgais i wella canlyniadau'r grŵp difreintiedig hwn. Cynigir cefnogaeth trwy dîm o fydwragedd, gweinyddesau meithrin, ac ymarferwyr rhianta a datblygiad iaith cynnar, sy'n gweithio gyda theuluoedd i wella'u sgiliau o ran maethiad, rhianta a pherthnasoedd, gan hyrwyddo pwysigrwydd diet iach a chyfathrebu ac ymlyniad cynnar, trwy Raglenni seiliedig ar dystiolaeth fel Gro Brain.
- Hyd yma gall prosiect Jig-so ddarparu tystiolaeth ynghylch sut mae wedi darparu ymyriadau sgiliau rhianta a pherthnasoedd i rieni ifanc cyn yr enedigaeth.
- Mae gwaith yn digwydd ym maes bwydo ar y fron ac ymlyniad fel rhan o'r 'Fenter o Blaid Babanod' (BFI), sy'n digwydd ar y cyd â gwaith arall gyda thimau ymwelwyr iechyd yng nghyswllt diddyfnu. Mae diddyfnu'n bwysig er mwyn datblygu ymlyniad iach at fwyd yn y dyfodol. Mae dysgu babanod i ddeall y teimlad o fod angen bwyd, i fwyta pan fydd angen bwyd arnynt, ac i stopio bwyta pan fyddant yn llawn yn allweddol er mwyn deall gordewdra a gorfwyta yn ddiweddarach mewn bywyd.

Newidiadau dros amser

- Mae cyfradd bechiogrwydd yn yr arddegau yn Abertawe yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf; fodd bynnag mae cyfraddau uwch yn yr ardaloedd mwy difreintiedig.

- Yn ystod y degawd diwethaf mae canran y babanod pwysau geni isel yng Nghymru a Lloegr wedi parhau'n weddol sefydlog. Yn Abertawe (2014), roedd 4.5% o fabanod yn rhai pwysau geni isel, o gymharu â chyfartaledd o 5.1% ar draws Cymru.

Cymharu â mannau eraill

- Mae cyfradd beichiogrwydd yn yr arddegau (beichiogi o dan 18 oed) yn Abertawe yn 21.7 o bob 1000, sy'n is na chyfartaledd Cymru (25.4 ym mhob 1000).
- Yn 2013 roedd cyfradd y babanod pwysau geni isel yn ardal ABMU (6.3%) yn debyg i gyfartaledd Cymru a Lloegr, ac nid oes fawr ddim amrywiad ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Ceir amrywiaeth sylweddol yn y cyfraddau beichiogi o dan 18 oed fesul MSOA rhwng ardaloedd tlawd a chyfoethog, gyda chyfraddau uwch yn cael eu cofnodi'n gyffredinol yn ardaloedd mwy trefol Abertawe.
- Mae'r cyfraddau bwydo ar y fron adeg geni tua 62% ond maent yn gostwng ar ôl 10 diwrnod, 6 wythnos a 6 mis. Yn 2014 roedd gwahaniaeth o 29% rhwng bwydo ar y fron adeg geni rhwng cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig Abertawe. Dengys canfyddiadau cynnar Prosiect Jig-so fod cyfraddau bwydo ar y fron ymhlith mamau ifanc yn 63%, fymryn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 60% a geir ar draws pob ystod oed. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r gefnogaeth a geir gan gyfoedion trwy'r grwpiau lle mae bwydo ar y fron wedi cael ei normaleiddio.
- Mae llethr cymdeithasol clir yng nghyfran y babanod pwysau geni isel; mae nifer y rhain 1.7 gwaith yn uwch yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe.

Rhagolygon at y dyfodol

- Caiff ymarfer mapio gwasanaethau ei gynnal yn ystod y gwanwyn 2017 fel rhan o Raglen y 1000 Diwrnod Cyntaf, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru, i edrych ar sut gallwn wella'n hymatebion i angen a diamddiffynedd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Bydd hyn yn rhoi darlun llawer cliriach er mwyn llywio cynlluniau a blaenoriaethau yn y dyfodol.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Ein dyhead yw estyn prosiect Jig-so fel bod cymorth ar gael i bob riant agored i niwed, beth bynnag yw eu hoed, yn ystod y cyfnod hanfodol hwn ym mywyd eu plentyn. Byddai hynny'n golygu darparu gwasanaeth cyfannol, cyffredinol o -9 mis hyd at 3 blynedd, a'i fod ar gael i unrhyw riant yn gymesur â'r angen, gan gynnwys cymorth cyn-genï, sgiliau rhianta, perthnasoedd rhianta a hunangymorth, a byddai hynny'n cydweddu â'r gwasanaethau craidd ac yn ychwanegu atynt.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae llawer o dystiolaeth ar gael o waith Marmot ar y 'dechrau gorau', o genhedlu hyd at 2 oed; ochr yn ochr â gwaith arall, gan gynnwys tystiolaeth Ymddiriedolaeth WAVE a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

A2: Plant yn ddiogel rhag niwed

Tystiolaeth:	Achosion o gam-drin domestig ar yr aelwyd
	Hyd a lled y cymorth amserol, priodol a'r ymyriadau i atal gwaethygu
	Mesurau camddefnyddio sylweddau a salwch meddwl (cysylltiedig â chamdriniaeth ddomestig rhieni a diogelwch plant)
Sgôr llesiant a chrynodeb:	6 -Mae gwaith amlasiantaeth sylweddol yn digwydd ynghylch cam-drin domestig a'i effeithiau ar blant ac mae hyn yn parhau i fod yn her o bwys i Abertawe. Mae'r trefniadau diogelu ac amddiffyn plant yn gadarn ac mae cymorth arbenigol ar gael trwy nifer o wahanol brosiectau a mentrau ar draws Abertawe. Fodd bynnag, mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ac afiechyd meddwl, sy'n cael effaith ar brofiadau plant a'r gallu i'w cadw'n ddiogel rhag niwed, hefyd yn cyflwyno heriau sylweddol mewn cymunedau ledled Abertawe.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 7. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6. • Roedd sylwadau a roddwyd ar gyfer y sbardun hwn yn cynnwys dyhead am gyfleoedd ehangach i atal niwed blant a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael. • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 7 ar gyfer y sbardun hwn ar hyn o bryd

Cryfderau Abertawe

- Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wedi'i wreiddio mewn ysgolion. Mae rhaglen y Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn cefnogi ysgolion i wreiddio CCUHP yn eu hymarfer er mwyn gwella llesiant plant.
- Mae holl ysgolion Abertawe yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Iach. Ar ben hynny, mae rhai meithrinfeydd yn rhan o'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach.
- Cymhwyso polisiau gwrthfwlio.
- Mae gan Abertawe Bartneriaeth Amlasiantaeth gref ym maes Cam-drin Domestig, gyda threfniadau gwaith clir wedi'u ffurfioli.
- Mae cam-drin domestig yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor.
- Mae dwy Raglen i Ysgolion yn Abertawe sy'n ymdrin â Cham-drin Domestig – Prosiect SPECTRUM a Phrosiect RAY – sy'n cyflwyno sesiynau Perthnasoedd Iach mewn ysgolion.
- Mae cam-drin domestig wedi dod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a'r awdurdod lleol, ac mae deddfwriaeth newydd arloesol i gefnogi'r gwaith hwn.
- Mae rhai mentrau yn Abertawe wedi cael eu croesawu fel arfer gorau ar draws y wlad. Mae nifer o grwpiau cam-drin domestig yn canolbwyntio ar feysydd gwaith penodol; un o'r rhain yw gwaith gyda phlant.
- Mae llawer o asiantaethau'r trydydd sector a statudol yn cyfrannu at yr ymagwedd at ddiogelu a geir ar draws y sir, gyda mesurau ar waith i gefnogi swyddogion i fod yn rhagweithiol. Er enghraifft, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn sicrhau bod teuluoedd â phlant ifanc yn cael cyngor ar ddiogelwch cartref, bod gan gartrefi

larymau mwg sy'n gweithio a bod gwasanaethau tai'r cyngor yn cefnogi teuluoedd mewn angen drwy nodi ffynonellau help a lle bo'r angen, ddarparu eitemau megis pecynnau a chelfi babanod.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Amcangyfrifir bod 130,000 o blant yn y Deyrnas Unedig yn byw ar aelwydydd lle ceir cam-drin domestig risg uchel; hynny yw, lle ceir risg sylweddol o niwed neu farwolaeth. Mae miloedd o blant eraill yn byw gyda chamdriniaeth ddomestig lefel is yn feunyddiol. Dangoswyd eisoes fod perthynas gref rhwng cam-drin plant yn y cartref a chamdriniaeth ddomestig rhiant. Er enghraifft, dangosodd Brandon et al. (2011) fod cam-drin domestig yn ffactor mewn dau draean o'r Adolygiadau Achos Difrifol lle mae plentyn wedi marw.
- Ym mis Ionawr 2014, cyhoeddodd y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar adolygiad systematig o'r llenyddiaeth a'r ymchwil ar gam-drin domestig a phlant mewn perygl. Mewn adolygiad o astudiaethau lluosog ar achosion amddiffyn plant, canfuwyd bod cam-drin domestig yn ffactor mewn hyd at 65% a heb fod yn llai na 26% o deuluoedd. Roedd gan dair o'r saith astudiaeth gyfradd amlygrwydd o fwy na 50%, ac roedd gan dair arall gyfradd amlygrwydd o dros draean.
- Mae Humphreys (2006) wedi dangos bod gan blant sy'n profi camdriniaeth ddomestig rhiant yn aml broblemau ymddygiad ac emosiynol mwy na phlant eraill, boed hynny'n fewnol (megis iselder a phryder) neu'n allanol (megis ymosodedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol). Mae astudiaethau niwrolegol wedi dangos y gall dod i gysylltiad â thrais domestig a/neu gamdriniaeth uniongyrchol effeithio hefyd ar sut mae'r ymennydd yn gweithio. Er enghraifft, McCrory et al. (2011)
- Mae'r llenyddiaeth yn dangos bod plant sy'n profi camdriniaeth ddomestig rhiant hefyd yn debygol o fod mewn perygl o ddiweddef mathau eraill o gam-drin. Er gwaethaf y dystiolaeth sylweddol hon sy'n dangos niwed camdriniaeth ddomestig i blant, a risg uwch niwed uniongyrchol, mae diffyg data manwl, cyson wedi'i ddiweddarau gan blant ynghylch eu profiadau o fyw gyda chamdriniaeth ddomestig.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Gwasanaethau i blant sy'n dod i gysylltiad â phob lefel a phrofiad o gam-drin domestig yn amserol; nid dim ond y rhai hynny ar y brig sydd eisoes wedi wynebu niwed difrifol.
- Sylwer: mae adolygiad o'r Gwasanaethau Cam-drin Domestig i Blant yn Abertawe ar waith ar hyn o bryd ac mae i gael ei gyhoeddi'n fuan.

Ynghylch y dystiolaeth

- Nid oes dadansoddiad ynghylch 'Newidiadau dros amser', 'Cymharu â mannau eraill', 'Gwahaniaethau yn Abertawe' a 'Rhagolygon at y dyfodol' wedi'i gynnwys yn y drafft hwn ar hyn o bryd.

A3: Plant cyn-ysgol yn iach

Tystiolaeth:	Yr holl imiwneiddiadau plentyndod wedi'u derbyn erbyn iddynt gyrraedd 4 oed
	Tueddiadau o ran bod dros bwysau ac yn ordeu yn ystod plentyndod

	Cyfanswm nifer y dannedd a dynnwyd allan oherwydd pydredd erbyn cyrraedd 3 oed
Sgôr Llesiant a awgrymir a chrynodeb:	5 - Mae rhai agweddau sy'n galonogol, ac mae cryn weithgarwch strategol a lleol ym maes iechyd plant cyn-ysgol. Fodd bynnag, mae rhannau o'r dystiolaeth sydd ar gael eto yn awgrymu bod anghydraddoldebau iechyd ar draws Abertawe, a bod rhagor o le i wella. Fodd bynnag, mae'r heriau i Abertawe'n ymwneud â mynd i'r afael â gordewdra plant, iechyd y geg wael, nifer isel yn dewis cael brechiadau arferol plentyndod a'r achosion o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs). Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos y ceir mwy o'r heriau hyn mewn ardaloedd o amddifadedd lle mae anghydraddoldebau iechyd yn parhau rhwng ein cymunedau.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Feb-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. • Roedd sylwadau ynghylch y sbardun hwn yn ymwneud yn bennaf â phwysigrwydd mentrau i hyrwyddo iechyd cyn-ysgol. Er mae angen i'r rhain fod ar gael mewn mwy o ardaloedd yn Abertawe (<i>'po fwyaf y caiff y mentrau hyn eu hymgorffori, gorau dylai'r canlyniadau fod dros amser'</i>)

Cryfderau Abertawe

- Mae ymuno â Dinasoedd Iach a gweithio gyda thîm Marmot wedi ategu pwysigrwydd y 'llinyn aur' sy'n rhedeg o'r lefel strategol i'r lefel weithredol er mwyn ymdrin ag anghydraddoldebau iechyd, llesiant, gordewdra yn ystod plentyndod a llythrennedd corfforol. Mae hyn yn adeiladu ar hanes hir o weithio mewn partneriaeth a gweithio ar sail asedau gyda chymunedau a theuluoedd (e.e. cartrefi dim smygu).
- Roedd cyfraddau imiwneiddio yn erbyn fflw ymhlith menywod beichiog yn ardal Bwrdd Iechyd ABMU yn 80.5%, sy'n uwch na'r targed a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Y llwyddiant i estyn y cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy, sy'n gweithredu ar hyn o bryd ar draws 38 lleoliad cyn-ysgol, gyda dylanwad cadarnhaol o bosib ar 1384 o leoedd gofal plant. Mae'n gweithredu ar draws pynciau iechyd megis Maethiad ac Iechyd y Geg, Gweithgaredd Corfforol a Chwarae Egniol, Iechyd a Llesiant Meddyliol ac Emosiynol a Pherthnasoedd a'r Amgylchedd. Mae'r cynllun wedi gweithredu fel sbardun i leoliadau ganolbwyntio ar waith maethiad a chorfforol gyda'r plant yn eu gofal.
- Anogir lleoliadau gofal plant nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyn-Ysgol Iach i weithio tuag at ddyfarniadau Byrbryd Aur er mwyn gwella'r ddarpariaeth o ran maethiad.
- Mae Rhaglen Hyfforddi y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn darparu cyfleoedd dysgu i ymarferwyr gofal plant gynnal pynciau iechyd a llesiant yn eu lleoliad.
- Y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i deuluoedd ar draws Rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yng nghyswllt sesiynau coginio, unigol a grŵp. Mae nifer o brosiectau'n cynnal sesiynau coginio iach i deuluoedd, gan gynnwys Teuluoedd mewn Ysgolion, Cymorth i Deuluoedd Eastside a Smart Steps. Y nod yw meithrin sgiliau cynaliadwy oddi mewn i deuluoedd er mwyn hyrwyddo coginio iach mewn ardaloedd a dargedir.

- Yng ngwanwyn 2017, mae'r gwasanaethau Ymweliadau Iechyd yn profi Cynllun Peilot Dannedd Iach mewn partneriaeth â'r timau PH Dental a Chynllun Gwên.
- Mae'r tîm Chwarae Ymyrraeth Gynnar yn cynnal ac yn hwyluso sesiynau chwarae i deuluoedd ac yn y gymuned, yn ogystal ag uwchsgilio rhieni i annog chwarae ar aelwydydd. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r Gronfa Chwarae, cynlluniau chwarae, Chwarae ar Olwynion (Play on Wheels) a Chwarae i'r Teulu (Family Play). Elfen hanfodol o chwarae yw sicrhau bod plant yn egniol yn gynharach, gan y bydd hynny'n eu helpu i fod yn iachach.
- Nod y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yw darparu lefel gyson o wasanaethau (o'r canolbwynt a rhai allgymorth) mewn pedair ardal sydd wedi'u targedu yn Abertawe – Blaenymaes, Penlan, Townhill ac Eastside. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd gwasanaethau yn rhai o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig.

Newidiadau dros amser

- Dengys data gordewdra plant o'r arolwg poblogaeth diweddaraf fod plant Cymru rhwng 4 a 5 oed yn dal yn fwy tebygol o fod dros bwysau neu'n ordev na pliant Lloegr (Cymru = 26.5%; Lloegr = 22.5%). Fodd bynnag, ers yr arolwg cyntaf yn 2011, ymddengys bod tueddiad ar i lawr yng Nghymru'n gyffredinol ac ar lefel ardal ABMU. Dengys y data cenedlaethol lethr cymdeithasol ar gyfer gordewdra a bod dros bwysau ymhlith plant, gyda lefelau uwch (ymhlith bechgyn a merched) yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Yn achos ardal ABMU, y ffigur diweddaraf (2013-14) i ferched yw 26.4%, gostyngiad o 1.7 pwynt-% ers 2011-12, tra bod y ffigur yn 27.0% yn achos bechgyn, gostyngiad o 3.6 pwynt-% ers 2011-12 (*Ffynhonnell: Rhaglen Mesur Plentyndod Iechyd Cyhoeddus Cymru*).
- Mewn modd tebyg i Fyrddau Iechyd eraill ledled Cymru, mae Bwrdd Iechyd ABMU wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar frechiadau fel mater o drefn i blant 1-5 oed. Fodd bynnag, yn Ch4-2014 roedd y nifer oedd yn manteisio ar y '4 mewn 1' a'r 'MMR 2' yn 5 oed yn dal yn is na tharged Llywodraeth Cymru, sef 95% (4 mewn 1 =92.7%; MMR 2 =92.5%). Mae'r patrwm hwn yr un fath ar draws tri awdurdod lleol ardal ABMU.
- Mae Ymweliadau Iechyd yn cynnig dull gweithredu wedi'i dargedu at imiwneiddiadau cartref, ac mae clinigau ar y penwythnos yn cael eu treialu.
- Mae iechyd gwael yn y geg yn dechrau'n gynnar yn ystod plentyndod. Cynhaliwyd arolwg epidemiologegol deintyddol o blant 3 oed am y tro cyntaf yng Nghymru yn 2013-2014.

Cymharu â mannau eraill

- Ers yr arolwg cyntaf yn 2011 ymddengys bod tuedd ar i lawr o ran bod dros bwysau a gordewdra ar lefel Cymru ei hun ac ardal ABMU. Dengys y data cenedlaethol lethr cymdeithasol ymhlith plant, gyda lefelau uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn achos bechgyn a merched.
- Dengys y data fod canran y plant yn ardal ABM lle mae pydredd wedi effeithio ar o leiaf un dant yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac yn ystadegol yn uwch na chyfartaledd Lloegr.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae data derbyn Fluenz ar gyfer plant 2-3 oed (2016) yn datgelu'r gwahaniaethau fesul Ardal Gymunedol yn Abertawe, o 45.9% yn Llŵchwr i 28.7% ym Mhenderi.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Yng nghyd-destun anghydraddoldebau iechyd, mae Adolygiad Marmot ('Fair Society, Healthy Lives') yn nodi "Er mwyn lleihau serthwydd y graddiant cymdeithasol ym maes iechyd, mae'r rhaid i gamau fod yn gyffredinol, ond gyda graddfa a dwysedd sy'n gymesur â lefel yr anfantais. Gelwir hyn yn gyffredinoliaeth gymesur."

Rhagolygon at y dyfodol

- Mae blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y blynyddoedd cynnar wedi cael eu galluogi gan waith Bwrdd y Ddinas Iach, er mwyn hyrwyddo'r materion hyn trwy'r strategaeth blynyddoedd cynnar.
- Bydd y Mapio Gwasanaeth sydd i ddigwydd yn ystod gwanwyn 2017 (fel rhan o Raglen y 1,000 Diwrnod Cyntaf, dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn helpu cynlluniau a blaenoriaethau'r dyfodol.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Cyflawni imiwnedd o 95% i'r praid yn achos yr holl imiwneiddiadau a argymhellir – rhaglen Plentyn Iach Cymru.
- Asesiad gwydnwch Teuluoedd Cyffredinol Ymwelwyr Iechyd yn gysylltiedig â gwasanaethau i gefnogi teuluoedd sy'n nodi bod angen gwasanaethau ychwanegol arnynt.
- Lleihau'r afiechydon plentyndod y gellir eu hatal drwy imiwneiddio, megis y frech goch, meningitis a ffliw.
- Gwell iechyd y geg.
- Plant yn cyflawni eu cerrig milltir datblygiadol ar yr oed cywir – er enghraifft trwy ymgyrch y Jacks, estyn WellComm, allgymorth mewn ysgolion ac ehangu adnoddau Dechrau'n Deg lle bo modd.
- Gostyngiad yn nifer y rhai sy'n wynebu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, eto trwy ymgyrch y Jacks, trwy gefnogaeth Jig-so i famau beichiog a'u partneriaid a'r gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cael eu darparu ar draws rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf.
- Mwy o rieni'n caffael sgiliau ac achrediad wrth chwarae.

Ynghylch y dystiolaeth

- Cynhwyswyd gwybodaeth o Adroddiad Blynyddol Iechyd Cyhoeddus 2016, Asesiad Anghenion Strategol 2015.

A4: Plant yn barod i fynd i'r ysgol

Tystiolaeth:	Data ynghylch y bwlch o ran cerrig milltir datblygiadol erbyn 4 oed
Sgôr llesiant a chrynodeb:	5 – Mae'r sgôr hwn yn adlewyrchu pa mor barod yw plant Abertawe wrth ddod i'r ysgol, ac ansawdd, cyrhaeddiad a swm y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Er bod y gweithgarwch cyffredinol yn gryf, gyda chymorth Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar, y nod o hyd yw cau'r bwlch a'r anghydraddoldebau o

	ran cerrig milltir datblygiadol ar draws y sbectrwm cymdeithasol.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. • Roedd sylwadau ar gyfer y sbardun hwn yn cynnwys mwy o weithgareddau i baratoi plant ar gyfer yr ysgol ym mhob ardal. Mae llawer o blant yn dechrau yn yr ysgol heb iddynt fod yn barod i wneud hynny ac mae maint dosbarthiadau mewn ysgolion yn rhy fawr (<i>'Mewn rhai ardaloedd o amddifadedd, mae plant yn dechrau'r ysgol heb iddynt fod yn barod i wneud hynny'</i>).

Cryfderau Abertawe

- Cydnabod y ffocws ar y blynyddoedd cynnar fel blaenoriaeth.
- Bydd datblygu a gweithredu Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar ymhellach yn cynyddu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a chysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth.
- Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae a Gofal Plant yn cael eu cynnal, a'r Cynlluniau Gweithredu'n cael eu monitro ac yn derbyn sylw cadarn, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau parhaus, datblygiad a chynnydd.
- Gweithio gyda rhieni a phlant i ddatblygu'r ymgyrch 'Dechrau Gorau'.
- Cyflwyno'r Rhaglen Dechrau'n Deg a canlyniadau plant yn effeithiol.
- Ymrwymiad i efelychu'r Gwasanaeth Dechrau'n Deg y tu hwnt i'r ardaloedd targed, er enghraifft trwy sefydlu Prosiect Jig-so.
- Perthnasoedd cryf gyda'r sector gofal plant preifat.
- Mabwysiadwyr cynnar – cynllun 'peilot' Gofal Plant 3 oed.

Newidiadau dros amser

- Ni fu asesiad cyson yn ei le ers blynyddoedd lawer a bydd angen amser i ganiatáu i Broffil newydd y Cyfnod Sylfaen (FPP), a gyflwynwyd yn 2015, wreiddio.

Cymharu â mannau eraill

- Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig ar hyn o bryd, gan na chafodd ei chasglu'n genedlaethol tan 2015. Hefyd mae'r asesiad yng Nghymru yn wahanol i Loegr.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Dengys dadansoddiad o'r data Proffil Datblygiad ac Asesu Plant (CDAP) ar gyfer 2012/13, a gymerwyd o sampl o ysgolion adeg mynediad i'r Cyfnod Sylfaen, fod 71% o'r plant a aseswyd yn ardaloedd chwarterel 1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) – (y mwyaf difreintiedig), a 27% o blant yn ardaloedd chwarterel 4 WIMD (y lleiaf difreintiedig) wedi syrthio o dan eu hoed datblygiadol gwirioneddol.
- Bellach mae data cychwynnol a gymerwyd o ganlyniadau'r Asesiad Gwaelodlin FPP cyntaf, a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref 2015, ar gael. Asesiad datblygiadol newydd yw'r FPP a gynhelir ar gyfer pob plentyn ledled Cymru yn ystod y 6 wythnos gyntaf yn y Derbyn. Oherwydd ei fod yn asesiad newydd, bydd angen peth amser cyn iddo ymsefydlu'n offeryn asesu cymharol gadarn. Yn Abertawe, aseswyd 2,741 o blant yn ôl canlyniad (1+, 2+, 3+) ar draws pedwar maes dysgu (Iaith, Mathemateg, Personol a Chymdeithasol, Corfforol) yn ystod eu chwe wythnos gyntaf yn y derbyn (pan fuasai'r mwyafrif yn 4 oed).

- Mae Canlyniad 2+ yn cyfateb yn agos i oed mwyafrif y plant ar adeg yr asesiad ac felly dyma'r canlyniad a geisir. Mae Canlyniad 1+ yn is na'r lefel datblygiad a ddisgwylyr, ac mae Canlyniad 3+ yn adlewyrchu'r plant hynny sy'n uwch na'r lefel datblygiad disgwyliedig ar gyfer plentyn 4 oed. At ei gilydd, ar draws pob un o'r pedwar maes dysgu, cyflawnodd 64.2% o'r plant 4 oed y canlyniad 2+ disgwyliedig. Mewn laith, roedd 52.7% o'r garfan yn uwch na chanlyniad 2+, ond cyrhaeddodd rhywfaint yn fwy hyn yn achos datblygiad Mathemategol (57.5%). Roedd y canlyniadau'n fwy calonogol yn achos datblygiad Corfforol a Phersonol a Chymdeithasol (72.2% a 76.6%).
- Dengys ymchwil Marmot, sy'n tynnu ar ddata o Loegr, sut mae'r bwlch cyrhaeddiad yn agor yn ifanc ac yn parhau neu'n cynyddu ar draws cyfnodau addysg.
- Mae'r ffigurau'n awgrymu bod yr effaith hon yn dilyn y llethr cymdeithasol, heb doriad amlwg yn ôl lefel amddifadedd, gan ddangos yn eglur bod angen 'cyffredinoled cymesur' fel yr argymhellwyd yn Adolygiad Marmot. O dan gyffredinoled cymesur, dylid darparu cefnogaeth yn gymesur â'r angen, fel bod unigolion ar hyd y llethr cymdeithasol yn cael eu codi i'r un lefel â'r rhai ar y brig.
- Roedd 122 o Blant yn Derbyn Gofal (PDG) rhwng 0 a 4 oed yn 2015. Roedd hyn yn cyfrif am 23.7% o'r boblogaeth PDG gyffredinol.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae cysylltiad amlwg rhwng iechyd a chyrhaeddiad addysgol ac amddifadedd, ac mae effaith hynny i'w gweld ar draws y llethr cymdeithasol yn Abertawe. Mae effaith niweidiol amddifadedd yn cychwyn yn ifanc iawn ac yn cynyddu ar hyd oes person. Gall gweithredu yn gymesur â'r angen i gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod y blynyddoedd cynharaf oll helpu i liniaru'r effaith hon a thorri'r cysylltiadau hyn.
- Mae'r cysyniad o 'fod yn barod ar gyfer yr ysgol' yn cael ei gefnogi'n gryf gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Dinas Iach Abertawe a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Y nod yw sicrhau bod pob plentyn yn dechrau yn yr ysgol o'r un man cychwyn, ac mae'n cwmpasu amrywiaeth o wahanol elfennau, gan gynnwys datblygiad corfforol, meddyliol ac emosiynol a chyfathrebu a sgiliau cymdeithasol. Mae'n ddangosydd cyffredinol ar gyfer pa mor llwyddiannus y bydd plentyn yn ymdopi â chychwyn yn y feithrinfa neu'r ysgol.
- Dangosodd data lleol a gasglwyd yn 2012 nad oedd 75% o blant wedi cyflawni'r garreg filltir ddatblygiadol ddisgwyliedig o ran eu hoed yn 3 oed. Nid oedd mwyafrif y plant hyn yn cyrchu 'Dechrau'n Deg'; o blith yr 883 o blant nad oeddent yn cyrraedd y garreg filltir ddisgwyliedig, nid oedd 453 ohonynt yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Dengys yr wybodaeth a gasglwyd fod bwlch datblygiad cyfartalog o 10 mis rhwng plant o oed tebyg, yn dibynnu ar ble maen nhw'n byw.
- Mae cydweithio ar draws sefydliadau yn anodd ac yn gymhleth ond, mewn gwirionedd, dylai llwyddiant yn hyn o beth fod yn bosib gydag ymdrechion cadarn gan yr holl sefydliadau cysylltiedig.
- Rhoddir blaenoriaeth uchel i hyrwyddo rôl hanfodol gofal plant wrth fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, gydag ymwybyddiaeth sylweddol o'r dyletswyddau statudol a amlinellwyd yn Neddf Gofal Plant 2006 a'r rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n ofynnol i gynnal y rhain. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid, felly, yn gosod gwerth ar feithrin plant a'u datblygiad a'u llesiant cyfannol, ac yn deall hynny.

- Bernir bod canolbwyntio ar ymwneud a chyfranogiad dyfodolaidd rôl yr oedolyn (y Gweithlu Gofal Plant) o ran Graddfa SSTEW yng nghyswllt lleoliadau gofal plant yn flaenoriaeth uchel, gan adeiladu ar ECERS-R ac ECERS-E/ITERS-R, a chanolbwyntio ar yr addysgeg o fewn y lleoliad, rôl yr oedolyn wrth gynnal dysgu a datblygiad, gyda'r farn bod rhyngweithio o ansawdd uchel gyda phlant a rhyngddynt, gan gynnwys israddfeydd sy'n ymwneud â meddwl yn gritigol, asesu ar gyfer dysgu a chynnal ac estyn iaith a chyfathrebu yn hanfodol bwysig.
- Mae chwarae'n gosod sylfeini llythrennedd, mae'n sail ar gyfer dysgu, ac mae'n meithrin datblygiad cyfannol, o adeg y geni ymlaen.

Rhagolygon at y dyfodol

- Byddai cydnabod y blynyddoedd cynnar a dylanwad profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar broblemau iechyd a chymdeithasol diweddarach yn golygu bod y ffocws yn dychwelyd at yr enillion yn sgîl buddsoddiad mewn ataliaeth ac ymyrraeth seiliedig ar dystiolaeth yn y blynyddoedd cynnar.
- Mae ymrwymiad oddi mewn i Raglen Gomisiynu'r Bwrdd Iechyd a Chynllun Ataliaeth yr awdurdod lleol a'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer datblygu iaith a lleferydd yn gadarnhaol, gyda chymau gweithredu wedi'u cynllunio ar sail amlasiantaeth.


Sut olwg fyddai ar welliant?

- Cau'r bwlch o ran cyrraedd cerrig milltir datblygiadol, yn arbennig iaith a lleferydd.

Ynghylch y dystiolaeth

- Nid oes data dibynadwy yng Nghymru o dan Gyfnod Sylfaen 2 (7 oed) ynghylch cyrhaeddiad. Nid oes data cyrhaeddiad ar gael yn genedlaethol chwaith yn erbyn WIMD, er bod cymariaethau yn ôl Prydau Ysgol am Ddim (FSM) / dim Prydau Ysgol am Ddim (non-FSM). Fel y nodwyd uchod, bydd data o'r FPP yn cymryd amser i wreiddio a bod yn ddigon cadarn ar gyfer dadansoddi. Mae data Dechrau'n Deg o'r Atodlen Sgiliau Tyfu (SOGS) yn 2 oed ac yn 3 oed yn awgrymu mai ym maes iaith a lleferydd y gwelwyd y gwelliant mwyaf; fodd bynnag, ni fydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal yn gyffredinol bellach o fewn y Rhaglen, ac felly ni fydd ar gael i'w ddadansoddi y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol.

Canlyniad B: Bod pobl yn dysgu'n llwyddiannus



Ynghylch y Canlyniad hwn

Mae dysgu'n hanfodol ar gyfer llesiant unigolion a chymunedau. Dysgu oed ysgol yw ein prif ffocws, wrth gwrs, ond mae angen sicrhau bod dysgu'n digwydd gydol oes, a bod y cenedlaethau'n cefnogi ei gilydd. Mae addysg yn helpu i godi pobl allan o dlodi ac yn amddiffyn y rhai sydd mewn perygl o ddiodef tlodi ac anfantais. Mae sgiliau'n cynyddu cyflogadwyedd ac o fudd i'r economi. Mae angen i gyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau fod ar gael yn y gweithle ac mewn cymunedau, yn ogystal â mewn lleoliadau ffurfiol. Mae gan addysg a hyfforddiant anffurfiol hefyd rôl bwysig i'w chwarae.

Mae'r diagram sbardunau yn rhannu Canlyniad B yn ddwy agwedd allweddol ar ddysgu, yng nghyswllt presenoldeb (Sbardun Sylfaenol B1) a datblygu sgiliau a chymwysterau (B2). Fodd bynnag, mae cysylltiad rhwng pob un o'r chwe canlyniad poblogaeth a'i gilydd, a gall ffactorau (neu sbardunau) eraill hefyd gael effaith ar y canlyniad – 'Bod pobl yn dysgu'n llwyddiannus'.

I grynhoi, mae'r ddau sbardun yn gyffredinol gadarnhaol i Abertawe ar hyn o bryd; adlewyrchir hyn gan sgoriau llesiant o 7 a gynigir yn y ddau achos, gan fod presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol (fel y'u mesurir erbyn cyfnod allweddol 4) fel ei gilydd yn uwch na'r meincnodau disgwylidig ac yn gwella.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr asesiad drafft ar gyfer sbardun B2 yn arbennig bellach yn cael ei lunio'n bennaf o safbwynt addysg statudol ffurfiol, a byddai'n elwa o gynnwys ffynonellau tystiolaeth ychwanegol a'i ddatblygu i ymgorffori agweddau ehangach ar ddysgu.

Adolygiad o'r sbardunau unigol: Canlyniad B

B1: Plant, pobl ifanc ac oedolion yn mynychu eu hysgolion a'u cyrsiau hyfforddi

Tystiolaeth:	Ystadegau lefel presenoldeb disgyblion a gedwir ar systemau ysgolion ac awdurdodau lleol
	Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru
	Dadansoddiad lleol manwl o ddata presenoldeb
Sgôr llesiant a chrynodeb:	6 - Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella'n gyflymach nag ar lefel genedlaethol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae presenoldeb yn Abertawe yn yr ail chwarterel ar hyn o bryd, o'i gymharu â'r 21 ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru, a gallai wella ymhellach unwaith bydd perfformiad gwell i'w weld mewn lleiafrif o ysgolion lle mae presenoldeb yn dal yn broblem.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none">• Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 7. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6.• Roedd dau brif bryder yn ymwneud â'r ystod o ddarpariaeth sydd ar gael ac i ba raddau y mae'n diwallu anghenion pobl a hefyd yr awydd i godi dyheadau pobl ifanc ac felly eu hannog i fynd i'r ysgol yn fwy rheolaidd.• Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 7 ar gyfer y sbardun hwn ar hyn o bryd

Cryfderau Abertawe

- Roedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd ym mlwyddyn academiaidd 2015/16 yn safle 11 o blith y 22 o ardaloedd yng Nghymru. Y safle meincnod disgwylidig oedd 14, felly mae'r perfformiad yn well na'r disgwyl.
- Roedd presenoldeb mewn ysgolion cynradd ym mlwyddyn academiaidd 2014/15 yn safle 11 o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Y safle meincnod disgwylidig oedd 14, felly mae'r perfformiad yn well na'r disgwyl (nid yw data 2015/16 wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru eto).
- Mae PCYDDS yn brifysgol ranbarthol fawr sector deuol gyda champysau o Abertawe i Aberystwyth sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr, ehangu mynediad i fyfyrwyr a chyflwyno cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd mae gan Grŵp PCYDDS 9,930 o fyfyrwyr AU a 3,650 o fyfyrwyr AB amser llawn a 7,000 rhan-amser – daw 90% o ardaloedd sydd o fewn 50 milltir. Mae'r brifysgol yn creu cymdogaeth newydd yn yr hen ddociau gerllaw canol dinas Abertawe mewn partneriaeth â diwydiant.
- Mae Prifysgol Abertawe wedi profi twf enfawr mewn ceisiadu gan fyfyrwyr a niferoedd cofrestru, gyda chyfanswm nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2015/16 yn 14,878 o'i gymharu â 10,735 bum mlynedd yn ôl. Twf Prifysgol Abertawe mewn ceisiadau gan israddedigion rhwng 2012 a 2016 yw'r 2il fwyaf yn y DU.
- Coleg Gŵyr Abertawe – fe'i ffurfiwyd yn 2010 fel y cyntaf o'r colegau Addysg Bellach a drawsffurfiwyd – mae ganddo 4,500 o fyfyrwyr amser llawn a 8,000 o fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar un o chwe champws y coleg ar draws y Ddinas a'r Sir.

Newidiadau dros amser

- Mae presenoldeb yn y ddau gyfnod wedi gwella'n gynt nag ar draws Cymru gyfan. Mewn ysgolion uwchradd, gwelwyd gwelliant o 92.0% i 94.3% ers blwyddyn 2011/12. Mewn ysgolion cynradd, gwelwyd gwelliant o 92.9% to 94.9% ers blwyddyn 2010/11.
- Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae presenoldeb disgyblion sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal wedi gwella'n fwy na phresenoldeb plant nad ydynt yn derbyn gofal yn Abertawe, sy'n gwbl groes i'r sefyllfa flaenorol.

Cymharu â mannau eraill

- Mae Abertawe yn safle 11 o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru; y meincnod disgwyliedig ar sail mesurau amddifadedd (prydau ysgol am ddim) fyddai safle 14.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd yn amrywio o 92.9% i 96.2% ym mlwyddyn academaidd 2015/16.
- Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn amrywio o 90.5% i 96.2% ym mlwyddyn academaidd 2015/16.
- Yn gyffredinol, gwelir cyfraddau presenoldeb is mewn ardaloedd sydd â mwy o amddifadedd.
- Mae dadansoddiad pellach o bresenoldeb yn ôl ardal gymunedol yn cael ei ystyried.
- Mae gan rai grwpiau o ddisgyblion lefelau presenoldeb sy'n destun pryder.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yn ysgolion Abertawe wedi bod yn gyffredinol dda. Cyn y cyfnod hwn, roedd presenoldeb mewn ysgolion uwchradd fel arfer yn cyfateb i'r safle meincnod disgwyliedig bob blwyddyn, tra bod presenoldeb mewn ysgolion cynradd gryn dipyn yn is na'r meincnod.
- Mae cyfatebiaeth gref rhwng presenoldeb yn yr ysgol a chyflawniad academaidd; o ganlyniad mae gwella presenoldeb yn faes blaenoriaeth i'w wella yn Abertawe.
- Mae'r gwelliant o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn Abertawe yn cyfateb yn dda i'r canlyniadau gorau erioed yng nghyfnod allweddol 4 yn ystod y blynnyddoedd diwethaf.
- Daeth ymchwiliad craffu yn 2015 a oedd yn edrych ar gynhwysiad addysg i'r casgliad fod lles a chyflawniad addysgol plant yn cael eu cefnogi orau mewn ysgolion prif ffrwd yn hytrach nag unedau arbenigol.
- Mae teimlo'n ddiogel yn yr ysgol yn fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe – roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y 'Sgwrs Fawr' 2016/17.

Rhagolygon at y dyfodol

- Ni ellir cynnal presenoldeb yn yr ysgol ar y lefelau presennol neu'n uwch drwy ymdrech aruthrol gan ysgolion, rhieni a swyddogion lles addysg.
- Wrth i adnoddau leihau'n unol â phwysau ariannol, bydd yn dod yn anoddach cynnal yr ymdrech hon.

- Byddai'n beth da adnabod a thargeddu disgyblion â phroblemau presenoldeb yn well os yw presenoldeb i wella, ond mae lefelau adnoddau yn cyfyngu ar allu ysgolion i wneud hynny.
- Mae angen targedu grwpiau o ddisgyblion lle mae presenoldeb yn broblem ar gyfer ymyriadau â ffocws.
- Bydd proffilio gwell i asesu pa mor agored i niwed yw disgyblion yn helpu ysgolion i baru unigolion ag ymyriadau addas.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Byddai Abertawe yn chwarterl uchaf Awdurdodau Lleol Cymru o ran presenoldeb yn yr ysgol yn y ddau gyfnod (safle 5 neu'n uwch)
- Abertawe fyddai â'r lefelau presenoldeb gorau o blith awdurdodau trefol Cymru (ar hyn o bryd mae'n 2il o 4).

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae data lefel presenoldeb disgyblion ar gael dros gyfnod o flynyddoedd lawer ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol yn Abertawe ac yng Nghymru. Mae'r data hwn yn gwbl addas at y diben ac yn cynnwys lefel uchel o fanwl gywirdeb.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol yn y ddau gyfnod, ac fe'u cynhyrchir at safonau'r Ystadegau Gwladol.
- Nid yw'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn statudol; felly nid yw presenoldeb yn cael ei fonitro fel mater o drefn yn achos myfyrwyr 6ed dosbarth.
- Byddai dadansoddi data a thueddiadau ym maes cyfranogiad mewn Addysg Bellach ac Uwch (AB/AU) a Dysgu Gydol Oes (DGO) ymhellach yn ddefnyddiol.

B2: Pobl yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau mae arnynt eu hangen ac yn gallu dysgu ar hyd eu hoes

Tystiolaeth:	Ystadegau arholiadau ar lefel y disgybl a gedwir ar systemau awdurdodau lleol ac ysgolion.
	Datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru.
	Dadansoddiad lleol manwl o ddata arholiadau.
	Gwybodaeth gwerth ychwanegol a gynhyrchwyd gan Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT).
	Dadansoddiad rhanbarthol a gynhyrchwyd gan ERW (<i>Ein Rhanbarth ar Waith</i>).
Sgôr llesiant a chrynodeb:	7 - Mae canlyniadau cyfnod allweddol 4 yn Abertawe yn 2015, ac eto yn 2016, yn chwarterl uchaf ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, ac maent wedi parhau i wella'n gynt na'r hyn a welwyd ar lefel genedlaethol. Rhoddodd y mesuriadau gwerth ychwanegol (a ddefnyddir i ddangos cynnydd disgyblion) Abertawe yn y safle uchaf yng Nghymru yn 2015. Mae Estyn wedi cydnabod mai ysgolion uwchradd Abertawe yw'r grŵp o ysgolion o'r fath sy'n perfformio orau yng Nghymru. Gallasai'r sgôr fod yn uwch; ond nid yw addysg ôl-16 wedi derbyn sylw eto yn y dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, mae dadansoddiad diweddar ar gyfer addysg ôl-16 yn awgrymu bod

	perfformiad yn fwy anghyson ar y lefel honno.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 7. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 6 . • Roedd y prif faterion a nodwyd o fewn y sbardun hwn yn cynnwys y ffaith nad oedd y system addysg yn paratoi myfyrwyr at waith, bod angen mwy o gyrsiau galwedigaethol ac y dylid cynnig amrywiaeth ehangach o gyrsiau i fyfyrwyr. • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 6 ar gyfer y sbardun hwn ar hyn o bryd

Cryfderau Abertawe

- Canlyniadau Abertawe yng nghyfnod allweddol 4 yn 2015 oedd y 3^{ydd} orau o blith 22 awdurdod lleol Cymru, ar sail mesur cynhwysol lefel 2. Mae canlyniadau 2016 yn uwch na rhai 2015, ond nid yw canlyniadau Cymru gyfan ar gael eto.
- Yn 2015, canlyniadau cyfnod allweddol 4 Abertawe oedd yr uchaf yng Nghymru o ran gwerth ychwanegol (cynnydd disgyblion). Roedd yr holl fesurau cyfnod allweddol 4 eraill yn y chwarter uchaf yng Nghymru, ac Abertawe hefyd oedd yr awdurdod trefol ar y brig (o blith 4), a hynny o gryn dipyn.
- Mae canlyniadau arbennig o dda yn y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth).
- Dengys dadansoddiad o'r data sydd ar gael er bod lefelau cyrhaeddiad cyffredinol Plant sy'n Derbyn Gofal yn sylweddol is nag ar gyfer disgyblion eraill, roedd eu lefel cyflawniad (maint y cynnydd maent yn ei wneud rhwng cyfnodau allweddol) yn aml yn well.
- Yn 2015, ni adawodd dim myfyrwyr blwyddyn 11 addysg amser llawn heb o leiaf un cymhwyster.
- Mae'r bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ar ôl blwyddyn 11 yn cymharu'n dda â Chymru gyfan, ac maent wedi lleihau'n gyson.
- Sefydlwyd Partneriaeth Cyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru yn 2003 i alluogi pobl yn Ne-orllewin Cymru i ymrwymo i Addysg Bellach ac Uwch. Mae'r bartneriaeth yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau dysgu a chodi dyheadau, o weithdai byr i Brifysgol Haf breswyl dair wythnos, a gyflwynir i bobl sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sy'n Gadael Gofal. Yn y grwpiau hyn, mae'r bartneriaeth yn ceisio gweithio gyda grwpiau eraill nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch a myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae gan y ddwy brifysgol berthnasoedd hirsefydlog â sefydliadau cyflogwyr.
- Ym Mhrifysgol Abertawe, mae paneli diwydiant a busnes yn rhoi cyngor ar y sgiliau a'r rhinweddau y mae angen i raddedigion feddu arnynt a chynorthwyo wrth gadw'r cwricwla'n gyfredol. Mae myfyrwyr yn manteisio mwyfwy ar gyfleoedd lleoliadau gwaith. Mae'r brifysgol hefyd yn darparu rhaglenni proffesiynol drwy ei phartneriaethau â chyflogwyr, i sicrhau y diwellir anghenion eu gweithlu, yn ogystal â chyflwyno'r sgiliau iawn ar gyfer gweithlu'r dyfodol.
- Mae PCYDDS yn datblygu lleoliadau gwaith fel rhan annatod o'i chynnig academaidd i sicrhau bod gan ei graddedigion brofiad o'r byd gwaith. Mae Athrofa Cymru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith yn PCYDDS yn cynnig fframweithiau arfer proffesiynol,

dysgu proffesiynol parhaus ac amrywiaeth eang o lwybrau dysgu yn y gweithle sy'n cyfateb i ofynion cyflogwyr ar gyfer darpariaeth hyblyg.

- Roedd 92% o israddedigion PCYDDS mewn cyflogaeth a/neu astudiaeth bellach chwe mis ar ôl graddio.
- Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn integreiddio rhifedd, llythrennedd, llythrennedd digidol a sgiliau cyflogadwyedd ym mhob un o'i raglenni amser llawn.
- Cyfradd lwyddiant gyffredinol Coleg Gŵyr Abertawe yn y flwyddyn ddiweddaraf sef 2015/16 oedd 86%, a'r ffigur ar gyfer y prif gymwysterau oedd y trydydd gorau yn y sector.
- Mae 78% o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe'n cyflawni graddau dosbarth 1af neu II(I) (2015/16) ac mae 81% yn cael eu cyflogi fel graddedigion neu'n cael hyfforddiant pellach o fewn chwe mis o raddio. Mae cyfran y myfyrwyr mewn swyddi /astudiaeth bellach i raddedigion yn gosod Abertawe'n gyson yn yr 20 uchaf ar draws yr holl dablau cynghrair.
- Mae Prifysgol Abertawe yn y 23ain safle yn y DU ar gyfer rhagoriaeth ymchwil ac eto mae ganddi gyfran gymharol uchel o fyfyrwyr o ardaloedd a chefnidiroedd difreintiedig. Mae'n un o brif brifysgolion y DU ar gyfer ychwanegu gwerth i sicrhau'r canlyniadau gorau posib i bob myfyriwr ni waeth beth yw ei gefndir neu ei gymwysterau wrth gofrestru.
- Mae Prifysgol Abertawe'n darparu cyrsiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus er mwyn ailhyfforddi a gwella sgiliau'r rhai mewn gwaith. Cefnogir hyn gan yr Academi Datblygiad Proffesiynol sydd newydd ei sefydlu sy'n cefnogi Adrannau Colegau Academaidd a Gwasanaethau Proffesiynol i ddatblygu cyrsiau hyfforddi datblygiad personol a phroffesiynol (DPPP) perthnasol, o safon ar gyfer busnesau ac unigolion yn allanol i'r brifysgol.

Newidiadau dros amser

- Mae canlyniadau cyfnod allweddol 4 wedi gwella'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn Abertawe, ac yn gyflymach nag ar draws Cymru.
- Gwelwyd gwelliant yng nghanlyniadau'r mwyafrif o feysydd pwnc dros amser.

Cymharu â mannau eraill

- Mae canlyniadau cyfnod allweddol 4 Abertawe gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig, ac maent yn uwch nag awdurdodau trefol eraill Cymru.
- Roedd yr holl fesurau cyfnod allweddol 4 yn 2015 yn gosod Abertawe yn chwarterel uchaf awdurdodau Cymru. Dylid cymharu hyn â'r safle meincnod disgwylidig ar sail ffactorau amddifadedd, sef 14.
- Mae canlyniadau cyfnod allweddol 4 yn Abertawe wedi gwella'n gynt nag yn achos mwyafrif ardaloedd ALI Cymru.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae disgyblion o gefndir mwy difreintiedig yn sicrhau canlyniadau sy'n sylweddol is na'r rhai o ardaloedd llai difreintiedig.
- Mae mwyafrif yr 14 o ysgolion uwchradd yn arddangos canlyniadau da iawn o ran cyrhaeddiad a chyflawniad, ond mae peth tanberfformiad yn parhau mewn lleiafrif o ysgolion ac mewn rhai meysydd pwnc mewn ysgolion penodol.

- Mae disgyblion Prydeinig nad ydynt yn wyn yn perfformio'n well na'u cyfoedion erbyn diwedd cyfnod allweddol 4, sy'n cynrychioli gwerth ychwanegol cadarnhaol sylweddol.
- Mae lefelau cyrhaeddiad bechgyn yn dal yn is na merched yng nghyfnod allweddol 4, ond mae'r bwlch yn cau'n gyson. Mae hyn yn fwyaf amlwg yn y pynciau iaith.
- Nid yw plant sy'n derbyn gofal yn gwneud cystal â disgyblion eraill yng nghyfnod allweddol 4; fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn cyrraedd eu targedau personol.
- Mae canlyniadau ôl-16 ar gyfer myfyrwyr Abertawe sy'n mynychu dosbarthiadau'r chweched mewn ysgolion yn dangos cryn gyfnewidoldeb rhwng ysgolion, gydag amrediad eang mewn canlyniadau. Yn gyffredinol, mae canlyniadau'n is na'r cyfartaledd i Gymru ar gyfer 2016, er mai tua thraean o fyfyrwyr yn unig sy'n dewis parhau â'u hastudiaethau mewn chweched dosbarth.
- Mae dros hanner o'r myfyrwyr mewn addysg bellach yn Abertawe yn mynychu Coleg Gŵyr Abertawe. Mae canlyniadau Safon Uwch ar gyfer y coleg ymhlith y gorau yng Nghymru.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae perfformiad cyffredinol ysgolion Abertawe yng nghyfnod allweddol 4 yn ardderchog, ac mae Estyn yn cydnabod mai ysgolion uwchradd Abertawe yw'r grŵp o ysgolion uwchradd sy'n perfformio orau yng Nghymru.
- Mae canfyddiad y cyhoedd o ysgolion uwchradd Abertawe yn dda at ei gilydd, gyda sylw cadarnhaol yn rheolaidd yn y wasg ynghylch eu perfformiad a gwella lefelau presenoldeb.
- Mae cefnogaeth wrth symud i oedolaeth, yn enwedig i bobl ifanc ddiameddifyn, yn fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe - roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer 'Sgwrs Fawr' 2016/17. Hoffent weld amgylchedd ysgol sy'n eu helpu i ffynnu, cefnogaeth i bobl sy'n dysgu drwy wneud, yn hytrach nag ysgrifennu neu wrando, mwy o ffocws ar hawliau, cyfrifoldeb a chyfleoedd wedi'u sgaffaldio, gwybodaeth am ble i fynd os oes angen cefnogaeth a chefnogaeth i siarad pan fydd angen help.
- Mae cwricwlwm am oes yn fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe – roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer 'Sgwrs Fawr' 2016/17.

Rhagolygon at y dyfodol

- Gan fod lefelau perfformiad eisoes mor uchel, bydd ysgolion yn gwneud yn dda i gynnal y canlyniadau cyfredol o ystyried y pwysau cynyddol ar gyllidebau.
- Nod gwell proffilio ac olrhain hynt disgyblion yw canfod anghenion unigol yn well a monitro ymyriadau, ac mae hynny'n helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer pob disgybl a dyrannu adnoddau ar gyfer anghenion.
- Mae Ymgynghorwyr Her yn gweithio gyda phob ysgol i'w helpu i gynnal a gwella safonau. Mae ysgolion yn hunanwerthuso'u perfformiad bob blwyddyn ac yn rhwydweithio ag ysgolion eraill i rannu arfer gorau.


Sut olwg fyddai ar welliant?

- Gan fod y perfformiad cyfredol eisoes yn y chwarter uchaf, a bod pwysau cynyddol ar gyllidebau, bydd ysgolion yn gwneud yn dda i gynnal y safonau presennol.
- Dylid canolbwyntio ar nod o gynnal y perfformiad chwarter uchaf a pharhau'n awdurdod trefol gorau Cymru.
- Byddai Plant sy'n Derbyn Gofal yn dangos lefelau o gyflawniad a chyrraeddian sy'n gymaradwy â phlant eraill.

Ynghylch y dystiolaeth

- Cesglir data canlyniadau arholiadau'n flynyddol o systemau ysgol, ac mae'n cael ei ddadansoddi'n lleol ar gyfer pob ysgol. Yn wreiddiol, mewnforiwyd y data hwn i'w systemau o fyrddau arholi.
- Cyfnod allweddol 4 (CA4) yw prif fesur canlyniad cyflawniad yn ystod addysg statudol. Mae canlyniadau cyfnodau allweddol cynharach yn gerrig milltir ar hyd y ffordd at CA4.
- Ychydig iawn o ddata sydd ar gael yn genedlaethol yng Nghymru ar berfformiad disgyblion sy'n Blant sy'n Derbyn Gofal; fodd bynnag, mae data Abertawe'n dangos bod eu perfformiad wedi gwella rhywfaint yn y blynyddoedd diweddar.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu dadansoddiad bob tymor yr hydref ar gyfer pob ysgol, ac mae ERW hefyd yn cynhyrchu dadansoddiadau rhanbarthol.
- Cynhyrchir dadansoddiad gwerth ychwanegol gan Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT).
- Rhaid bod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau ôl-16 ar draws Cymru gan fod y cymysgwch o ddarpariaeth ysgol/ coleg yn amrywio'n fawr rhwng siroedd, ac mae'r mesurau perfformiad presennol a ddefnyddir ar gyfer ysgolion yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir ar gyfer colegau.

Canlyniad C: Bod gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da



Ynghylch y Canlyniad Hwn

Yn unol ag Adolygiad Marmot, diffinnir swydd dda fel a ganlyn:

- elfen o ddewis (ymreolaeth);
- cyflog teg am y sgiliau, yr wybodaeth a'r tasgau sy'n ofynnol;
- amodau gwaith sy'n amddiffyn ac yn hybu llesiant.

Mae'r diagram sbardunau yn rhannu Canlyniad C yn ddwy elfen - yr 'ochr bobl/gyflenwi' sy'n ystyried y ffactorau sy'n bwysig er mwyn i bobl gyrchu swyddi da (a grisialir yn Sbardun Sylfaenol C1), a'r 'ochr fusnes/y galw', sy'n canolbwyntio ar y ffactorau sy'n angenrheidiol i greu 'swyddi da' (a geir yn Sbardun Sylfaenol C2). Mae cysylltiad rhwng pob un o'r chwe chanlyniad a'i gilydd, ac felly mae ffactorau eraill sy'n cael effaith ar sicrhau swyddi da i Bobl Ifanc ac Oedolion (e.e. sgiliau, isadeiledd ac iechyd) yn bwydo i mewn trwy'r canlyniadau a'r sbardunau eraill.

I grynhoi, mae'r dystiolaeth o amgylch y ddau sbardun sylfaenol ar gyfer y canlyniad hwn yn awgrymu darlun cyffredinol gymysg, gyda rhai elfennau o'r data a gyhoeddwyd yn parhau'n gymharol wan, neu o leiaf heb wella'n sylweddol dros amser. Fodd bynnag, mae rhai agweddau'n darparu sail i fod yn obeithiol; gan gynnwys yr amrywiol raglenni cynnal cyflogaeth a ddarperir gan bartneriaid, cynnig rhanbarthol y Fargen Ddinesig, a'r ehangu diweddar ac arfaethedig ar brifysgolion lleol.

Adolygiad o'r sbardunau unigol: Canlyniad C

C1: Rhwystrau i gyflogaeth a hyfforddiant yn cael eu dileu

Tystiolaeth:	Cyfradd Gyflogaeth
	Gweithgarwch Economaidd (gan gynnwys yn ôl Ardal Gymunedol)
	Gweithgarwch Economaidd yn ôl Cymwysterau
	Cyfradd y Lwfans Cynnal Cyflogaeth
	Canran y Bobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET)
	Rhaglen LIFT
	Adroddiad 'Making Ends Meet'
	Adroddiad Astudiaeth Ddichonolrwydd 'Wheels 2 Work'
Sgôr llesiant a chrynodeb:	4 – Mae rhai pethau da yn digwydd yn Abertawe (e.e. mae ystod eang o wahanol ddarpariaeth ar gael) a bu cynnydd graddol yn y gyfradd gyflogaeth; fodd bynnag, mae Abertawe'n dal i gynnwys nifer fawr o bobl oed gwaith sydd heb waith ac mae agweddau y mae angen eu gwella i sicrhau newid sylweddol yn y sbardun hwn. Fodd bynnag, mae gan Abertawe o hyd ormod o bobl oed gwaithio nad ydynt yn gwaithio, ac mae angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth a hyfforddiant i greu newid sylweddol i'r sbardun hwn.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. • Roedd sylwadau a wnaed o fewn y sbardun hwn yn cynnwys cyfeirio mwy o bobl i fentrau i'w cael i ddychwelyd i waith, mynd i'r afael â materion budd-daliadau sy'n atal pobl rhag gwaithio megis cludiant, gofal plant a chyflogau gwael. • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 4 ar gyfer y sbardun hwn ar hyn o bryd

Cryfderau Abertawe

- Gwaith partneriaeth amlwg a pharhaus rhwng y prif sefydliadau sy'n mynd i'r afael â diweithdra yn Abertawe trwy'r Tîm Cyflawni Tegwch Economaidd (EEDT) sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (SCVS), Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, y Cyngor, Barnardos, Gwalia a Thai Coastal.
- Ystod amrywiol o brosiectau cyflogadwyedd person-ganolog i helpu unigolion i oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth (e.e. Cymunedau am Waith, Gweithffyrdd, LIFT, PACE, prosiectau Cynhwysiad Gweithredol WCVA) ynghyd â darpariaeth brif ffrwd (e.e. Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru). Mae EEDT yn gwneud gwaith i hybu cydlynid a chroes-gyfeirio rhwng y gwahanol ddarparwyr yn Abertawe.
- Creu cynllun arloesol newydd, 'Wheels 2 Work', sy'n darparu cynllun llogi moped i unigolion sydd heb waith, fel eu bod yn gallu goresgyn rhwystrau cludiant.
- Parhau i ddarparu'r fenter 'Y tu hwnt i Frics a Morter', gan sicrhau manteision cymunedol yn sgîl gweithgaredd caffael ac adfywio yn Abertawe, gan gynnwys creu lleoliadau profiad gwaith a hyfforddiant.

- Trwy gyflwyno'r Strategaeth Cadw mewn Cysylltiad (2005), mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau niferoedd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn 16-18 oed trwy:
 - Nodi'r bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod yn NEET
 - Gwella brocera a chydlynu cefnogaeth
 - Tracio a phontio cryfach wrth i bobl ifanc symud trwy'r system
 - Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
 - Cryfhau sgiliau a chyfleoedd cyflogadwyedd i bobl ifanc
 - Mwy o atebolrwydd am sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc
- Gwnaed cynnydd pellach ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Chynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn 2013 i ailfywiogi'r dull o gynyddu ymgysylltiad a dilyniant yng Nghymru.

Newidiadau dros amser

- Cyfradd Gyflogaeth: Yn unol â'r darlun ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig, syrthiodd y gyfradd gyflogaeth yn Abertawe rhwng 2008/09 a 2011/12 wrth i'r dirwasgiad effeithio ar y farchnad lafur. Dechreuodd y gyfradd gyflogaeth ymadfer yn 2012/13, ac erbyn 2015/16 roedd yn 70.3%, fymryn yn uwch na'r gyfradd cyn y dirwasgiad.
- Cyfradd y Lwfans Cynnal Cyflogaeth (ESA): Mae cyfradd ESA Abertawe yn gostwng, ond gan ei bod yn 9% o'r boblogaeth oedran gwaith (13,780 o unigolion) mae'n parhau'n sylweddol uwch na chyfradd Prydain Fawr, sef 6.2%.
- NEET: Bu tuedd ar i lawr yng nghyfran yr ymadawyr ysgol ym Mlwyddyn 11 oedd yn NEET, a hynny ledled Cymru rhwng 2008 a 2015. Mae data Abertawe wedi bod yn fwy amrywiol, ond mae cyfradd NEET y rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 wedi gostwng o 5.8% yn 2008 i 2.7% yn 2015.
- Bu gostyngiad yng nghanran y bobl ifanc NEET 16-18 oed o gymharu â'r rhai 16-18 oed y llynedd, ond mae 63% o'r grŵp NEET cyfredol (184 o bobl ifanc) naill ai 'heb fod ar gael' neu 'heb fod yn barod' i fynd i gyflogaeth neu hyfforddiant. Y rhain yw'r NEETs craidd sydd angen cefnogaeth arbenigol i fod yn barod i gychwyn ar gyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae canran y bobl ifanc NEET 17 ac 18 oed yn dal yn sylweddol uwch na'r rhai 16 oed. Mae hyn yn awgrymu bod cynaliadwyedd cyrchfannau ôl-16 yn rhan o'r broblem, o leiaf, ochr yn ochr â'r pontio o addysg orfodol.

Cymharu â manau eraill

- Roedd 107,400 o breswylwyr oedran gwaith Abertawe mewn cyflogaeth yn 2015/16. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd gyflogaeth o 70.3%, sy'n is na'r cyfraddau cyfatebol yng Nghymru (71.1%) a'r Deyrnas Unedig (73.6%).
- Ers 2013/14 mae cyfradd gyflogaeth Abertawe wedi tyfu'n gynt na'r gyfradd yn y Deyrnas Unedig, ac o ganlyniad, mae'r gyfradd gyflogaeth yn Abertawe wedi codi o 92% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn 2013/14 i 95.5% yn 2015/16.
- Dengys data ESA fod lefelau sylweddol uwch o segurddod economaidd oherwydd materion iechyd yn Abertawe o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig (9% o'r boblogaeth oedran gwaith ar ESA yn Abertawe o gymharu â 6.2% yn y Deyrnas Unedig). Prif achos hyn yw iechyd meddwl, gan fod problemau iechyd meddwl gan 49% o hawlwyr ESA Abertawe.

- Mae Abertawe yn safle 14 (o blith 22) o ran Awdurdodau Lleol Cymru sydd â'r ganran isaf o ymadawyr ysgol Blwyddyn 11 sy'n NEET. Mae cyfradd Abertawe, 2.7%, yn cyfateb i gyfradd Cymru, sef 2.8%.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae dadansoddi yn ôl yr Ardaloedd Cymunedol yn dangos gwahaniaethau sylweddol ar draws Abertawe. Roedd y cyfraddau cyflogaeth yn amrywio o 44.9% yn ardal y Ddinas i 62.3% yn Lluchwr. Fel y disgwyliid, mae cyfraddau llawer uwch o fyfyrwyr (yn rhai economaidd segur ac economaidd weithredol) yn ardaloedd y Bae a'r Ddinas sy'n agos at y prifysgolion.
- Roedd cyfradd y bobl 16-74 oed oedd yn economaidd segur oherwydd salwch hir dymor neu anabledd yn uwch na chyfartaledd Abertawe ym Mhenderi (10.5%), y Ddinas (9.5%) a Chwmtawe (7.8%).
- Mae data'r Arolwg Poblogaeth Blyneddol yn amlygu bod cyfraddau cyflogaeth yn Abertawe yn is i ferched; grwpiau oed penodol (e.e. 16-24 a 50-64); pobl ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith; a grwpiau o leiafrifoedd ethnig.
- Mae data'r cyfrifiad yn amlygu bod lefelau cymwysterau/sgiliau yn cael effaith ar gyfraddau cyflogaeth, gan fod unigolion â sgiliau lefel is yn llawer llai tebygol o fod mewn cyflogaeth na'r rhai â sgiliau lefel uwch. Er enghraifft, mae person oedran gwaith yn Abertawe oedd â chymhwyster lefel 4 neu uwch yn 2011 bron dwywaith mor debygol o fod mewn cyflogaeth (79.7%) â rhywun heb gymwysterau (40.3%). Roedd tri chwarter o'r rheiny oedd â phrentisiaethau mewn cyflogaeth.
- Fel y disgwyliir, dengys data'r ESA fod y cyfraddau'n uwch mewn ardaloedd sy'n hysbys o ran amddifadedd.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae tystiolaeth ansoddol o raglen LIFT yn awgrymu mai'r prif rwystrau i gyflogaeth yn Abertawe yw gofal plant, cludiant a diffyg sgiliau a phrofiad. Ategir hyn gan yr adroddiad 'Making Ends Meet' (2012), a ganfu mai gofal plant, cludiant a hyfforddiant ar gyfer gwaith (ynghyd â chyingor ar fudd-daliadau) oedd y prif faterion oedd yn effeithio ar ddiweithdra yn Abertawe.
- Yn anecdotiaidd, cydnabyddir mai cludiant yw'r rhwystr pennaf mae cleientiaid yn ei wynebu wrth chwilio am waith yn Abertawe, a bod rhai cyfleoedd cyflogaeth lleol yn anodd eu cyrchu ar gludiant cyhoeddus (e.e. Amazon).
- Nododd gwaith ymgynghori a wnaed gydag unigolion di-waith a darparwyr cymorth cyflogaeth ar draws De-orllewin Cymru fel rhan o astudiaeth ddichonolrwydd 'Wheels 2 Work' ddiffyg opsiynau cludiant fforddiadwy a'u hargaeledd fel rhwystr oedd yn atal unigolion di-waith rhag cael hyd i waith.
- O ran NEETs, ymhlith y rhwystrau penodol i gyflogaeth neu hyfforddiant a nodwyd trwy waith y Strategaeth Cadw mewn Cysylltiad roedd ffactorau iechyd a chymdeithasol (e.e. cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, ymddygiadol ac emosiynol, diffyg cefnogaeth gan rieni, hyder a symbyliad), ffactorau cysylltiedig â sgiliau (e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol, cyflogadwyedd, profiad gwaith, hyfforddiant, cymwysterau) a ffactorau strwythurol ehangach (e.e. tai, cludiant, gofal plant, eitemau cysylltiedig ag arian am waith).
- Mae data'r ESA yn amlygu arwyddocâd materion iechyd meddwl fel rhwystr i gyflogaeth (mae gan 49% o'r rhai sy'n hawlio'r ESA gyflwr iechyd meddwl). Mae

tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nad yw'r gwasanaethau cyfredol yn ymateb i nifer y bobl sydd angen cymorth gyda materion iechyd meddwl. Mae lle hefyd i wneud rhagor o waith gyda chyflogwyr, fel eu bod yn dod yn fwy cefnogol yng nghyswllt iechyd meddwl a llesiant.

Rhagolygon at y dyfodol

- Er bod y gyfradd gyflogaeth a chyfradd yr ESA fel ei gilydd yn symud i'r cyfeiriad cywir, mae'r lefelau'n dal yn llawer is na chyfraddau'r Deyrnas Unedig. Mae'r cymorth cyflogadwyedd prif ffrwd ac arian grant sydd ar gael yn Abertawe ar hyn o bryd yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem trwy ddarparu'r gefnogaeth wedi'i theilwra y mae ar unigolion ei hangen i symud i gyflogaeth, ac ar y sail bod y gefnogaeth hon yn parhau ar gael (ac yn absenoldeb unrhyw sefyllfa economaidd andwyol) galledd ddisgwyl yn rhesymol weld cynnydd graddol parhaus yn y gyfradd gyflogaeth (a gostyngiad graddol yn lefelau diweithdra).
- Fodd bynnag, mae swm sylweddol o'r cymorth cyflogadwyedd yn Abertawe yn cael ei ariannu trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop sydd bellach yn wynebu dyfodol ansicr oherwydd bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Yn yr un modd, gallai unrhyw wasgfa economaidd yn sgîl y refferendwm gael effaith niweidiol ar y farchnad lafur ac achosi i gyfleoedd cyflogaeth gyfangu. Gallai'r ffactorau hyn, fel ei gilydd, gael effaith negyddol ar y sbardun hwn.
- Mae'r agwedd bresennol at bobl ifanc NEET yn methu â chael effaith gadarnhaol ar grŵp craidd o bobl ifanc yn Abertawe. Yr her i bartneriaid yw nid yn unig cynnal yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, ond datblygu strategaeth well a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gefnogi'r rhai anoddaf eu cyrraedd. Yn sgîl y rhwystrau mae'r bobl ifanc hyn yn eu hwynebu, rhaid i'r strategaeth gynnwys mwy o gymorth unigol wedi'i deilwra a darpariaeth newydd i ymateb i anghenion heb eu diwallu wrth symud ymlaen i gyflogaeth neu hyfforddiant.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Newid sefydliadol a strwythurol i'n galluogi i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth.
- Byddai'r dangosyddion yn amlygu gwelliant cymedrol absoliwt ac yng nghyswllt cyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Ynghylch y dystiolaeth

- Defnyddiwyd nifer o gyfresi data a ffynonellau eraill i asesu'r sbardun hwn, er na ellir dadgrynhai pob un ohonynt ar lefel leol.
- Mae cysondeb yng nghanfyddiadau'r rhaglen LIFT, adroddiad 'Making Ends Meet', a'r dadansoddiad Canolfan Byd Gwaith ynghylch y prif rwystrau i waith yn Abertawe. Dim ond ers cyfnod cymharol fyr y mae'r prosiect Cymunedau am Waith a Gweithffyrdd+ wedi bod yn gweithredu, ond dros amser, wrth iddyn nhw ymgysylltu â niferoedd uwch o gyfranogwyr, bydd mwy o dystiolaeth sylfaenol ynghylch rhwystrau i gyflogaeth yn dod ar gael.
- Mae'r rhwystrau i gyflogaeth a nodwyd trwy'r Strategaeth Cadw mewn Cysylltiad yn cyfateb i ddarnau niferus o waith ymchwil ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig.

C2: Cyfleoedd da am swyddi yn cael eu creu

Tystiolaeth:	Nifer y Mentrau Busnes Gweithredol
	Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) fesul awr a weithiwyd (yn berthynol i gyfartaledd y Deyrnas Unedig)
	Canolrif yr enillion wythnosol gros – dadansoddiad gweithle
	Y Gwahaniaeth rhwng Cyflogau'r Ddwy Ryw
Sgôr llesiant a chrynodeb:	4 – Mae tystiolaeth bod bwlch cynhyrchiant Abertawe (GVA) yn cau, ond mae'n dal yn sylweddol ac mae angen mynd i'r afael ag ef i hwyluso creu 'swyddi da'. Hefyd, ar hyn o bryd, nifer cymharol fach o fusnesau sy'n cynhyrchu gweithgarwch economaidd yn Abertawe o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig ac mae'r enillion yn y gweithle yn sylweddol is o ddilyn yr un gymhariaeth. Mae arwyddion cadarnhaol y gallai cynlluniau ein Prifysgolion i ehangu a buddsoddiad posibl y Fargen Ddinesig gynhyrchu mwy o weithgarwch economaidd a swyddi da, ond bydd angen rhagor o waith i ymdrin â phroblemau recriwtio canfyddedig.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. • Y prif fater a nodwyd o fewn y sbardun hwn oedd y diffyg cyfleoedd swyddi yn Abertawe. • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 4 ar gyfer y sbardun hwn ar hyn o bryd

Cryfderau Abertawe

- Abertawe yw'r sbardun economaidd rhanbarthol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sy'n gyfrifol am 39% o allbwn y dinas-ranbarth (GVA) a lle ceir 39% o'r cyfanswm poblogaeth.
- Yn ystod y tymor hir mae'r bwlch cynhyrchiant rhwng Abertawe a Chymru wedi dechrau cau ac mae'n gwella o gymharu â lefel y Deyrnas Unedig.
- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol trwy Fwrdd Bae Abertawe, a mabwysiadodd Strategaeth Adfywio Economaidd Bae Abertawe yn 2013. Nod y strategaeth yw cau'r bwlch cynhyrchiant i 90% erbyn 2030, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi cynyddu i 83.1% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Cyfraddau cynhyrchedd isel yw'r factor allweddol sy'n sail i danberfformiad economaidd Abertawe (a'r Dinas-ranbarth ehangach). Bydd symud yr economi tuag sectorau a galwedigaethau gwerth uwch a thwf uwch yn hwyluso creu 'swyddi da'.
- Bydd Bargaen Ddinesig Bae Abertawe y cytunwyd arni'n ddiweddar yn creu cyfleusterau o'r radd flaenaf ym meysydd egni, gweithgynhyrchu call, blaengaredd a gwyddor bywyd gyda buddsoddiad sylweddol yn isadeiledd digidol y rhanbarth a sgiliau a doniau'r gweithlu'n sail i hyn. Bydd buddsoddiad gwerth £1.3bn yn gwireddu 9,500 o swyddi dros 15 mlynedd ar draws y rhanbarth gan greu cyfanswm cynnydd o £3.3bn mewn GVA.
- Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe (SERP) sy'n pennu sut cyflawnir Blaenoriaethau Adfywio Economaidd y D, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector a'r sector addysg.

- Mae Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn buddsoddi'n sylweddol yn Abertawe, a gallai hynny greu swyddi gwerth ychwanegol uwch a busnesau deilliadol.
- Mae menter y Cyngor, 'Y tu hwnt i Frics a Morter', yn gweithio gyda chontractwyr lleol i greu lleoliadau gwaith a hyfforddiant i bobl leol.
- Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe (ACA) yn cysylltu cyflogwyr posib â myfyrwyr prifysgol ac yn creu cyfleoedd rhwydweithio.
- Mae Prifysgol Abertawe'n canolbwyntio'n benodol ar ddiwallu prinder sgiliau mewn sectorau sy'n dibynnu ar wyddoniaeth, technoleg, mathemateg a phynciau meddygaeth ac mae wedi cynyddu darpariaeth yn y meysydd allweddol hyn gan gynnwys sefydlu Adran Cemeg newydd yn ddiweddar.
- Mae Coleg Gŵyr Abertawe'n berchen ar y rhan fwyaf o gyfranddaliadau cwmni hyfforddiant sy'n arbenigo mewn technegau gwella busnes ac yn gweithio gyda chwmnïau a sefydliadau eraill yng Nghymru a Lloegr.

Newidiadau dros amser

- Mae nifer y busnesau gweithredol yn Abertawe wedi cynyddu bron 6% ers 2004, er i'r nifer gyrraedd uchafbwynt o 6,695 yn 2007. Mae'r nifer wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Mae Gwerth Ychwanegol Gros Abertawe fesul Awr a Weithiwyd (GVApHW) wedi cynyddu bob blwyddyn yn ystod y cyfnod diweddaraf o 10 mlynedd.
- Mae enillion wythnosol amser llawn cyfartalog Abertawe (£471 yn 2016) yn is na lefel Cymru (£498) a'r Deyrnas Unedig (£539), ac maent wedi bod yn is yn gyson yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.
- Mae'r bwlch rhwng enillion canolrif amser llawn gwrywod a benywod fesul awr yn Abertawe wedi bod yn llawer llai nag ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Cymharu â mannau eraill

- Mae Abertawe'n dibynnu'n drwm ar gyflogaeth y sector cyhoeddus, gydag un o bob tair o swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae hyn yn llawer uwch na'r gyfran ar draws Cymru (26.7%) a'r DU (22.1%).
- Wrth ystyried rôl Abertawe fel y ganolfan weinyddol, fasnachol a hamdden ranbarthol, mae ganddi gyfran uwch o gyflogadwyedd yn y sectorau lletygarwch, gwasanaethau ariannol a manwerthu na Chymru a'r DU.
- Mae cyfradd gyfredol stoc busnes Abertawe (2015), 437, yn dal yn is na lefel Cymru (495) ac – yn fwy arwyddocaol – y Deyrnas Unedig (648).
- Mae GVApHW Abertawe wedi gwella o 80% i 83.1% o gyfartaledd y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod 2004-14.
- Mae enillion Abertawe yn 2016 yn 94% o'r ffigur cyfatebol ar gyfer Cymru ac yn 87% o ffigur y Deyrnas Unedig.
- Roedd y bwlch cyflog rhwng y ddwy ryw yn y Deyrnas Unedig, ar sail enillion canolrif gweithwyr amser llawn, yn dangos bod cyflog gwrywod (fesul awr, heb gynnwys goramser) 9.4% yn uwch nag eiddo benywod yn 2015, o gymharu â 9.6% yn 2014. Hwn yw'r bwlch lleiaf ers i'r arolwg gychwyn yn 1997, er mai cymharol ychydig o newid a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sefyllfa'n debyg ar draws

Cymru, lle'r oedd y bwlch cyflog rhwng y ddwy ryw wedi gostwng i 7.8% o 8.4% y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r darlun yn Abertawe'n eithaf gwahanol, gan fod cyflog canolrif llawn amser benywod yn uwch nag eiddo gwrywod ar hyn o bryd, er bod data lleol yn gallu newid ar sail mwy o amrywio'r samplau.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Nid oes data ar gyfer ardaloedd o dan lefel yr awdurdod lleol ar gael yn achos y sbardun hwn.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae Baromedr Busnes Cymru (a gyhoeddir gan y Siambr Fasnach) ar gyfer ail chwarter 2016 yn dangos bod 61.6% o fusnesau Cymru yn adrodd am anawsterau recriwtio, yn gyffredinol yn unol â chwarteri diweddar.
- Mae'r adborth yn datgelu mai'r canlynol yw'r prif resymau pam na all busnesau recriwtio:
 - sgiliau (sgiliau sylfaenol a diffyg pobl gymwys i wneud swyddi penodol)
 - pobl yn amharod i weithio am y cyflog y gall y cyflogwr fforddio ei dalu
 - pobl yn amharod i fyw yn yr ardal lle mae'r busnes, neu'n cael anhawster teithio i'r gwaith.

Rhagolygon at y dyfodol

- Heb fuddsoddiad cadarnhaol parhaus yn yr economi, bydd perfformiad economaidd Abertawe yn dal i fethu cadw i fyny â pherfformiad y Deyrnas Unedig, ac ni fydd ffyniant pobl yn gwella.
- Gallai cynnig Bargaen Ddinesig Bae Abertawe wireddu ein cynlluniau buddsoddi a chyflymu twf economaidd.
- Bydd cynlluniau ehangu Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cynyddu gallu dysgu ac ymchwil a datblygu, gan gynhyrchu sgiliau lefel uwch a mwy o gydweithio â diwydiant, gan arwain o bosib at greu swyddi gwerth uwch a busnesau sy'n deillio ohonynt.

Sut olwg fyddai ar welliant?


- Cynnydd yn nifer y mentrau gweithredol a'u cyfraddau goroesi.
- Cynnydd yn argaeledd swyddi gwerth uwch.
- Gwelliant parhaus yn y GVApHW fel bod y bwlch rhwng cyfartaledd Abertawe a'r Deyrnas Unedig yn lleihau.
- Gwell paru rhwng pobl a swyddi. Byddai cyflogwyr yn wynebu llai o anawsterau recriwtio.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae oedi o ryw 12 mis wrth gyhoeddi data GVA.
- Bu'r Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion yn destun newidiadau methodoleg ac amrywiadau ym maint y sampl ers 1997, ond mae amcangyfrifon y cyfnod o 2011 i 2016 yn gyson.
- Gwnaed nifer o newidiadau methodolegol i amcangyfrifon y bwlch cyflog rhwng y ddwy ryw ers iddynt gael eu llunio gyntaf yn 1997, felly dim ond y ffigurau o 2011 y gellir eu cymharu wrth ddadansoddi.

- Ni ddadansoddir arolygon y Siambr Fasnach ar lefel Abertawe ar hyn o bryd.
- Nid oes data ar gael o dan lefel Abertawe yn achos unrhyw un o'r cyfresi data.

Canlyniad D: Bod gan bobl safon weddus o fyw



Ynghylch y Canlyniad hwn

Argymhelliad adroddiad diweddar Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Dlodi yng Nghymru (Mehefin 2015) oedd y dylai Llywodraeth Cymru “fabwysiadu diffiniad clir o dlodi ar sail anghenion ac adnoddau”, ac y dylai’r “diffiniad gyfeirio hefyd at y ‘Safon Isafswm Incwm’, sy’n seiliedig ar yr hyn y mae’r cyhoedd yn barnu sy’n ddigon o arian i fyw arno er mwyn cynnal ansawdd bywyd cymdeithasol dderbyniol.”

Yn absenoldeb diffiniad clir o ‘safon weddus o fyw’, bernir mai’r Safon Isafswm Incwm (MIS) ddylai fod yn sbardun sylfaenol cyntaf i ni tuag at gyflawni’r canlyniad hwn (D1). Mae’r sbardun sylfaenol nesaf (D2) yn cydnabod rhai o’r anghyfiawnderau cymdeithasol a strwythurol sy’n ychwanegu at dlodi, ac mae’r trydydd (D3) yn cydnabod y gwahaniaeth hollbwysig y gall cefnogaeth i wneud dewisiadau gwariant da ei wneud i bob aelwyd, yn enwedig rhai sydd ar incwm isel.

Yn achos pob un o’r tri sbardun, mae’r sgôr llesiant a gynigir yn is na’r cyfartaledd. Mae D1 yn cydnabod nad yw mwyafrif pobl Abertawe mewn tlodi incwm, ond bod llesiant y rhai sydd yn y sefyllfa honno yn isel. Mae sbardunau D2 a D3 hefyd yn amlygu anghydraddoldeb ariannol yn Abertawe a’r anfantais mae rhai grwpiau o bobl yn ei hwynebu – ac o ganlyniad maent hefyd yn wynebu risg gynyddol effaith niweidiol.

Adolygiad o'r sbardunau unigol: Canlyniad D

D1: Pobl yn bodloni'r Safon Isafswm Incwm (cost safon byw sylfaenol a derbyniol)

Tystiolaeth:	Cyfran y swyddi sy'n cael eu talu o dan Gyflog Byw
	Cyfran yr aelwydydd sydd ag incwm isel
	GDHI (Incwm Gros Gwariadwy Aelwydydd)
	Sanctiynau Budd-dal
	Data ac arsylwadau Cyngor ar Hawliau Lles
Sgôr llesiant a chrynodeb:	4 – Nid yw'r mwyafrif o bobl Abertawe mewn tlodi incwm; ond yn achos y rhai sydd mewn tlodi, mae eu llesiant yn isel, ac mae hynny'n ychwanegu at fagl tlodi. Gellid gwneud mwy yn lleol i wella llesiant pobl sydd ar incwm isel.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none">• Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 3. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 3.• Y prif fater a nodwyd o fewn y sbardun hwn oedd bod gormod o ragolygon swyddi gwael a gormod o swyddi â thâl gwael yn Abertawe.

Cryfderau Abertawe

- Nid yw mwyafrif pobl Abertawe yn byw mewn tlodi incwm. Fodd bynnag, mae angen ymgysylltu'n fwy â'r rhai sydd yn y sefyllfa honno, ac yn ddelfrydol â'r rhai a fu yn y sefyllfa honno, er nad ydynt bellach, er mwyn canfod beth yw cryfderau Abertawe yn y maes hwnnw, yn eu barn nhw.
- Mae Abertawe'n elwa o ddarpariaeth Hawliau Lles rhagorol, sy'n helpu i ddatrys achosion cymhleth, yn herio penderfyniadau annheg ac yn cefnogi mwyaflu incwm trwy hyfforddiant a chefnogaeth uniongyrchol i weithwyr achosion. Mae gan yr asiantaethau lleol sy'n cynnig cymorth a chyngor ynghylch budd-daliadau enw arbennig o dda, ac mae'r gymuned yn ymddiried ynnddynt. Mae Age Cymru, tîm Hawliau Lles y cyngor a rhai sefydliadau lleol eraill (e.e. Gofal) yn cynnig cynrychiolaeth gyfyngedig mewn tribiwnlysoedd. Mae Cyngor ar Bopeth yn cynorthwyo gydag amrywiaeth o weithgareddau mwyaflu incwm, ond heb gynnig cynrychiolaeth mewn apeliadau. Mae Cymdeithasau Tai yn gwbl ymroddedig i fwyafu incwm eu tenantiaid gan fod hynny'n lleihau'r tebygolrwydd y cânt eu troi allan, yn ogystal â gwella ansawdd eu bywyd. Mae eu modelau busnes yn cynnwys cymarebau o'r gweithwyr sy'n darparu cyngor a chymorth fesul niferoedd o denantiaid, sy'n gallu bod yn feincnodau defnyddiol ar gyfer darparwyr gwasanaethau eraill. Ar hyn o bryd nid oes gan dîm rhenti'r Cyngor ddigon o adnoddau i gynnig mwy nag un Swyddog Cynhwysiad Ariannol.
- Mae agwedd fwy cyd-gynhyrchiol yn dechrau dod i'r amlwg yn y berthynas rhwng darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae Cydlynu o fewn yr Ardal Leol yn ehangu yn Abertawe ac yn rhoi cipolwg ar sut gellir adeiladu ar wydnwch naturiol pobl a'u hawydd i wella'u bywydau, ond mae angen ymdrin â hyn a'i feithrin yn y ffordd iawn. Mae gwersi'r gorffennol yn cael eu cydnabod, megis sut nad yw disgwyl i bobl sydd heb lawer o adnoddau personol (gan gynnwys hyder a gwybodaeth) i fentro ar dasgau heriol ar eu pennau eu hunain, wedi'r cyfan, yn eu "grymuso".

- Byddai angen gwaith ymgysylltu pellach ac ymchwiliadau i ganfod pa gryfderau eraill yn y boblogaeth/yr amgylchedd sy'n cefnogi'r sbardun hwn. Rhai enghreifftiau posibl fyddai: agweddau cadarnhaol at gydraddoldeb incwm a hawlio breintiau cyfreithiol; ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effeithiau (cymdeithasol ac ariannol) anghydraddoldeb incwm a/neu fethiant i fwyafu incwm yn lleol; ac agweddau cadarnhaol at hawlio budd-daliadau ymhlith y boblogaeth a gweithwyr proffesiynol perthnasol, i gynnal diwylliant o fwyafu incwm.
- Mae partneriaeth waith ragorol yn bodoli rhwng sefydliadau niferus yn y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol (FISG), sy'n gweithio tuag at nodau a rennir ac yn rhannu gwybodaeth ac ymarfer da. Cynrychiolir yr holl ddarparwyr tai cymdeithasol lleol, ynghyd â sefydliadau cyngor a chymorth o'r trydydd sector ac amrywiol dimau'r Cyngor. Mae mandad gan bob awdurdod lleol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) i gynnig cynllun ar gyfer "Cymorth Cyffredinol a Ddarperir yn Lleol" – sut cefnogir y trigolion mwyaf agored i niwed sydd wedi'u heithrio'n ariannol yn sgîl y newid i Gredyd Cynhwysol, a fydd yn gweld swm llai o fudd-daliadau'n cael ei dalu mewn un cyfandaliad misol i mewn i gyfrif banc trwy broses hawlio ar-lein, ar ffurf ôl-daliad misol, heb daliad am wythnos gyntaf unrhyw hawliad. Gall FISG grynhoi gwybodaeth ac adnoddau i ymdrin â rhai pryderon o dan y cynllun hwn.
- Mae agweddau cyd-gynhyrchiol at gymorth hawliau lles, gyda'r nod o gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth yn hytrach na darparu gwasanaeth yn unig, i'w gweld yng ngwaith Hawliau Lles y Cyngor a chyngor Cymunedau yn Gyntaf ar Fudd-daliadau. Yn yr un modd, mae Cyngor ar Bopeth yn cynnal sesiynau hyfforddi llwyddiannus "un i lawer" ar Daliadau Annibyniaeth Bersonol (PIP), y mae 6-8 o bobl yn dod iddynt, o bosibl gyda gofalwr neu weithiwr cymorth, ac yn cael eu hyfforddi yn y broses o hawlio PIP, fel eu bod yn gallu symud ymlaen yn fwy annibynnol nag yn y gorffennol. Trwy'r prosesau hyn, mae hawlwyry a chynghorwyr yn meithrin eu gallu i ymdrin â hawliadau yn fwy hyderus, gan ddatblygu sgiliau y gellir eu rhannu ar lefel gymunedol a lleihau'r angen am gymorth allanol.

Newidiadau dros amser

- Mae data ynghylch lefelau incwm aelwydydd yn enwog am fod yn anodd ei gasglu; nid yw niferoedd a chyfraddau'r aelwydydd sy'n hawlio budd-daliadau yn dweud wrthym a yw incwm yr aelwyd wedi codi neu ostwng. Mae newidiadau i'r system fudd-daliadau dros amser yn golygu nad yw'n fanwl-gywir cymharu niferoedd rhwng gwahanol flynyddoedd. Mae nifer y swyddi tâl-tlodi yn Abertawe (hynny yw, swyddi sy'n derbyn tâl o dan y cyflog byw go iawn) ar gynnydd, er bod data ynghylch nifer y sancsiynau budd-dal yn dangos gwelliant.

Cymharu â mannau eraill

- Mae mwy o swyddi tâl-tlodi yn Abertawe (fel cyfran o'r holl swyddi) na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r ffigur yn 27.6% yn Nwyrain Abertawe (Cymru 25.6%; y Deyrnas Unedig 22.7%).

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae anghydraddoldeb incwm mawr yn Abertawe, ac mae'r cyfraddau amddifadedd incwm yn amrywio'n aruthrol. Mae rhai pobl yn gyfoethog iawn ac mae rhai yn ddifreintiedig iawn.

- Mae'r cyfraddau incwm yn amrywio'n fawr, yn arbennig rhwng ein cymdogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig (mae rhaniad cyffredinol, er nad llwyr, rhwng y dwyrain a'r gorllewin). Mae'r cymdogaethau a ddynodwyd yn "Ardaloedd Targed" yn dioddef o gyfran sylweddol uwch o aelwydydd ar incwm isel na chymdogaethau eraill. Gallai dadansoddi pellach awgrymu bod gan ardaloedd cymunedol y Ddinas a Phenderi yn Abertawe incwm cyfartalog is.
- Yn ôl ymchwil genedlaethol (Cymru a'r Deyrnas Unedig) mae unig rieni, pobl ag anableddau a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn wynebu mwy o risg o dlodi ariannol na grwpiau eraill; nid oes gennym dystiolaeth leol ynghylch hyn ar gyfer Abertawe'n benodol.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae'r system fudd-daliadau yn fwyfwy cymhleth, yn anodd cael hyd i ffordd drwyddi, ac yn annigonol. Mae gwasanaeth Hawliau Lles y Cyngor (HLL) a phartneriaid yn Cyngor ar Bopeth, Age Cymru a darparwyr tai cymdeithasol yn adrodd fel a ganlyn:
 - Mae llawer gormod o alw am sesiynau llinell Gyngor HLL, gydag ymholiadau mwy cymhleth yn cael eu cyflwyno, a methiant i ymdrin â'r holl ymholiadau yn ystod y sesiwn.
 - Mae'r gynrychiolaeth mewn apeliadau'n annigonol; mae angen help ar fwy o bobl nag y gellir darparu ar eu cyfer.
 - Mae'r newidiadau o'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) i PIP/ESA (Lwfans Cynnal Cyflogaeth) yn creu llwyth gwaith na ellir ymdopi ag ef. Mae'r adolygiadau'n fynych a'r penderfyniadau a wneir yn wael. Mae'r bobl sy'n hawlio yn aml yn aneglur ynghylch sut mae'r meini prawf a'r asesiadau'n gweithio.
 - Mae penderfyniadau gwael yn broblem gostus, niweidiol a pharhaus: yn genedlaethol, mae 65% o'r penderfyniadau PIP yn unig yn cael eu gwyrddroi yn sgîl apêl. Yn Abertawe, mae gan wasanaeth Hawliau Lles y Cyngor gyfradd lwyddo o 91% mewn apeliadau (y cyfanswm i bob budd-dal).
 - Mae Ymgynghorwyr HLL y Cyngor wedi nodi 25 o bobl leol ag anableddau difrifol a all fod yn derbyn llai na'r cyfanswm y gallent ei hawlio. Ychydig iawn sydd wedi ymateb i gynnig uniongyrchol (ysgrifenedig) o gymorth i edrych ar hyn ac unioni'r sefyllfa. Mae angen ymchwilio ymhellach i ganfod rhwystrau pobl i gyrchu'r gefnogaeth hon i wireddu'r cyfan y mae ganddynt hawl i'w dderbyn.
 - Mae pobl o dan 25 oed ar Gredyd Cynhwysol mewn sefyllfa ariannol arbennig o anodd. Mae pobl sydd â chyllidebau bychan iawn yn methu cadw deupen llinyn ynghyd.
 - Gan fod yr hawlwr eisoes gryn dipyn o dan y trothwy tlodi, mae sancsiynau'n creu argyfwng. Mae nifer y bobl sy'n dioddef sancsiynau a nifer y sancsiynau a gyflwynwyd, fel ei gilydd, yn disgyn, ond mae angen anelu at sero. Mae'r diffyg cyfatebiaeth rhwng y ffigurau hyn yn dweud wrthym fod rhai pobl yn wynebu sancsiynau lluosog.
 - Mae astudiaethau achos gan ystod o sefydliadau yn dangos lle mae diwygio lles wedi lleihau incwm, a'r goblygiadau a'r angen am gyngor ar ddyledion yn sgîl hynny.
- Mae dryswch yn rhemp ynghylch lefelau'r isafswm cyflog/cyflog byw. Mae'r "Cyflog Byw Cenedlaethol" mewn gwirionedd yn isafswm cyflog ar gyfer rhai dros 25 oed;

mae gan rai o dan 25 oed gyfraddau isafswm cyflog is; nid yw'r un o'r rhain yn ddigon i un person fyw arno, gan eu bod ymhell o dan y cyflog byw sy'n ofynnol i gyrraedd y Safon Isafswm Incwm. Ymddengys nad oes strategaeth na chynllun i "annog cyflogwyr i dalu'r Cyflog Byw" (Sbardun d.1.2).

- Mae'r adnoddau'n annigonol: ar hyn o bryd dim ond y Cyngor ac Age Cymru sy'n gallu cynnig cynrychiolaeth mewn apelïadau, ac mae Cyngor ar Bopeth yn wynebu galw eithafol o gymharu â'u hadnoddau.
- Mae pobl sy'n wynebu heriau penodol mewn bywyd, megis oedolion ag anabledau dysgu a menywod sy'n profi cam-drin domestig, yn wynebu rhwystrau arbennig i gyrchu'r hyn y gallant ei hawlio a datblygu/ymarfer galluedd ariannol.
- Yn wyneb yr agenda diwygio lles mae rhai pobl yn dal yn betrus ynghylch hawlio budd-daliadau, er eu bod yn cael trafferth cadw deupen llinyn ynghyd a bod ganddynt broblemau iechyd hirhoedlog sy'n effeithio ar weithgarwch economaidd.
- Byddai cyflymu'r cwrsela a'r triniaethau eraill ar gyfer materion corfforol ac iechyd meddwl sy'n effeithio ar weithgarwch economaidd pobl a'u gallu i weithio yn sicrhau mwy o ffocws ar helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

Rhagolygon at y dyfodol

- Rhai tueddiadau y gellid disgwyl eu gweld yn y dyfodol yw: toriadau pellach i wasanaethau a allai gefnogi pobl i wella'u sefyllfa ariannol; mwy o ddyledion ac anghenion sylfaenol wrth i bobl geisio ymdopi â diwygio lles; lefelau tâl-tlodi yn parhau'n broblem; agweddau at hawlwr budd-daliadau yn parhau i achosi stigma, gan ychwanegu at gylchoedd o amddifadedd.
- Clywodd ymchwiliad craffu a fu'n edrych ar strategaeth Trechu Tlodi'r cyngor yn 2017 gan bobl a oedd yn profi tlodi fod eu lles yn aml yn dibynnu ar y gwasanaethau cefnogi roeddent yn eu derbyn. Er bod rhai wedi crybwyll sut mae eu ffrindiau a'u teulu'n gymorth roedd gan lawer rwystrau penodol neu arbenigol iawn nad oedd eu ffrindiau a'u teulu o bosib yn gallu eu helpu gyda nhw. Tynnwyd sylw ganddynt hefyd at angen am fwy o wybodaeth/ymwybyddiaeth ynghylch y gwasanaethau cefnogi sydd ar gael iddynt. Clywodd yr ymchwiliad hefyd fod arian a diffyg cyllid yn bryder i'r rhan fwyaf o bobl sy'n profi tlodi; fodd bynnag, gall problemau gael eu hachosi gan amrywiaeth o ffactorau.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Ymgais bendant i gynyddu ymwybyddiaeth o Gyflog Byw yn Abertawe, ynghyd ag ymgyrch i annog manteisio'n llawn ar y budd-daliadau y gellir eu hawlio. Tystiolaeth o hyn fyddai: mwy o ymwybyddiaeth o Gyflog Byw; cyfradd uwch o swyddi'n talu Cyflog Byw; ac adroddiadau am hyder yn y gymuned ynghylch deall a manteisio ar yr hyn y gellir ei hawlio a gostyngiad yn nifer yr achosion o hawlio annigonol y mae ymgyngorwyr yn eu gweld. Byddai'r gwelliannau hyn yn dechrau newid agweddau tuag at a) broblem tlodi mewn gwaith a b) hawlio budd-daliadau a'r rhai sy'n gwneud hynny; meithrin diwylliant lleol sy'n dangos mwy o gydymdeimlad o ran y rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau safon weddus o fyw, ac sy'n gadarnhaol ynghylch y manteision cymdeithasol ac economaidd ehangach os bydd pawb yn mwyafu eu hincwm.

Ynghylch y dystiolaeth

- Dim ond dangosyddion procsi o incwm aelwydydd sydd ar gael yn hwylus, ond mae’r rhai sydd gennym yn gywir oddi mewn i gyfyngiadau’r hyn y gallant ei ddweud wrthym. Mae tystiolaeth anecdotaidd a safbwynt y rhai sy’n gweithio mewn cysylltiad agos â’r bobl sy’n cael hyd i ffordd trwy anawsterau cysylltiedig â hawliadau budd-dal, cyflogaeth am dâl isel a chwilio am swydd yn ddangosyddion pwysig o agweddau ac ymwybyddiaeth gymdeithasol.
- Gyda’r nod o sicrhau bod pob aelwyd yn cyrraedd y Safon Isafswm Incwm, byddai mesur a fyddai’n ein galluogi i feincnodi hynny a mesur cynnydd i’w groesawu’n fawr, ond nid oes un ar gael. Gellid lobïo Llywodraeth Cymru i fuddsoddi yn yr ymchwil briodol. Mae’r Ganolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol (sy’n cyfrifo’r MIS) yn awgrymu y byddai “Arolwg Adnoddau Teulu”, i’w ailadrodd bob rhyw 5 mlynedd, yn ddelfrydol, ond yn ddrud.
- Mae cyfran y swyddi sy’n talu’r cyflog byw yn ystadegyn cul iawn, nad yw’n caniatáu unrhyw gofnodi cynnydd o ran cynyddu ymwybyddiaeth o’r cyflog byw a newid agweddau ato. Gallai fod angen dangosyddion a mesurau ychwanegol i fonitro effeithiolrwydd ar unrhyw waith y cytunir arno i symud y sbardun hwn ymlaen.
- Mae canfod achosion o hawlio annigonol yn achos budd-daliadau yn enwog am fod yn anodd, ond mae’r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn amcangyfrif cyfraddau hawlio ar draws y Deyrnas Unedig. Yn genedlaethol, mae llawer iawn o achosion lle nad yw’r Lwfans Ceisio Gwaith a Chredyd Pensiwn yn cael eu hawlio fel y dylent. Gan fod data budd-daliadau ar gael yn hwylus mewn ardaloedd daearyddol llai, gallai fod modd amcangyfrif cyfraddau hawlio Abertawe o bosibl. Gallai’r rhain fod o ddefnydd i ganfod ym mha ardaloedd byddai meithrin gallu yn fwyaf buddiol ac i lywio ffocws ymgyrchoedd manteisio ar fudd-dal.
- Er nad yw’r data caled rydym ni’n gweithio gydag ef ar gyfer y sbardun hwn bob amser yn gwbl glir a phendant, mae’r casgliadau ynghylch llesiant yn hyderus gan eu bod wedi’u seilio ar safbwynt pobl sy’n byw ac yn gweithio gyda’r materion perthnasol.

D2: Pobl yn osgoi’r Premiwm Tlodi (y costau ychwanegol y mae’n rhaid i bobl ar incwm isel eu talu am hanfodion)

Tystiolaeth:	Tebygolrwydd Eithrio Digidol
	Dyled personol ac ansolfedd
	Amrywiol ymgysylltu cymunedol
	<i>Chwilio am: Gyfradd tlodi tanwydd a data arall perthnasol (e.e. % y bobl yn lleol sy’n newid darparwyr tanwydd)</i>
Sgôr Llesiant a chrynodeb:	3 – Yn Abertawe, mae aelwydydd sydd mewn tlodi yn wynebu’r Premiwm Tlodi i raddau helaeth, ac nid oes strategaeth gydlynus ar gyfer mynd i’r afael â hyn na lliniaru ei effeithiau. Serch hynny, mae gwaith yn digwydd mewn rhai cilfachau i geisio lleihau’r symiau sy’n cael eu gwario ar danwydd a chredyd.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 3. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 3. • Roedd y prif fater a nodwyd o fewn y sbardun hwn yn ymwneud â phobl ar incymau isel sy’n talu trethu uwch am rai nwyddau a gwasanaethau.

Cryfderau Abertawe

- Mae gan Abertawe nifer o sefydliadau sydd â diddordeb mewn cefnogi trigolion lleol gyda'r materion hyn. Byddai cynllun cydweithio clir ar lefel leol yn debygol o gael llawer o gefnogaeth.
- Yn yr un modd â gweddill y Deyrnas Unedig, mae pobl ifanc yn tueddu i fod â chysylltiadau digidol da. Mae hwn yn gryfder y gellid adeiladu arno, ac mae cyfle i weithio ar draws y cenedlaethau. Mae mwy o gyfleoedd i bobl heb gyfrifiadur personol gartref i fynd ar-lein, ac mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno fwyfwy yn ddigidol, gan annog pobl i ymgysylltu â phrosesau ar-lein. Mae peth gwaith ar leihau tlodi tanwydd wedi cael derbyniad da yn y gorffennol. Mae'r Undeb Credyd yn boblogaidd ymhlith y nifer bach o drigolion sy'n ei ddefnyddio. O ran agweddau eraill ar y premiwm tlodi (e.e. cludiant, bwyd, yswiriant), mae angen mwy o ymchwil a gwaith ymgysylltu i ganfod y cryfderau perthnasol yn y gymuned.
- Mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol (FISG) yn ceisio mynd i'r afael â dyledion yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau. Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn parhau i ariannu cyngor wyneb yn wyneb ar ddyledion sydd yn awr yn cael ei ddarparu'n lleol gan Gyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot. Gellir barnu bod tlodi tanwydd yn awr, fel yn y gorffennol, yn destun pryder digonol i gyfiawnhau grŵp ar wahân. Yn yr un modd, nodwyd cynhwysiad digidol yn ddiweddar fel maes sy'n teilyngu dull gweithredu cydlynus. Mae 'Dewch Ar-lein Abertawe' wedi bod ar waith ers peth amser, ond gall adrodd ynghylch y rhai sydd wedi'i gyrchu yn unig, nid y rhai sydd heb wneud hynny. Mae angen gwaith ymgysylltu pellach i ganfod lefel yr angen sydd heb ei ddiwallu yma.
- Wedi rhai ymdrechion i sefydlu "siop ganolog dan yr unto" ar gyfer help gyda budd-daliadau, dyledion, tai, hyfforddiant a rhwystrau eraill i gyflogaeth, mae'r FISG yn awr yn cefnogi ei bartner diweddaraf, Remploy, i ddatblygu "Canolbwynt" o'r fath.
- Mae'r Undeb Credyd yn lansio brand newydd, "My Community Bank Wales", sy'n cynnig, fel bob amser, cynilion diogel a benthyciadau cost is; ond mae gwaith ymgysylltu'n awgrymu bod ei broffil yn parhau'n isel ymhlith y gynulleidfa darged.
- Cynhelir cymorthfeydd Pension Wise rheolaidd ledled Abertawe gan Gyngor ar Bopeth Powys.

Newidiadau dros amser

- Mae rhai agweddau niweidiol ar y premiwm tlodi, megis cludiant, bwyd a chredyd, yn dal yn uchel iawn yn Abertawe. Er bod y gyfradd ansolfedd wedi gwella'n drawiadol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (yn rhannol oherwydd bod pobl yn gorfod bod â mwy o ddyledion i gael eu gwneud yn fethdalwyr), y farn ar lawr gwlad yw bod dyledion gweithredol, yn arbennig dyledion blaenoriaeth, wedi cynyddu. Mae diffyg prosiectau arloesol i helpu pobl i oresgyn costau cludiant uchel a'r ffaith nad oes bwyd fforddiadwy o ansawdd da ar gael mewn cymdogaethau.

Cymharu â mannau eraill

- Mae cyfraddau ansolfedd yn Abertawe yn cyfateb yn gyffredinol i lefel Cymru gyfan. Mae angen gwybodaeth bellach ynghylch sut mae costau cludiant, bwyd, credyd, yswiriant ac agweddau eraill ar y Premiwm Tlodi yn Abertawe yn cymharu ag ardaloedd eraill.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Un o nodweddion cyffredin y Premiwm Tlodi yw bod ein cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn profi'r canlynol:
 - Peiriannau arian (ATMs) yn codi hyd at £1.99 am dynnu arian allan
 - Premiymau yswiriant uwch yn adlewyrchu'r risgiau uwch
 - Mesuryddion talu ymlaen llaw am danwydd yn amlwg iawn
 - Siopau bach yn cynnig cynnyrch o ansawdd gwael am brisiau uchel
 - Benthycwyr stepen drws a chatalogau'n ddulliau credyd a ffafir.

Yn amlwg mae hyn yn cymharu'n anffafriol â chymdogaethau llai difreintiedig, ond bydd yn nodweddiadol o gymdogaethau difreintiedig ar draws y Deyrnas Unedig.

- Mynegwyd pryderon yn y diwydiant bod ansolfedd personol yn uwch ymhlith menywod ifanc na dynion. Credir mai'r rhesymau am hyn yw: y bwlch cyflog sy'n parhau rhwng y ddwy ryw; y ffaith bod mwy o fenywod ifanc na dynion yn gadael cartref, a bod costau tai mor uchel; y marchnata ymosodol ar gynnyrch costus i fenywod, sydd o dan fwy o bwysau cymdeithasol i ddilyn ffasiynau, prynu triniaethau harddwch a gwario ar gynnyrch sydd ddim yn targedu dynion.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Canfu'r astudiaeth leol 2012, 'Making Ends Meet', fod gan 57% o rieni Townhill a Phenlan oedd yn yr arolwg fenthyciadau stepen drws. Yn hwn ac mewn arolygon diweddarach, mae bysus yn cael eu hystyried yn rhy ddrud i'w defnyddio, ac mae gweithwyr yn adrodd bod pobl mewn sefyllfaoedd arbennig o heriol, megis pobl ag anableddau dysgu a menywod sy'n profi cam-drin domestig, yn arbennig o debygol o wynebu premiymau tlodi ac yn llai abl i gyrchu cyfleoedd i'w lliniaru, yn ogystal â bod yn llai abl i gael mynediad i hawliadau incwm llawn (D1).

Rhagolygon at y dyfodol

- Os bydd y sefyllfa bresennol yn parhau, bydd ein haelwydydd sy'n wynebu'r her fwyaf o ran incwm yn parhau i dalu mwy am rai nwyddau a gwasanaethau na phobl sy'n well eu byd. Fodd bynnag, mae cyfleoedd clir i ymyrryd i amddiffyn pobl rhag y premiwm tlodi, e.e. gwaith wedi'i dargedu ar dlodi tanwydd, cynyddu mynediad i gredyd fforddiadwy ac atebion arloesol i faterion cludiant a bwyd.
- Mae pris tocynnau bws wedi amrywio rhywfaint, ond yn gyffredinol gwelwyd tueddiad ar i fyny, yn unol â chostau eraill sy'n codi. Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o gyfrannu at wneud y premiwm tlodi'n waeth mewn termau go iawn, oni wneir ymdrechion pendant i'w lliniaru.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Byddai ymgais fwy cydlynus ar y cyd i ddysgu oddi wrth arloesedd yn Abertawe ac mewn mannau eraill yn cynnal gwelliant. Gallai'r datblygiadau arloesol gynnwys: gweithio gyda'r sector rhentu preifat a landlordiaid cymdeithasol i sicrhau gostyngiad yn nifer y mesuryddion talu ymlaen llaw; cynnydd yn nifer y bobl sy'n symud eu dyledion o'r catalogau a'r benthycwyr stepen drws i'r undeb credyd; a chynlluniau llawn dychymyg i gymdogion rannu cludiant neu swmp-brynu bwyd is ei gost.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae tlodi tanwydd yn arbennig o anodd ei fesur drwy ddefnyddio'r diffiniad swyddogol. Gall aelwyd wario llai na 10% o'i incwm ar danwydd, a bod yn afiach o oer o ganlyniad. Bydd aelwyd sy'n mwynhau manteision effeithlonrwydd ynni gwell yn y cartref, a biliau tanwydd llai o ganlyniad, yn aml yn dewis defnyddio mwy ar y gwres, felly ni fydd ganddynt ragor o arian yn eu poced, ond byddant yn mwynhau mwy o gysur a chartref mwy iach. Mae angen gwaith ymgysylltu ansoddol i ganfod patrymau defnydd tanwydd lleol yng nghyswllt llesiant.
- Mae union lefelau dyledion personol yn dal yn her sylweddol wrth ddatblygu data.
- Mae angen gwaith ymgysylltu pellach i ganfod yr elfennau hynny o'r Premiwm Tlodi y mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y cyfle mwyaf i ddylanwadu arnynt.

D3: Pobl yn cael y gwerth gorau am eu harian

Tystiolaeth:	Defnydd o fanciau bwyd
	<i>Chwilio am: dystiolaeth o allu ariannol cynyddol; manteisio ar 'Nyth' a chynlluniau effeithlonrwydd ynni eraill; manteisio ar gyfrifon banc sylfaenol; defnyddio cydweithfeydd bwyd; ffigurau Cyngor ar Bopeth ynghylch lefelau dyledion; % y bobl sy'n newid darparwr tanwydd)</i>
Sgôr llesiant a chrynodeb:	3 – Yn Abertawe, mae pobl yn cael y gwerth gorau am eu harian dim ond os oes ganddynt eisoes adnoddau sylweddol o ran gwybodaeth, cysylltiadau digidol da a'r gallu i symud o gwmpas yn hwylus i fanteisio ar gynigion. Y bobl lleiaf tebygol o fod yn y sefyllfa hon yw'r rhai sydd eisoes yn dioddef effeithiau tlodi, a gellid gwneud mwy i gyfuno gweithgareddau a syniadau er mwyn sicrhau mwy o welliannau i'r gymuned.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 3. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 3. • Y prif fater a nodwyd o fewn y sbardun hwn oedd bod gwybodaeth, hyfforddiant a chynghor yn hanfodol i alluogi pobl i wneud yn fawr o'u harian (<i>'Mwy o wybodaeth i bobl mewn fformat y gallant ei ddeall</i>)

Cryfderau Abertawe

- Mae'r sbardun hwn yn gyfle i fwyafu agwedd greadigol, arloesol at alluogi pobl i ddatrys problemau a thorri'n ôl ar gostau trwy brynu ar y cyd neu fathau eraill o gydweithio cymunedol. Mae rhannu gwybodaeth a ffeithiau yn allweddol i gefnogi pobl i fanteisio ar gyfleoedd i leihau costau byw.
- Mae rhai o'n cymunedau'n enwog am fod yn greadigol, yn gydnerth ac yn gydweithredol iawn. Mae angen tystiolaeth bellach gan randdeiliaid perthnasol ynghylch sut mae'r cryfderau hyn wedi dod i'r amlwg yn y gorffennol, a sut gellid eu datblygu ymhellach.
- Yn hanesyddol, mae'r Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol wedi ceisio sicrhau bod gwybodaeth ynghylch newid darparwyr tanwydd a lleihau biliau tanwydd yn cyrraedd y cymunedau lle bydd yn cael yr effaith fwyaf. Yn y gorffennol roedd prosiect cyfnewid tanwydd ar y cyd yn gweithredu (Cyd Cymru), fel bod pobl leol yn gallu torri nôl ar gostau tanwydd. Mae rhai cynlluniau mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gynyddu gallu ariannol wedi gweithio'n dda, fel y mae cynlluniau i helpu pobl i newid ymddygiad a lleihau costau tanwydd (e.e. Newid i Arbed).

- Mae Cyfnewidfeydd Dillad yn dod yn boblogaidd yn y Ddinas, yn aml yng ngofal Canolfan yr Amgylchedd sydd hefyd yn cynnal gweithdai uwchgyrchu, dosbarthiadau gwnïo, ac ati. Gall cost y rhain fod yn rhwystr, fodd bynnag.
- Mae Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor ar ddyledion, peth hyfforddiant i weithwyr rheng flaen a digwyddiadau ymwybyddiaeth ynni i helpu pobl i reoli biliau'n well.

Newidiadau dros amser

- Ar hyn o bryd yr unig wybodaeth sydd gennym am duddiadau yw'r defnydd o fanciau bwyd, sy'n dangos bod y sefyllfa'n gwaethygu. Mae gostyngiadau i fudd-daliadau (yn sgîl diwygio lles), a chostau byw uchel wedi'u cyfuno â lefelau uchel o ddyled yn aml yn gadael pobl mewn sefyllfa lle mae angen help arnynt i fedru fforddio bwyta. Mae hyn yn dangos nad yw pobl yn cael eu cefnogi i wneud y defnydd gorau o'u harian. Fodd bynnag, mae Cyngor ar Bopeth yn gweld llai o bobl sydd â sancsiynau na blwyddyn yn ôl.
- Mae mwy o bobl yn mynd at Gyngor ar Bopeth gyda dyledion blaenoriaeth hirhoedlog (e.e. treth cyngor, rhent) sy'n deillio o anallu i ymdopi ar incwm isel neu amrywiol.
- Bydd y Cap Budd-daliadau yn effeithio ar lawer o bobl sydd â thri o blant neu fwy.

Cymharu â mannau eraill

- Rydym yn chwilio am ddata banciau bwyd eraill i gymharu, ond yn anecdotaid mae'r defnydd o fanciau bwyd wedi cynyddu ym mhob man. Rydym hefyd yn chwilio am enghreifftiau o arfer da o fannau eraill yng nghyswllt y dangosydd llesiant hwn.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng y sbardun hwn a D2, ynghylch y Premiwm Tlodi. Gallai pobl gael eu cefnogi i leihau agweddau ar eu premiwm tlodi trwy sicrhau bod eu harian yn mynd ymhellach, e.e. newid i ddarparwyr credyd, tanwydd neu fwyd rhatach. Felly, rydym ni'n gweld bod pobl ar aelwydydd mwy cefnog yn cael cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o'u harian trwy'r canlynol: cael eu cynnwys yn ddigidol, a bod yn wybodus, yn hyderus ac yn barod i gyrchu cynigion a gostyngiadau ar-lein; meddu ar gludiant rhatach megis ceir diwastraff (sy'n rhedeg am gost is o lawer y filltir na bysus neu feiciau o ansawdd da); meddu ar fynediad i amrywiaeth mwy o siopau gyda nifer uwch o ostyngiadau a chynigion arbennig; cael credyd mwy fforddiadwy; gallu defnyddio peiriannau arian (ATM) yn ddi-dâl, ac ati – pethau nad ydynt gan aelwydydd llai cefnog yn gyffredinol. Ar draws Abertawe gyfan, mae cyfleoedd o'r fath i fanteisio i'r eithaf ar arian yn hynod unigol a heb eu trefnu'n dda ar lefel gymunedol. Nid yw pŵer trefnu, pwrcasu a dosbarthu ar y cyd yn cael ei fwyafu.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae Cyngor ar Bopeth wedi gweld cynnydd aruthrol yng nghyfran y bobl â phroblemau cysylltiedig â budd-dal, a gostyngiad yn y rhai sy'n manteisio ar gyngor ynghylch dyledion. Yn sgîl y Cap newydd ar Fudd-daliadau a gyflwynwyd yn 2016, bydd y tueddiad hwn a thynnu Lwfans Byw i'r Anabl oddi ar bobl nad ydynt yn gymwys i gael Taliadau Annibyniaeth Bersonol yn arwain at fwy o bobl yn wynebu problemau ariannol.

- Y meysydd amlycaf o ran cymorth ar ffurf cyngor ynghylch dyledion yw Methdaliad a Gorchmynion Rhyddhau o Ddyled, sy'n darparu tystiolaeth bod problemau dyled yn cyrraedd lefel lle na ellir eu goresgyn.

Rhagolygon at y dyfodol

- Fel y nodwyd uchod, mae gorgyffwrdd rhwng y sbardun hwn a D2, felly mae'r tueddiadau a'r rhagolygon at y dyfodol yn debyg. Os na fydd dim byd gwahanol yn digwydd, bydd costau'n parhau i godi a bydd y rhai sydd eisoes o dan yr anfantais fwyaf yn sgîl cyfuniad o incwm isel a chostau uchel yn wynebu heriau cynyddol wrth geisio cadw deupen llinyn ynghyd ac yn anobeithio fwyfwy. Bydd defnydd o fanciau bwyd a thystiolaeth bellach o'r argyfyngau hyn yn cynyddu.


Sut olwg fyddai ar welliant?

- Eto, byddai ymdrech fwy pendant a chydlynus i ddysgu oddi wrth arloesedd yn Abertawe ac mewn mannau eraill yn cefnogi gwelliant. Byddem am weld tystiolaeth bod pobl yn siarad yn hyderus ynghylch ble mae cael gwybod am gyfleoedd i arbed arian ac am weithgareddau neu brosiectau maen nhw'n ymwybodol ohonynt sy'n gallu helpu, ac fe hoffem ni weld y defnydd o fanciau bwyd yn disgyn. Byddai manteisio ar gyngor ynghylch dyledion yn gynharach hefyd yn newid cadarnhaol.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae hwn yn sbardun cymharol agored ac ansoddol ar hyn o bryd, ond petai gwaith yn cael ei ddatblygu, byddai hynny'n darparu corff o dystiolaeth well i'w defnyddio. Mae rhai awgrymiadau ar gyfer tystiolaeth y gellid cyfeirio ati yma, e.e. faint sy'n defnyddio Nyth, yn sicr o'n siomi o ran methu i roi'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun yng nghyd-destun yr angen – h.y. does gennym ni ddim syniad faint o'r bobl ddylai gyrchu Nyth sydd ddim yn gwneud hynny.
- Gallai cynllun gweithredu clir y cytunwyd arno gan nifer o bartneriaid lleol, sy'n crynhoi'r gweithgareddau i helpu pobl i leihau costau bwyd, tanwydd, cludiant, dillad, neu unrhyw beth arall y gellid ei gyrchu am gost is nag ar hyn o bryd, weithredu fel tystiolaeth a'n cyfeirio at gronfa o gyfranogwyr i ymgysylltu â nhw er mwyn casglu adborth ar ei lwyddiant. Mae'r ffaith nad oes cynllun o'r fath yn bodoli ynddo'i hun yn ddiffyg tystiolaeth. O ganlyniad, mae ein casgliadau'n betrus, ond mae hynny'n debygol o barhau hyd nes y gwelir datblygiadau pellach yn y maes hwn.

Canlyniad E: Bod pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol



Ynghylch y Canlyniad hwn

Mae pwysigrwydd buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol i atal afiechyd yn ddiweddarach mewn bywyd, fel y mae buddsoddi mewn ysgolion iach a chyflogaeth iach, yn ogystal â dulliau mwy traddodiadol o atal afiechyd, megis rhaglenni triniaeth am gyffuriau a rhoi'r gorau i smygu. Mae eu cymuned leol a'u rhwydweithiau cymdeithasol yn dylanwadu'n drwm ar iechyd a llesiant pobl. Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o brofi troseddu ac effeithiau negyddol hynny ar iechyd a llesiant. Mae angen mwy o waith i asesu sut mae rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau iechyd yn gallu effeithio ar y gymuned, e.e. mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd o amddifadedd. Serch hynny, gall rhwydweithiau cymunedol a mwy o gyfalaf cymdeithasol ddarparu ffynhonnell o wydnwch. Mae i ba raddau y gall pobl gyfranogi a chael rheolaeth ar eu bywydau yn gwneud cyfraniad hollbwysig i lesiant seicogymdeithasol a iechyd.

Mae diagram y sbardun yn rhannu Canlyniad E yn bedair agwedd allweddol ar iechyd, diogelwch ac annibyniaeth, yng nghyswllt iechyd corfforol (Sbardun Sylfaenol E1), iechyd meddwl a llesiant (E2), cefnogaeth i bobl hŷn (E3) a diogelwch cymunedol (E4). Fodd bynnag, mae cysylltiad rhwng pob un o'r chwe chanlyniad poblogaeth a'i gilydd a gall ffactorau (neu sbardunau) eraill hefyd effeithio ar y canlyniad - 'Bod pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol'.

Mae'r canlyniad poblogaeth trosfwaol hwn yn cynnwys ystod eang, amrywiol o faterion, ac mae cynnydd yn y meysydd hyn yn aml yn gysylltiedig â nifer o ffactorau ehangach, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag addysg (gan gynnwys ymddygiad) a'r amgylchedd lleol, er enghraifft. Mewn termau cyffredinol, mae'r sgoriau llesiant a gynigir yn gyffredinol yn y canol, gyda'r agweddau cadarnhaol yn cael eu gwrthbwysu'n rhannol gan y cynnydd a'r gwaith sy'n dal yn angenrheidiol. Hefyd mae rhai bylchau'n parhau yn ein gwybodaeth ac mae angen dadansoddiad lleol pellach mewn rhai meysydd pwnc.

Adolygiad o'r sbardunau unigol: Canlyniad E

E1: Pobl yn gorfforol iach ac mewn sefyllfa i gael bywyd hir, iach

Tystiolaeth:	Gordewdra ym mhob grŵp oedran
	Smygu a chamddefnyddio cyffuriau ym mhob grŵp oedran
	Gweithgarwch corfforol ym mhob grŵp oedran
Asesiad Poblogaeth Bae Abertawe 2017	Asesiad Poblogaeth Bae Abertawe 2017
Sgôr llesiant a chrynodeb:	4 – Mae'r materion hyn yn heriol gan fod hyn yn galw am geisio newid ymddygiad yn ogystal â darparu gwasanaethau. Felly bydd angen i wasanaethau eraill megis y blynyddoedd cynnar neu'r rhai sy'n ymdrin â materion amgylcheddol ddylanwadu ar y canlyniadau a chefnogi'r newidiadau y ceisir eu cyflawni.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none">• Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 4. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4.• Roedd sylwadau a wnaed ar y sbardun hwn yn cynnwys gwell cyfeirio i weithgareddau am ddim, mwy o gefnogaeth, gwybodaeth a chynghor yn enwedig i rieni, ac mae camddefnyddio cyffuriau'n broblem fawr yn Abertawe (<i>'Mae gennym fwy o gampfeydd, sbas a chanolfannau nag erioed o'r blaen, ond gallant fod yn ddrud</i>).

Cryfderau Abertawe

- Mae Abertawe'n un o 28 dinas yn y Deyrnas Unedig sydd wedi cyflawni statws Dinas Iach a ddynodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). Mudiad byd-eang yw'r rhwydwaith Dinasoedd Iach, sy'n cynnwys dinasoedd sy'n ymroddedig i iechyd a datblygu cynaliadwy. Mae partneriaid lleol yn cydweithio ar wahanol agweddau ar y nodau a'r themâu craidd ac yn ychwanegu eu harbenigedd eu hunain at y prosiectau sy'n cael eu cyflawni. Mae Bwrdd y Ddinas Iach wedi datblygu strategaeth 'Creu Cynllun Abertawe Egnïol ac Iach', sydd â thair elfen:
 - Chwaraeon a gweithgareddau corfforol
 - Mynediad at gyfleusterau a chyfleoedd
 - Agweddau cymunedol at iechyd a llesiant.
- Mae lleihau gordewdra a smygu yn ffocws cryn weithgarwch, ac yn sgîl hynny mae wedi cael ei gynnwys ym mhob un o Gynlluniau Gweithredu pum Rhwydwaith Clwstwr y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys camau gweithredu megis cynyddu'r atgyfeiriadau i'r cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff, ac yn achos y rhai sydd mewn perygl o ddioddef diabetes, atgyfeirio gan y practis i gynllun colli pwysau Weightwatchers; ac atgyfeirio i Ymgyrch Genedlaethol Rhoi'r Gorau i Smygu.
- Mae holl ysgolion Abertawe wedi ymuno â'r Rhaglen Ysgolion Iach. Mae'r ysgol yn derbyn cyfrifoldeb am gynnal a hybu iechyd pawb sy'n 'dysgu, yn gweithio, yn chwarae ac yn byw' oddi mewn iddi, nid yn unig trwy ddysgu'r disgyblion yn ffurfiol am sut mae byw bywydau iach, ond hefyd trwy alluogi'r disgyblion a'r staff i reoli agweddau ar amgylchedd yr ysgol sy'n dylanwadu ar eu hiechyd. Mae'n mynd ati'n

weithredol i hyrwyddo, amddiffyn a gwreiddio iechyd a llesiant cymdeithasol ei chymuned trwy gymryd camau cadarnhaol.

- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin a Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl Leol ABMU wedi datblygu cynllun cyflawni ar y cyd sy'n darparu ar gyfer fframwaith gwasanaeth i drin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd, a bydd yn arwain at gyflawni ymarfer clinigol integredig yn y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i oedolion, plant a phobl ifanc.
- Mae Abertawe wedi sefydlu grŵp lliwio iechyd y Digartref a Grwpiau Diamddiffyn (HHAVGAP). Grŵp amlasiantaeth yw hwn i gyflwyno ymagwedd gydlynol at ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â phobl sy'n ddigartref, ceiswyr lloches, teithwyr sipswyn, mudwyr o'r UE a'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau.
- Mae gorfodi gwaharddiad smygu yng Ngharchar EM Abertawe yn golygu bod y dynion yn cael eu cefnogi i roi'r gorau i smygu unwaith maen nhw yn y Carchar, ac mae cynlluniau ar waith i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth ar ôl cael eu rhyddhau i'r gymuned.

Newidiadau dros amser

- Mae hyd oes disgwylidig adeg geni gwrywod a benywod yn Abertawe wedi parhau i godi yn ystod y degawd diwethaf – yn unol â chyfartaledd Cymru. Mae hyd oes iach disgwylidig yn cynrychioli nifer y blynyddoedd y gall person ddisgwyl byw mewn iechyd da; yn ardal ABM, gall benywod ddisgwyl yn awr y byddant yn byw 79.5% o'u bywyd mewn iechyd da, tra gall dynion ddisgwyl byw 82.6% o'u bywyd mewn iechyd da. Mae hyd oes iach disgwylidig fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru, 65.5 mlynedd o gymharu â 65.3.
- Mae arolwg Chwaraeon Cymru yn dangos bod nifer y plant sy'n 'dwlu ar chwaraeon' yn ardal ABM wedi codi 8%, gan fod 65% o blant yn mwynhau addysg gorfforol 'yn fawr'. Roedd 78% o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol ac yn hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd. Mae hyn yn awgrymu bod y rhaglen Ysgolion Iach yn cael effaith fuddiol ar sut mae plant yn mwynhau chwaraeon.
- Adroddodd 58% o oedolion yn ardal ABM iddynt fod yn gorfforol egniol am 150 munud neu fwy yn ystod yr wythnos flaenorol. Yn Abertawe, mae lefelau gweithgaredd corfforol wedi amrywio yn ystod y gorffennol diweddar, ond yn fwy diweddar mae segurddod corfforol yn Abertawe wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2014, amlygodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 35.7% o oedolion yn gorfforol segur yn Abertawe, mwy na chyfartaledd Cymru, sef 34%, ond llai na chyfartaledd ardal ABMU, sef 37.6%. Yn 2014, roedd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith fod 35.7% o oedolion yn gorfforol anweithgar yn Abertawe, sy'n fwy na chyfartaledd Cymru sef 34% ond yn llai na chyfartaledd ardal PABM sef 37.6%. Mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o waith i ganfod pam mae gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd.
- Mae Abertawe wedi rhagori'n gyson ar ei thargedau atgyfeirio i'r Cynllun Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Ymarfer Corff ac mae hyn wedi arwain at adfer iechyd yn gyflym a cholli pwysau i rai, a llai o alw ar wasanaethau.
- Mae Abertawe wedi rhagori'n gyson ar ei thargedau atgyfeirio i'r cynllun Cenedlaethol Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff.

- Mae smygu'n gyfrannwr pwysig at glefydau resbiradol megis COPD, canser yr ysgyfaint a gwaethygu asthma. Mae smygu hefyd yn cael effaith negyddol ar ddiabetes, pwysedd gwaed a chlefyd y galon. Dengys data tueddiadau fod smygu bellach yn llai amlwg, a'i fod ar hyn o bryd o dan gyfartaledd Cymru yn Abertawe. Ardal ABM sydd â'r ganran isaf o smygwyr 11-16 oed yng Nghymru.
- Mae canran yr oedolion sy'n goryfed o leiaf un diwrnod yr wythnos wedi gostwng yn araf ers 2007. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad bychan yn y derbyniadau cysylltiedig ag alcohol ar draws ABMU yn ystod y cyfnod 2010/11 i 2014/15 yn achos cyflyrau alcohol-benodol a rhai y gellir dweud bod alcohol yn gyfrifol amdanynt. Mae faint o alcohol sy'n cael ei yfed wedi gostwng yn gyffredinol ar draws ardal ABMU yn ystod y pum mlynedd hyd at 2013/14, ac mae ar lefel gymaradwy â phatrymau yfed alcohol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r patrwm yn Abertawe yn llai cadarnhaol, gan fod y canrannau o 2011/12 ymlaen yn uwch na rhai ABMU a Chymru. Credir bod modd egluro hyn ar sail y cynnydd cyfatebol yn y boblogaeth fyfyrwyr, sy'n gyffredinol yn yfed mwy o alcohol. Credir bod modd priodoli hyn i'r cynnydd cyfatebol yn y boblogaeth myfyrwyr sy'n gyffredinol yn yfed mwy o alcohol, y mae ei effaith yn cynyddu galw ar yr heddlu a'r gwasanaethau iechyd.
- Mae rhagnodi gwrthfoteg yn ormodol yn cynyddu perygl camddefnyddio cyffuriau. Bwrdd Iechyd ABMU sydd â'r gyfradd rhagnodi uchaf mewn gofal sylfaenol yng Nghymru, a nod y dangosydd rhagnodi cenedlaethol yw sicrhau gostyngiad yn y rhagnodi o flwyddyn i flwyddyn. Nod Ymgyrch Brwydr Fawr (Big Fight) ABMU yw gwella canlyniadau cleifion a lleihau'r risgiau posibl o ran cynyddu gallu i wrthsefyll gwrthfoteg a haint C. difficile trwy gefnogi meddygon teulu lleol i hybu stiwardiaeth gwrthficrobaidd dda a lleihau defnydd amhriodol o wrthfoteg trwy addysgu'r cyhoedd ynghylch peryglon y gallu i wrthsefyll gwrthfoteg.

Cymharu â manau eraill

- Canran yr Oedolion sy'n ordew (2014/15): Abertawe 22.2%, Cymru 22.6%. Mae'r gwerthoedd yng Nghymru yn amrywio o 18.6% yng Ngheredigion i 30.2% ym Merthyr Tydfil (ffynhonnell ddata: Iechyd yng Nghymru).
- Canran y plant (4-5 oed) sydd dros bwysau neu'n ordew, 2011-2012 i 2014-2015: Abertawe 26.3%, Cymru 26.5%. Mae'r gwerthoedd yng Nghymru yn amrywio o 21% ym Mro Morgannwg i 32% ym Merthyr Tydfil (ffynhonnell ddata: Iechyd yng Nghymru). Mae gwerthoedd yng Nghymru'n amrywio o 21% ym Mro Morgannwg i 32% ym Merthyr Tudful (ffynhonnell ddata: Iechyd yng Nghymru); sy'n awgrymu bod lle i wella o hyd yn Abertawe.
- Canran yr oedolion sy'n smygu ar hyn o bryd: Abertawe sydd â'r ganran isaf o oedolion sy'n smygu yn ardal ABM, ac mae 2.5% yn is na chyfartaledd Cymru (ffynhonnell ddata: proffil Canser yr Ysgyfaint clystyrau Meddygon Teulu).
- Canran y plant 11-16 oed sy'n smygu: mae ffigur ardal ABMU, sef 3%, 1% yn is na chyfartaledd Cymru, a dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru. Gwelir y cyfraddau uchaf yn ardaloedd Cwm Taf ac Aneurin Bevan (ffynhonnell ddata: proffil Canser yr Ysgyfaint clystyrau Meddygon Teulu).
- Canran yr oedolion sy'n goryfed o leiaf un diwrnod yr wythnos: Abertawe sydd â'r ganran uchaf yn ABMU ac yng Nghymru, sef 28.6%. Y gyfradd isaf oedd Sir Benfro, sef 24.0% (ffynhonnell ddata: Arolwg Iechyd Cymru – data Meincnod). Credir bod hyn oherwydd y boblogaeth uchel o fyfyrwyr yn Abertawe.

- Canran yr oedolion oedd yn adrodd eu bod wedi yfed mwy na'r canllawiau o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf: Abertawe sydd â'r ail ganran uchaf yng Nghymru, sef 45.0%, fymryn o dan y gyfradd uchaf (46.2%) yn Sir Fynwy. Y gyfradd isaf yw 35.0% yn Nhorfaen (ffynhonnell ddata: Arolwg Iechyd Cymru – data Meincnod).

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae gwaith HHAAGAP wedi arwain at well gwasanaeth iechyd yng nghanol y ddinas, yr ardal lle mae'r angen mwyaf.
- Mae ardal y Bwrdd Iechyd yn cynnwys clystyrau lle mae smygu ar ei amlycaf a'i leiaf amlwg yng Nghymru, gyda gwahaniaeth o 15.6 pwynt canran rhyngddynt. Yn Abertawe, Iechyd y Bae (ardaloedd cymunedol cyfunedig Dwyrain y Bae a Gorllewin y Bae) sydd â lefel amlygrwydd isaf smygu, sef 13.1%, a'r Ddinas sydd â'r lefel uchaf, sef 28.7% (ffynhonnell ddata: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn deillio o Ddata Fframwaith Canlyniadau Ansawdd 2013/14 (QOF). Mae'r cyfraddau uwch yn tueddu i gyfateb i'r ardaloedd o amddifadedd uwch yn Abertawe.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Nododd Arolwg Chwaraeon Cymru fod plant:
 - 2 x yn fwy tebygol o ddwlu ar chwaraeon os ydynt yn hyderus
 - 5 x yn fwy tebygol o ddwlu ar chwaraeon os ydynt yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol
 - 9 x yn fwy tebygol o fwynhau Addysg Gorfforol 'yn fawr' os yw eu syniadau ynghylch chwaraeon ysgol bob amser yn cael gwrandawriad.
- Mae Cardiau Sgorio Iechyd Cyhoeddus yn amlygu mai'r oedolion eu hunain sy'n adrodd ynghylch nifer yr oedolion sy'n ordew, a bod yr amcangyfrif hwnnw'n debygol o fod yn rhy isel. Mae cyfartaleddau ardaloedd ABM a'r awdurdod lleol yn cuddio'r amrywiadau rhwng cymunedau a grwpiau oedran. Mae'r ganran sydd dros bwysau neu'n ordew yn cyrraedd uchafbwynt yn y band oedran 45-64, gan awgrymu bod pobl yn mynd yn fwy eisteddog wrth iddynt fynd yn hŷn.
- Yr oedolion eu hunain sydd hefyd yn adrodd am nifer yr oedolion sy'n smygu, ac mae'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel, a chuddio'r gwahaniaethau o ran grwpiau oedran, y rhywiau, ac ardaloedd amddifadedd isel ac uchel.
- Mae'r Cardiau Sgorio'n amlygu bod gwahaniaethau cymdeithasol-ddemograffig pwysig o ran hyd oes iach disgwylidig. Gall pobl o boblogaethau mwy difreintiedig nid yn unig ddisgwyl byw bywydau byrrach, ond bydd cyfran uwch o'u bywyd yn cynnwys iechyd gwael. Mae'r bwlch o ran hyd oes disgwylidig rhwng ein cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig yn adlewyrchu sut mae amddifadedd, tlodi a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, e.e. tai a chyflogaeth, yn effeithio ar gyfleoedd unigolion a chymunedau mewn bywyd. Er bod hyd oes disgwylidig adeg geni yn codi a bod pobl ar gyfartaledd yn byw'n hwy, nid yw'r enillion hyn o ran iechyd yn cael eu dosbarthu'n gyfartal ar draws poblogaeth yr ardal.
- Mae'r ffigurau diweddaraf o'r arolwg cenedlaethol Monitro Dienw Digyswllt yn awgrymu bod cyfraddau HIV a hepatitis ymhlith defnyddwyr cyffuriau sy'n defnyddio nodwyddau sy'n cyrchu gwasanaethau yn Abertawe yn uwch nag ymhlith defnyddwyr gwasanaeth yng Nghymru, ac yn achos hepatitis C, yn uwch nag yn y rhan fwyaf o ranbarthau yn Lloegr.

- Mae tystiolaeth anecdotaidd o Garchar EM Abertawe yn awgrymu mai problem sy'n prysur ddod i'r amlwg yw'r defnydd o sylweddau Seicoweithredol Newydd, a hynny ymhlith carcharorion newydd a'r rhai sydd wedi bod yn y carchar ers peth amser. Mae Asesiad o Anghenion Iechyd Carcharorion wedi cael ei gynnal i adolygu'r camau gweithredu yn y maes hwn.
- Mae Tai a Digartrefedd yn fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe - roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y 'Sgwrs Fawr' yn 2016/17. Hoffent weld cartrefi (e.e. ymdeimlad o sicrwydd, gwres, teulu) yn cael eu trin yr un mor bwysig â thai, cefnogaeth ar gyfer sgiliau ariannol er mwyn byw'n annibynnol, cefnogaeth i bob ifanc er mwyn iddynt deimlo'n rhan o'r gymuned yn fwy, mwy yn cael ei wneud i ddatrys materion cymunedol, (e.e. goleuadau gwael, tai gwag, diffyg cyfleusterau) and mwy o wybodaeth am le i fynd i gael help.
- Mae camddefnyddio sylweddau'n fater pwysig i blant a phobl ifanc Abertawe— roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y 'Sgwrs Fawr' yn 2016/17.
- Dywedodd pobl ag anableddau dysgu fod cynyddu annibyniaeth ynghyd â gwell gwybodaeth, cyfleusterau cymunedol ac ymwybyddiaeth o wasanaethau cyhoeddus yn bwysig iddynt (Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin (APBGn) 2017).
- Mae pethau sy'n bwysig i bobl ifanc yn cynnwys cael: digon o glybiau, gweithgareddau a digwyddiadau wedi'u trefnu y tu allan i'r ysgol; mannau lleol diogel i gwrdd â ffrindiau, gan gynnwys cyfleusterau fel caeau chwaraeon a pharciau; a chefnogaeth i'w helpu i gynnal perthnasoedd teuluol a phersonol (APBGn) 2017).

Rhagolygon at y dyfodol

- Mae bod dros bwysau neu'n ordew yn ffactor risg sylweddol ar gyfer diabetes math 2, clefyd y galon, dementia, osteoarthritis y penliniau, anhwylderau iechyd meddwl a phoen yn y cefn. Ategir amlygrwydd hyn gan y ffaith nad yw diet a lefelau gweithgarwch corfforol plant ac oedolion yn bodloni'r canllawiau ar gyfer ffordd iach o fyw. Yn arbennig, mae'r tueddiadau'n dangos lefelau isel o fwydo cychwynnol ar y fron adeg geni, lefel uwch o fwyta bwydydd wedi'u prosesu, sydd â dwysedd egni uchel, peidio â chadw at yr argymhellion o ran bwyta ffrwythau a llysiau a lefelau uchel o ymddygiad eisteddog, sydd fel ei gilydd yn peri i'r afiechydon a'r cyflyrau uchod waethygu.
- Mae gordefnydd o wrthfioleg yn helpu heintiau i ddatblygu fel eu bod yn gryfach ac yn gallu gwrthsefyll gwrthfioleg. Os bydd y lefel gyfredol o ddefnyddio gwrthfioleg yn parhau, bydd mwy o berygl y gallai pobl farw o heintiau bacteriaidd.
- Mae data triniaeth yn awgrymu bod galw cynyddol yn parhau am gefnogaeth yng nghyswllt defnydd o heroin yn arbennig; hefyd bod y boblogaeth sy'n defnyddio heroin yn heneiddio, ac y gallai fod arnynt angen cymorth iechyd a chymdeithasol ychwanegol o ganlyniad.
- Mae nifer aruthrol o smygwyr wedi newid i e-sigarets yn lle cynnyrch tybaco, ond fel yn achos unrhyw beth newydd nid yw'r effeithiau ar iechyd yn y dyfodol yn hysbys.
- Bydd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n colli eu golwg a'u clyw – mae hyn, ynghyd â'r ffaith fod pobl yn profi nam synhwyraidd ochr yn ochr â chyflyrau cymhleth tymor hir eraill, yn golygu y bydd angen lefelau uwch o gefnogaeth.
- Mae pobl ag anabledd dysgu'n dioddef iechyd gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol a disgwylir i'r boblogaeth hon gynyddu'n gyson i ychydig dros 2,000 o bobl erbyn 2030.

- Bydd y niferoedd o bobl sy'n profi awtistiaeth yn cynyddu rhywfaint dros y 10 mlynedd nesaf.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Hybu a chefnogi bwydo ar y fron adeg geni ymhlith mamau newydd.
- Cynnydd yn y ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu bwyta mewn ardaloedd a dargedir.
- Cynnydd yn y chwaraeon allgyrsiol i blant yn gyffredinol ac mewn ardaloedd a dargedir.
- Gweithgareddau chwaraeon wedi'u targedu ar gyfer pobl dros 45 oed.
- Gostyngiad sylweddol yn y gwrthfoteg a ragnodir, a'r ffaith bod pobl yn disgwyl eu cael.
- Mae cost uchel triniaeth HIV a hepatitis a'u heffaith dymor hir ar iechyd yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i strategaethau lleihau niwed ac ataliaeth er mwyn lleihau risgiau trosglwyddiad ymhlith defnyddwyr cyffuriau sy'n defnyddio nodwyddau yn y tymor hir.
- Gwasanaethau cryfach i blant sy'n ofalwyr.
- Gostyngiad diogel yn nifer y plant sy'n derbyn gofal
- Mwy o opsiynau llety i blant a phobl ifanc sy'n gadael y system ofal.

Ynghylch y dystiolaeth

- Nid ymddengys bod fawr ddim dystiolaeth ddiweddar ar gael ynghylch y canlynol:
 - Y defnydd o gyffuriau yn Abertawe
 - Data iechyd yn gyffredinol yng nghyswllt plant a phobl ifanc.
- Mae angen rhagor o waith ynghylch effeithiau sylweddau seicoweithredol newydd yn Abertawe a Charchar EM Abertawe.
 - Gellid datblygu dadansoddiad pellach o ddata lefel ardal gymunedol/clwstwr ar smygu, yfed a materion cysylltiedig.
 - Gellid datblygu dadansoddiad pellach o ddata ar smygu, yfed a materion cysylltiedig mewn ardaloedd cymunedol/glwstwr.

E2: Iechyd meddwl a llesiant da gan blant, pobl ifanc ac oedolion

Tystiolaeth:	Cefnogaeth i blant a phobl ifanc ddatblygu gwydnwch emosiynol a chyrchu gwasanaethau
	Cefnogaeth i bobl fyw mewn cymunedau cryf a chynaliadwy
	Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin 2017
Sgôr llesiant a chrynodeb:	5 – Mae gwelliant yn heriol gan ei fod yn dibynnu ar lawer o ffactorau eraill heblaw iechyd, a bydd angen cefnogaeth llifoedd gwaith eraill, megis lefelau amddifadedd, mynediad i addysg, lefelau diweithdra, tai da; materion amgylcheddol megis mannau gwyrdd a mynediad i gyfleusterau.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. • Y prif fater a nodwyd ar gyfer y sbardun hwn oedd nad oedd digon o gefnogaeth i bobl â phroblemau iechyd meddwl. • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 4 i'r sbardun hwn ar hyn o bryd.

Cryfderau Abertawe

- Grŵp cynllunio strategol ar gyfer anghenion pobl hŷn yw Grŵp Llywio Heneddio'n Dda Abertawe, ac mae'n hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r materion a amlygwyd yn y Cynllun Heneddio'n Dda. Mae'r aelodau'n dod o amrywiaeth o ddisgyblaethau (Iechyd, yr Awdurdod Lleol, yr Heddlu, y gwasanaeth Tân, Iechyd Cyhoeddus, y Trydydd Sector, Aelodau 50+), ac mae tri is-grŵp: Cymunedau sydd o blaid Pobl Hŷn (gan gynnwys Dementia); Byw'n Ddiogel, yn Dda ac yn Annibynnol; Atal Syrthio.
- Mae'r Heddlu'n datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd ei angen ar bobl ag anghenion iechyd meddwl, fel eu bod yn cael y gefnogaeth angenrheidiol yn hytrach na chael eu tynnu i'r system cyfiawnder troseddol. Mae cytundeb Llywodraeth Cymru i wella'r system o ofal a chefnogaeth i bobl sy'n wynebu argyfwng iechyd meddwl wedi cael ei lofnodi gan yr heddluoedd, y GIG, cynghorau ac asiantaethau eraill.
- Mae Bwrdd Iechyd ABMU, Dinas a Sir Abertawe, Cyngor y Cleifion a Rhwydwaith Grwpiau Defnyddwyr Abertawe yn cefnogi Digwyddiad Gwybodaeth ac Adnoddau Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yn Abertawe. Mae dros 50 o ddarparwyr yn dosbarthu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn ardal Abertawe.
- Mae holl staff ABMU a Heddlu De Cymru nawr yn dilyn hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia, ac mae Cyngor Abertawe yn bwriadu hyfforddi'r holl staff i fod yn 'Gyfeillion Dementia'.
- Bu Bwrdd Rhanbarth Gwella Busnes Abertawe (BID) yn cefnogi Cyfeillion Dementia yn ystod 2014 trwy sicrhau mynediad hwylus i 850+ o fusnesau yng nghanol y ddinas ac anogwyd holl staff busnesau'r ddinas i fynychu sesiwn a gynhaliwyd gan wirfoddolwyr.
- Lanswyd Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru 'Law yn Llaw dros Iechyd Meddwl' ym mis Hydref 2016. Strategaeth ddeng mlynedd, ar draws y llywodraeth, yw hon, gyda'r bwriad o wella llesiant meddwl holl breswylwyr Cymru. Mae'n cwmpasu pob oed ac yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu i gefnogi pobl sydd â salwch meddwl difrifol, parhaol. Mae'r strategaeth yn cyflwyno deg maes blaenoriaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth a bydd yn cael ei gweithredu trwy gynlluniau cyflawni tair blynedd ar gyfer y llywodraeth a rhanddeiliaid.
- Darperir mwyafrif llethol y gofal a'r gefnogaeth iechyd meddwl i bobl mewn lleoliadau heblaw ysbytai. Darperir ystod eang o wasanaethau i ymateb i anghenion o faterion llesiant lefel isel i gyflyrau cymhleth sydd â materion risg sylweddol. Mae amrywiaeth o wasanaethau ysbyty i Abertawe yng Nghefn Coed.
- Mae Bwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin a Bwrdd Partneriaeth Leol Iechyd Meddwl ABMU wedi datblygu cynllun cyflawni ar y cyd sy'n darparu ar gyfer fframwaith gwasanaeth er mwyn trin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'n cyd-ddigwydd, a bydd yn arwain at gyflawni ymarfer clinigol integredig yn y gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i oedolion, plant a phobl ifanc.
- Rhoddodd tri Rhwydwaith Clystyrau Meddygon Teulu flaenoriaeth i wasanaethau cwnsela yn ystod 2015/16 a nododd dau arall gwnsela i bobl ifanc fel blaenoriaeth i'w rhwydwaith yn ystod 2016/17.
- Fel rhan o waith Bwrdd Dinasoedd Iach Abertawe paratowyd cyfeirlyfr helaeth yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael o'r sector gwirfoddol a chymunedol, sy'n darparu cymorth a chyngor cychwynnol i unigolion. Mae hyn yn golygu bod

modd i waith ataliaeth neu ymyrraeth gynnar ddigwydd, ac yn lleihau'r galw ar wasanaethau statudol.

- Mae cefnogi pobl ifanc i ddatblygu gwydnwch emosiynol yn faes blaenoriaeth ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
- Mae'r fenter Cydlynu Ardaloedd Lleol a sefydlwyd gan yr awdurdod lleol yn helpu i feithrin perthnasoedd o fewn y gymuned, yn cynorthwyo pobl hŷn, pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl, ac yn helpu teuluoedd a gofawyr i ddatblygu eu gweledigaeth ar gyfer bywyd da. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl i barhau'n gryf ac mewn cysylltiad, i deimlo'n fwy diogel, i fod yn llai ynysig ac i feithrin hyder.

Newidiadau dros amser

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Abertawe'n cynyddu 21,600 (+9.0%) rhwng 2014 a 2039. Rhagwelir y cynnydd mwyaf yn y bandiau oedran hŷn, ac mae disgwyl i'r boblogaeth dros 85 fwy na dyblu erbyn 2039. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o gynrychioli cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y rhai sydd â'u henwau ar y gofrestr iechyd meddwl a dementia yn Abertawe ei hun ac o fewn y Bwrdd Iechyd cyfan. Yn 2016, ar y gofrestr dementia roedd 1,665 o gleifion wedi'u cofrestru yn Abertawe, a 2,608 o gleifion iechyd meddwl wedi'u cofrestru.
- Mae Arolwg Iechyd Cymru'n adrodd bod 13% o oedolion yng Nghymru yn sôn eu bod yn derbyn triniaeth gyfredol am ryw salwch meddwl, gyda 10% o oedolion yn cael triniaeth gyfredol am iselder, 8% am bryder, a 2% am salwch meddwl arall. Roedd salwch meddwl yn fwy cyffredin ymhlith pobl ganol oed, ac yn fwy cyffredin ymhlith menywod (16%) na dynion (10%). Roedd cynnydd yn y lefelau o salwch meddwl yr adroddwyd amdanynt yn achos yr ardaloedd mwy difreintiedig – roeddent yn 8% yn y pumed lleiaf difreintiedig, ac yn codi'n gyson gydag amddifadedd i gyrraedd 20% yn y pumed mwyaf difreintiedig. Nododd Panel Craffu'r cyngor fod nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol CAMHS wedi dyblu yn y 4 blynedd diwethaf.
- Mae Arolwg Iechyd Cymru 2015 yn adrodd bod gan 19% o blant yng Nghymru salwch hirsefydlog; y rhai mwyaf cyffredin yr adroddir amdanynt yw asthma (5%), salwch meddwl (5%), ac anhwylder ar y croen (4%). Dim ond ar lefel genedlaethol mae'r wybodaeth hon ar gael.
- Yn ystod mis Ebrill 2016 roedd 77 o gleifion CARAT (Atgyfeiriadau asesiadau cwnsela a thrwy ofal) yng Ngharchar EM Abertawe. Mae gwasanaeth Gofal Iechyd y Carcharau'n gweithio mewn partneriaeth â CARAT, ac yn delio ag agwedd glinigol lleihau dibyniaeth carcharorion. Gwnaed 89 o atgyfeiriadau ym mis Mai 2016; 95 ym Mehefin; a 109 ym mis Gorffennaf. Y duedd yw mai alcohol, heroin, a fferylliaeth luosog yw'r prif feysydd camddefnyddio sylweddau.
- Rhwng Mehefin ac Awst 2016 gwelwyd 142 o garcharorion gan Ofal Sylfaenol Iechyd Meddwl, yr oedd 92 ohonynt yn atgyfeiriadau newydd. Mae'r clinig ar gyfer y rhai sydd â materion iechyd meddwl ysgafn i gymedrol, pryder ac iselder, ac mae hefyd yn bwynt asesu.

Cymharu â mannau eraill

- Amcangyfrif bras adroddiad ystadegol Llywodraeth Cymru 'Lefelau Anabledd yng Nghymru' (2007-2010) o gyfran y boblogaeth oedran gwaith sydd ag anabledd, yn unol â diffiniad Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA), oedd 20.1% yn

Abertawe (28,100 o bobl), tra bod cyfradd Cymru gyfan yn 20.2%. O'r 28,100 o bobl hynny, amcangyfrifwyd bod gan 9,600 (34%) anabledd corfforol, bod gan 5,000 (18%) broblemau anadlu neu'r galon, a bod gan 3,400 (12%) salwch hirsefydlog neu gynyddol. Amcangyfrifwyd bod gan 10,000 (36%) o bobl eraill broblemau iechyd eraill. Yn ôl yr adroddiad, mae 'Problemau iechyd eraill' yn cynnwys amrywiaeth o broblemau, er enghraifft salwch meddwl.

- Lle bo modd, mae rhieni'n ceisio osgoi newid ysgol eu plant er mwyn hybu eu sefydlogrwydd addysgol a'u cyfleoedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o safbwynt llesiant plant sy'n derbyn gofal. Gan eu bod yn anochel wedi dioddef cryn amharu ar eu bywyd teuluol, mae'n aml yn hollbwysig eu bod yn aros yn yr un ysgol, lle mae'r staff a'r plant yn eu hadnabod orau. Roedd perfformiad Abertawe'n is na chyfartaledd Cymru (o ran plant yn newid ysgol) yn 2014/15.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae tair ardal gymunedol yn Abertawe oedd wedi'u cynnwys yn 20% ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru (ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)) ym mis Ionawr 2016, sef Penderi, lle mae 49% o'r cleifion cofrestredig yn byw mewn amddifadedd; y Ddinas, lle mae 48% o'r cleifion yn byw mewn amddifadedd; a Lluchwr, lle mae 8% o'r cleifion yn byw mewn amddifadedd. Mae'r cymunedau hyn yn debygol o brofi iechyd gwaeth.
- Mae pob un o'r Rhwydweithiau Clwstwr yn Abertawe (sy'n cyfateb at ei gilydd i'r ardaloedd cymunedol) yn adrodd am gynnydd o 1% ar gyfartaledd yn y cleifion iechyd meddwl yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae trafodaethau gyda staff yng Ngharchar EM Abertawe yn amlygu bod yr anghenion cymorth yng nghyswllt camddefnyddio sylweddau, tai a materion iechyd meddwl yn uchel yn achos carcharorion.
- Mae data'r Cyfrifiad (ONS) yn awgrymu bod mwy na 30,000 o bobl yn darparu gofal heb dâl yn Abertawe yn 2011, ond mae'r ffigurau hyn yn debygol o fod yn llawer uwch gan fod tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod llawer o bobl yn darparu gofal di-dâl, ond heb roi eu hunain yn y dosbarth hwnnw. Mae 17,346 o bobl yn darparu 1-19 awr o ofal di-dâl; mae 4,495 yn darparu 20-49 awr o ofal di-dâl; ac mae 8,508 yn darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos.
- Yn Arolwg Gofalwyr Abertawe 2016, nid oedd 100% o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn teimlo bod staff iechyd yn gyffredinol yn meddwl am ofalwyr a'u hanghenion, ac nid oedd eu Meddyg Teulu wedi gofyn iddyn nhw oedden nhw'n ofalwr neu'n gofalu am rywun. Pan ofynnwyd i ofalwyr ifanc oedd eu hysgol wedi dweud wrthyn nhw ble gallen nhw gael cefnogaeth – dywedodd 50% na, ac roedd 50% yn ansicr. Yn yr un modd, dywedodd 50% o'r gofalwyr ifanc eu bod heb gael eu hyfforddi ar gyfer eu rôl ofalu ac roedd 50% yn ansicr. Dywedodd 100% o ofalwyr eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wnaed am y person roedden nhw'n gofalu amdano/amdani, a'u bod wedi cael cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth pan gafodd y person dan sylw ei ryddhau o'r ysbyty.
- Yn Arolwg Byw'n Dda (Living Well), sy'n arolwg ar wahân, dywedodd 51% eu bod bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn achos Meddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol eraill, dywedodd 25% fod hynny fel arfer yn wir, dywedodd 19%

weithiau, a dywedodd 5% nad ydynt byth yn cael eu cynnwys. Dywedodd 100% o'r rhai a holwyd nad oeddent wedi cael cynnig pecyn gwybodaeth i ofalwyr gan y Bwrdd Iechyd mewn ysbyty. Nid oedd gan 100% o'r rhai a holwyd gynllun ymdopi'n barod, rhag ofn y byddai argyfwng, a dim ond hanner y rhai a holwyd oedd yn teimlo y bydden nhw'n gwybod ble i droi mewn argyfwng. Pan ofynnwyd ble bydden nhw'n mynd i gael cyngor a chymorth, dywedodd 33% o'r rhai a holwyd y gwasanaethau cymdeithasol, dywedodd 22% sefydliadau gwirfoddol penodol, dywedodd 17% chwilio ar y rhyngwyd, dywedodd 2% lleoliadau ysbyty, a dywedodd 26% 'arall'.

- Roedd mwy o ofalwyr benyw na rhai gwryw yn rhan o'r ymgynghoriadau hyn, ac adlewyrchir hynny yn y ffaith mai'r boblogaeth fenyw sy'n cario'r baich mwyaf o ran darparu gofal.
- Mae plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o wynebu risg uwch o ddatblygu problemau iechyd meddwl na'u cyfoedion, ac maent mewn mwy o berygl o hunan-niweidio neu gyflawni hunan-laddiad. Mae plant ag anabledd dysgu hefyd yn fwy tebygol o fod â phroblem iechyd meddwl, a gall cyfran uwch ddisgwyl byw mewn tlodi ar ôl pontio i fywyd oedolyn, yn enwedig yn sgîl effaith diwygio lles ar lefel genedlaethol.
- Mae Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau iechyd meddwl na'u cyfoedion, ac maent mewn mwy o berygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad. Mae plant ag anabledd dysgu hefyd yn fwy tebygol o gael problem iechyd meddwl a gall cyfran uchel ddisgwyl byw mewn tlodi wedi iddynt dyfu'n oedolion yn enwedig gydag effaith y diwygiadau lles cenedlaethol.
- Mae iechyd meddwl yn fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe - roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y 'Sgwrs Fawr' yn 2016/17. Hoffent weld diffiniad ehangach o iechyd meddwl a lles emosiynol, ysgolion yn eu deall yn well gan gynnwys cysylltiadau â hawliau plant a mwy o waith partneriaeth i gefnogi plant a phobl ifanc.
- Mae gwrthfwllo'n fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe - roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y 'Sgwrs Fawr' yn 2016/17. Hoffent weld help a chefnogaeth effeithiol i bobl sy'n cael eu bwlio, pobl yn cadw llygad am arwyddion o fwlio, lleoedd diogel lle gall pobl gael cefnogaeth, ysgolion sy'n parchu hawliau a chyswllt agored a thryloyw rhwng rhieni, yr ysgol, pobl ifanc ac eraill sy'n ymwneud ag atal a/neu ymdrin â bwlio.
- Yn 2017, clywodd Ymchwiliad Craffu a oedd yn edrych ar strategaeth Trechu Tlodi'r cyngor gan bobl a oedd yn profi tlodi, mai ffactor pwysig yn eu bywydau – fel sgîl effaith profiadau amrywiol, gan gynnwys diweithdra, teulu'n chwalu, hunaniaeth a hunanbarch isel – yw straen a phryder, a gall hyn fod yn rhwystr enfawr. Er bod gan nifer o'r cyfranogwyr ddyheadau neu 'ddymuniadau' pendant ar gyfer y dyfodol, roeddent yn amlwg yn cael anhawster gweld y tu hwnt i'w hamgylchiadau presennol.
- Canfu ymchwiliad craffu yn 2016 a oedd yn edrych ar wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc fod rhieni plant â phroblemau iechyd meddwl yn aml yn cael anhawster cael cymorth - mae dryswch ynghylch rôl a chwmpas yr asesiad a'r gwasanaethau triniaeth sydd ar gael.

Rhagolygon at y dyfodol

- Mae iechyd meddwl gwael neu ddiffyg gwydnwch emosiynol yn ffactor allweddol yn achos nifer fawr o bobl ifanc sy'n dod i mewn i'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol, a

bydd methiant i fynd i'r afael â hyn yn creu diwylliant drws cylchol fydd yn golygu na allant dorri'r cylch troseddu. Mewn cyferbyniad, mae pobl ag iechyd meddwl gwael hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddiodefyrwyr troseddau.

- Ar hyn o bryd nid yw'n eglur pa mor fawr yw'r angen am wydnwch emosiynol ar lefel leol. Gallai fod goblygiadau mwy eang na'r disgwyl i hyn os na sefydlir gwaelodlin.
- Mae gofalwyr yn darparu gofal a chymorth helaeth yn ddi-dâl – os na fyddant hwythau'n derbyn cefnogaeth, bydd asiantaethau'n wynebu baich llawer mwy o ran darparu gofal i'r rhai sydd mewn angen. Ar ben hynny, dylid ystyried y cynnydd mewn materion diogelu yr adroddwyd amdano yn Lloegr lle bu'r gofalwr yn gyflawnnydd.
- Wrth i'r Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd ABMU ac Addysg weithio mewn partneriaeth, mae hynny'n sicrhau asesiad trylwyr a monitro ar iechyd a llesiant plant sy'n derbyn gofal trwy'r Tîm Iechyd PDG arbenigol, a bod sylw'n cael ei roi hefyd i'r nifer llai o blant sy'n cael eu lleoli tu allan i'r sir. Mae Abertawe'n ymdrechu'n barhaus i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, a chefnogir hynny gan ymdrechion y Grŵp Llywio Addysg PDG a'r Tîm Addysg PDG. Mae Abertawe'n ymdrechu'n gyson i wella safonau cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, wedi'i chefnogi gan ymdrechion y Grŵp Llywio Addysg PDG a'r Tîm Addysg PDG er mwyn gwella'u cyfleoedd a thorri'r cylch o gyrhaeddiad isel.
- Mae gofalwyr ifanc sy'n derbyn cyfrifoldeb am rywun megis rhiant – sy'n sâl, yn anabl, yn oedrannus, yn profi trallod meddyliol, yn dioddef effaith camddefnyddio sylweddol, neu sydd â chyfrifoldeb sylweddol am ofalu am frawd neu chwaer – eu hunain mewn perygl o wynebu problemau iechyd meddwl ac emosiynol yn eu bywyd presennol neu yn y dyfodol. Mae rhyw 30-60 o ofalwyr ifanc hysbys yn Abertawe, ac mae'n debygol bod mwy na hynny, sydd angen cefnogaeth i gyflawni eu llesiant eu hunain. Mae amrywiaeth o resymau am yr adrodd annigonol hwn – yn achos rhai teuluoedd, gall fod o ganlyniad i ofn neu bryder ynghylch dod i gysylltiad â'r gwasanaethau statudol. Wrth symud ymlaen, mae angen i Abertawe wella ymwybyddiaeth o anghenion cefnogi'r grŵp penodol hwn o blant a phobl ifanc yn eu rolau gofalu.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Datblygu gwaith y Bartneriaeth Iechyd Meddwl i gyflawni'r camau gweithredu a geir yn 'Strategaeth Law yn Llaw dros Iechyd Meddwl' Llywodraeth Cymru.
- Bod staff gofal iechyd yn nodi ac yn ystyried anghenion gofalwyr e.e. yn eu cyfeirio ymlaen at gefnogaeth briodol.
- Ehangu ystod gwasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn Abertawe.
- Datblygu neu gomisiynu casglu data ynghylch iechyd meddwl a gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc.
- Gellir diwallu anghenion y plant yr asesir bod ganddynt anghenion therapiwtig, boed drwy Wasanaethau Iechyd Meddwl neu wasanaethau a gomisiynir.

Ynghylch y dystiolaeth

- Dim ond ar lefel genedlaethol mae ystadegau GIG Cymru ar gael.
- Mae data Cyfrifiad 2011 ar gael ar lefel awdurdod lleol, cenedlaethol a lleol – o bosib ar gyfer ardaloedd cymunedol.

- Dim ond ar lefel genedlaethol mae data Arolwg Iechyd Cymru ynghylch iechyd meddwl ar gael.
- Mae bwlch yn y data sydd ar gael ynghylch plant a phobl ifanc sydd â salwch meddwl a data ynghylch eu gallu i ddatblygu gwydnwch emosiynol.

E3: Pobl hŷn yn heneiddio'n dda ac yn cael eu cefnogi i barhau'n annibynnol

Tystiolaeth:	Pobl hŷn yn syrthio
	Cyfleoedd pobl hŷn i ddyngu a chael cyflogaeth
	Pobl hŷn yn teimlo'n unig ac yn ynysig
	Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin 2017
Sgôr Ilesiant a chrynodeb:	5 – Er bod peth gwaith effeithiol yn digwydd, mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch yr effaith mae'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn hyd oes disgwylidig pobl Abertawe yn debygol o'i chael ar wasanaethau. Mae bylchau hefyd yn ein gwybodaeth ynghylch anghenion ardaloedd, er mwyn i waith wedi'i dargedu fedru digwydd.
Note: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. • Y prif faterion a nodwyd o fewn y sbardun hwn oedd bod angen gwell gofal yn y gymuned a bod angen gwell gwaith cydlynol rhwng y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 5 i'r sbardun hwn ar hyn o bryd.

Cryfderau Abertawe

- Mae gan Abertawe sector cymunedol a gwirfoddol gweithredol sy'n darparu gwasanaethau i ofalwyr a phobl hŷn. Mae'r Bartneriaeth Dinas Iach wedi cynhyrchu cyfeirlyfr o wasanaethau sydd ar gael i'r gymuned ac mae practisau Meddygon Teulu yn ei ddefnyddio i gyfeirio cleifion ymlaen at gefnogaeth.
- Mae Cynllun Heneiddio'n Dda Abertawe a'i Strategaeth Annibyniaeth Pobl Hŷn 2015-2020 yn cael eu darparu gan y Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda ac yn sicrhau dull gweithredu partneriaeth o ymdrin â llesiant pobl 50+. Mae'n cynnwys y meysydd blaenoriaeth canlynol:
 - Iechyd a chymorth
 - Cyllid
 - Mynd o gwmpas a gweithgaredd cymdeithasol.
- Llofnododd Dinas a Sir Abertawe Ddatganiad Dulyn ar Ddinasoedd a Chymunedau sydd o Blaid Pobl Hŷn yn Ewrop ym mis Chwefror 2014. Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) wedi cynhyrchu rhestr wirio ar gyfer y rhai sydd am sicrhau bod eu dinas yn fwy o blaid pobl hŷn, sy'n caniatáu hunanasesu ac yn olrhain cynnydd. Elfen allweddol o lwyddiant hyn yw cynnwys pobl hŷn, sy'n disgrifio eu profiadau eu hunain o nodweddion cadarnhaol y ddinas a'i rhwystrau.
- Mae Abertawe hefyd wedi datblygu Cydlynwyr Ardal Leol, sy'n gyfrifol am helpu unrhyw un i feithrin perthnasoedd yn eu cymuned.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu'r Prosiect Rhagweld Gofal, sy'n defnyddio dull aml-ddisgyblaeth o haenu aelodau mwyaf bregus ac agored i niwed y boblogaeth oedrannus, sy'n wynebu'r perygl mwyaf o golli eu hannibyniaeth. Mae'n hwyluso datblygiad tîm aml-ddisgyblaeth o amgylch y person hŷn, gan sicrhau bod polisïau

gweithredol, gweithdrefnau a modelau gwasanaeth yn cael eu datblygu a'u gweithredu mewn modd cyffredin, gan greu gwasanaeth integredig sy'n cyflawni gofal mwy cynaliadwy yn y gymuned.

- Menter bartneriaeth gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw 'Gwneud i Bob Cyswllt Gyfri/Make Every Contact Count', a lansiwyd ym mis Hydref 2016. Mae wedi'i seilio ar y rhagdybiaeth bod pawb sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn cael cyfle am sgwrs i wella iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Newidiadau dros amser

- Mae data derbyn i'r ysbyty y Bwrdd Iechyd ynghylch cleifion sydd wedi syrthio a dderbyniwyd i'r ysbyty yn awgrymu bod yr achosion o syrthio wedi gostwng yn gyffredinol rhwng 2013/14 (2,507 achos o syrthio) a 2015/16 (2,405 achos o syrthio). Mae syrthio ar ac oddi ar risiau wedi gostwng o 198 i 178; mae syrthio ar yr un lefel trwy lithro, baglu, a hanner cwmpo wedi gostwng o 428 i 373; mae'r achosion amhenodol o syrthio wedi gostwng o 500 i 425. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd mewn un categori; - cynyddodd nifer yr achosion o syrthio ar yr un lefel o 214 i 247. O'r cyfanswm o 2405 o achosion syrthio a dderbyniwyd i'r ysbyty, roedd 1547 o'r cleifion dros 65 oed. Os ehangir yr ystod oed i gynnwys 50-64 oed mae'r ffigur hwn yn codi i 1751 o gleifion. Mae hyn yn amlygu, er ein bod yn teithio i'r cyfeiriad cywir, fod angen gwelliannau sylweddol o hyd i leihau achosion o syrthio ymhlith pobl dros 50.

Cymharu â mannau eraill

- Mae angen dadansoddiad pellach ynghylch annibyniaeth, dementia yn Abertawe yn ôl rhwydwaith / ardal gymunedol (oed 65+), gwahaniaethau o ran achosion o syrthio, a chyfleoedd pobl hŷn i ddysgu a chael cyflogaeth.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Nid oes gwybodaeth am yr ardal leol ar gael yng nghyswllt annibyniaeth pobl hŷn.
- Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae nifer y bobl sy'n byw gyda dementia wedi codi'n gyson o flwyddyn i flwyddyn – 0.5% ar draws pob un o ardaloedd clwstwr/cymunedol Abertawe. Ar draws ardal ABMU mae wedi codi 0.7%. Ar draws ardal PABM mae wedi codi 0.7%, sy'n awgrymu cynnydd parhaol yn y galw am wasanaethau iechyd a chefnogaeth.
- Yn ôl offeryn ymchwil a rhagfynegi poblogaeth Cymru gyfan Daffodil, yn 2015, amcangyfrifwyd bod gan 4,653 o boblogaeth oedolion Abertawe anabledd dysgu; o'r nifer hwn mae gan 969 (20.8%) anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol. Gan ddefnyddio'r amcangyfrifon ymchwil diweddaraf, mae'n bosib bod gan ryw 32,200 o bobl 16 oed a throsodd yn Abertawe un Anhwylder Meddyliol Cyffredin, e.e. pryder, iselder ac OCD. Mae gan bron hanner y nifer hwn (14,573) ddau gyflwr neu fwy, ynghyd â'r rhai sy'n profi anhwylder personoliaeth ffiniol (913), anhwylder personoliaeth gwrthgymdeithasol (703) a'r rhai sy'n profi seicosis (811).

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae Cronfa Kings yn adrodd bod tua thraean o bobl dros 65 oed yn syrthio bob blwyddyn, ond nad yw hynny'n rhan anochel o heneiddio, ac maent yn amlygu'r

gwaith a wnaed gan Torbay i leihau achosion o syrthio yn y grŵp oedran yma. Mae prosiect Rhagweld Gofal y Bwrdd Iechyd wedi'i seilio ar y gwaith a wnaed yn Torbay.

- Mae Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion yn adrodd yn eu model economaidd newydd o atal syrthio y gallai ffisiotherapi ataliol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru olygu gostyngiad o 9396 yn yr achosion o syrthio, gan greu arbedion cost o £15,869,911. Heb y buddsoddiad hwnnw, mae'n rhagweld erbyn 2020 y bydd 18.2% yn fwy yn cael eu derbyn i gartrefi gofal ar ôl syrthio.
- Fel y nodwyd eisoes, mae ymgysylltu diweddar â phobl hŷn yn Abertawe trwy'r Rhwydwaith 50+ (Arolwg Heneiddio'n Dda Mawrth 2015) wedi pennu mai'r canlynol yw'r blaenoriaethau allweddol: iechyd a chymorth; cyllid; mynd o gwmpas a gweithgaredd cymdeithasol.
- Holodd yr arolwg hefyd beth sy'n creu cymuned sydd o blaid pobl hŷn. I grynhoi, roedd yr ymatebion yn cynnwys:
 - Bod â gwybodaeth sy'n hawdd ei deall
 - Dinasyddiaeth dda e.e. cwrteisi a pharch tuag at bobl hŷn
 - Gwasanaethau a lleoliadau hygyrch
 - Teimlo'n ddiogel y tu mewn a'r tu allan i'r cartref
 - Cyfleoedd i chwarae rhan mor llawn â phosibl yn y gymdeithas
 - Dewis o opsiynau tai
 - Cludiant da, fforddiadwy, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig
 - Gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaeth Meddyg Teulu da
 - Gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl.
- Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau ynghylch dementia ac yn holi beth roedd pobl yn teimlo oedd yn golygu bod Cymuned yn Cefnogi'r rhai sy'n dioddef o ddementia. Dyma rai o'r ymatebion:
 - Gwell addysg a dealltwriaeth o'r cyflwr
 - Mannau sy'n barod i dderbyn pobl â dementia a'u teuluoedd
 - Mynediad at gyngor da a phobl ac asiantaethau sy'n gallu helpu.
- Holodd yr Arolwg Byw'n Dda (hefyd ym Mawrth 2015) pa rwystrau sydd i bobl hŷn ddysgu a datblygu sgiliau newydd. Dyma rai o'r ymatebion:
 - Materion ariannol, e.e. ffioedd cyrsiau.
 - Cyrsiau yn benodol ar gyfer rhai dros 50 oed.
 - Mynediad corfforol i leoliadau, e.e. symudedd, pellter teithio, cludiant.
 - Diffyg cyhoeddusrwydd ynghylch cyfleoedd.
 - Materion eraill, e.e. iechyd, hyder, cyfyngiadau addysgol.

Rhagolygon at y dyfodol

- Mae 369,186 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sef 12% o'r boblogaeth yn fras. Yn Abertawe cofnododd Cyfrifiad 2011 fod 30,349 o'r trigolion yn darparu gofal yn ddi-dâl, mae hyn yn cynrychioli rhyw 12.7% o'r boblogaeth; sy'n weddol gyson â chanran Cymru gyfan. Roedd nifer y gofalwyr di-dâl a ragwelwyd yn Abertawe yn 2015 fymryn yn uwch, sef 30,604 (ffynhonnell: Daffodil Cymru).
- Rhagwelir na fydd fawr ddim gwahaniaeth yn nifer y gofalwyr ifanc yn Abertawe, sef 1,936 (2015 - rhagfynegiad Daffodil) a'r rhagfynegiadau o 1,927 ar gyfer 2035.
- Mae'r rhagfynegiadau ar gyfer y rhai rhwng 25 a 64 oed yn amlygu cynnydd bychan o ryw 9% yn y gofalwyr di-dâl o'r nifer a ragwelwyd yn 2015 (20,553) a'r hyn a ragwelir yn 2035 (22,140).

- Yn yr ystod oed 65+ y gwelir y cynnydd mwyaf sylweddol a ragwelir yn nifer y gofalwyr di-dâl yn Abertawe. Rhagwelir cynnydd o ryw 14% ar gyfer y rhai 65 i 74 oed o 4,782 (a ragfynegwyd yn 2015) i 5,454 (2035).
- Rhagfynegir cynnydd mwy (32%) yn nifer y gofalwyr di-dâl yn yr ystod oed 75-84, o 2,513 yn 2015 i 3,318 yn 2035 (Daffodil).
- Rhagfynegir cynnydd mwy fyth (105%) yn nifer y gofalwyr di-dâl dros 85 oed, o 570 yn 2015 i 1162 yn 2035 (Daffodil). Rhagwelir y bydd 719 o bobl 85+ yn darparu o leiaf 50 awr yr wythnos o ofal di-dâl erbyn 2035.
- Ar ddiwedd 2015/16, roedd 6027 o oedolion yn Abertawe yn derbyn cymorth uniongyrchol gan y gwasanaethau cymdeithasol (Y llynedd = 5616), cynnydd o 7%.
- Mae dros 1600 o ofalwyr yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac mae mwy na 600 o ofalwyr yn cael asesiad o'u hanghenion cefnogi eu hunain. Mae cefnogaeth dda i ofalwyr yn ddull hanfodol, cynaliadwy o sicrhau'r budd mwyaf o adnoddau gofal a chymorth, gan gefnogi pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain. Bydd yr angen hwn yn cynyddu dros amser wrth i fwy a mwy o bobl ddarparu gofal di-dâl.
- Mae dementia'n debygol o fod yn fater cynyddol arwyddocaol. Yn 2015, roedd tua 6,979 o bobl ym Mae'r Gorllewin wedi cael diagnosis o ddementia. Erbyn 2030, rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu 48% i 10,295.
- Gall unigrwydd ac unigedd effeithio ar les, gan arwain at nifer o broblemau corfforol ac iechyd meddwl. Erbyn 2030 rhagwelir y bydd oddeutu 26,250 o bobl 65 oed ac yn hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain yn Abertawe.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Estyn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia gorfodol i brif gyflogwyr Abertawe.
- Deall yr asesiad o annibyniaeth pobl hŷn yn Abertawe a gweithredu arno.
- Cynnwys 'dinasyddiaeth dda' yn y cwricwlwm ysgol, yn unol â safonau cymunedol sydd o blaid pobl hŷn.
- Lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl hŷn rhag dysgu neu ddatblygu sgiliau newydd.
- Mwy o gyfleoedd i bobl greu cysylltiadau a chymdeithasu.
- Newid yn y canfyddiadau ynghylch galluedd pobl hŷn.
- Bod pobl yn cynllunio'n well ar gyfer henaint.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae data ysbytai ynghylch achosion o syrthio yn dibynnu ar sut mae mater yn cael ei godio gan yr adran Damweiniau ac Argyfwng, e.e. os bydd person sydd wedi yfed gormodedd o alcohol yn syrthio ac yn torri braich, gallai'r codio gyfeirio at hynny fel achos o syrthio, problem alcohol neu'r ddau.
- Hyd yma, nid yw'r data ynghylch syrthio wedi cael ei goladu fesul cymuned / ardal glwstwr nac yn rhanbarthol.
- Mae angen gwaith pellach yng nghyswllt nifer o feysydd allweddol sy'n ymwneud â gofal, gan gynnwys effeithiau newid, materion/ystyriaethau diogelu, a'r effeithiau ar iechyd hirdymor gofalwyr.
- Mae angen mwy o waith i nodi'r math a'r lefel o gefnogaeth tai sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac sy'n debygol o fod ei angen yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn aros yn annibynnol.

- Mae'r data a'r dystiolaeth am anghenion presennol pobl hŷn â nodweddion gwarchoddedig sy'n byw ym Mae'r Gorllewin a'u hanghenion yn y dyfodol, yn anhysbys ar hyn o bryd.
- Mae angen mwy o ymchwil i sicrhau ein bod yn deal anghenion ein grwpiau lleiafrifoedd sy'n tyfu.
- Mae angen mwy o waith i gasglu tystiolaeth am nifer y bobl hŷn sy'n teimlo'n unig neu'n ynysig yn gymdeithasol, ynghyd â'r cysylltiadau rhwng unigrwydd ac iechyd meddwl a chorfforol gwael. Bydd mynd i'r afael ag unigrwydd a bod yn ynysig yn gymdeithasol yn arwain at well iechyd a lles.

E4: Pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel

Tystiolaeth:	Trais yn erbyn menywod a phlant, cam-drin domestig a thrais rhywiol <i>(cysylltiedig â sbardun A2)</i>
	Ymddygiad gwrthgymdeithasol a phob trosedd
	Diogelwch cymunedol – mewn cartrefi, busnesau ac ar ein ffyrdd
	Asesiad Poblogaeth Bae'r Gorllewin 2017
Sgôr llesiant a chrynodeb:	5 - Mae gwaith sylweddol yn parhau ynghylch lleihau trais yn erbyn menywod a phlant, cam-drin domestig a thrais rhywiol - wedi'i gysylltu â sbardun A2. Er bod ffigurau marwolaethau/anafiadau gyrrwyr ifanc a theithwyr yn gostwng yn erbyn targed 2020, mae cost y math yma o ddigwyddiad i'r gymdeithas yn uchel o ran gwasanaethau (megis yr ambiwlans, yr heddlu ac iechyd), a hefyd i'r teuluoedd dan sylw. Mae gwaith helaeth yn parhau ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Abertawe.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. • Roedd sylwadau ar gyfer y sbardun hwn yn ymwneud â goleuadau gwell mewn ardaloedd, mae problemau cyffuriau ac alcohol yn Abertawe yn gwneud i bobl deimlo'n anniogel a mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion ac ar-lein fel bod plant yn teimlo'n ddiogel.

Cryfderau Abertawe

- Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi cynnal ymarferiad ymgynghori a mapio dioddefwyr i ddarparu dealltwriaeth gydlynus o ddarpariaeth gwasanaethau dioddefwyr ac anghenion dioddefwyr yn Ne Cymru, ac maent yn cefnogi'r broses o sefydlu a datblygu prosiect peilot adferol ar y cyd i gefnogi teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig.
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal archwiliadau Diogelwch Tân ac yn darparu cefnogaeth i safleoedd busnes oddi mewn i raglen archwilio sefydledig seiliedig ar risg. Maent yn darparu cymorth, arweiniad a chefnogaeth i fusnesau i sicrhau eu bod yn parhau mewn busnes. Maent hefyd yn darparu cyngor ar reoli parhad busnes i gynorthwyo gyda chynaliadwyedd economaidd.
- Mae'r Gwasanaeth Tân hefyd yn darparu rhaglen helaeth o Wiriadau Diogelwch yn y Cartref i aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau, er mwyn lleihau risg tân yng nghartrefi pobl.

- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sefydlu nifer o fentrau amlasiantaeth i leihau tanau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau, h.y. Operation Dawns Glaw ac Operation BANG.
- Mae gan Abertawe bartneriaeth Cam-drin Domestig amlasiantaeth gref, gyda threfniadau clir, ffurfiol ar gyfer darparu'r gwasanaeth. Mae'n flaenoriaeth strategol ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r awdurdod lleol, ac mae hyfforddiant yn cael ei estyn ar draws y Cyngor. Mae Siop dan yr Unto ar gyfer Cam-drin Domestig yn darparu cymorth a chefnogaeth ar draws y continwwm angen.
- Mae Abertawe'n Ddinas Rhuban Gwyn – a ddyfarnwyd am ei gwaith i ddileu trais gwrywod yn erbyn benywod.
- Abertawe yw'r ddinas gyntaf yng Nghymru i gyflawni'r safon a derbyn gwobr y Faner Borffor. Cyflawnodd Abertawe gynnydd cyson yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r tafarnau a lleoliadau adloniant eraill yng nghanol y ddinas ar ôl iddi dywyllu, ochr yn ochr â mwynhau gostyngiad cyson yn nifer y troseddau a gyflawnir yn yr ardal.
- Mae'r Bartneriaeth yn gweithio ochr yn ochr â darparwyr gwasanaethau i ddiodefwr i ganfod themâu gwaith cyffredin a chynllunio ar y cyd ar gyfer darparu yn y dyfodol. Mae paratodau ar waith i ddatganoli cyfrifoldebau comisiynu lleol ar gyfer diodefwr i Gomisiynwyr yr Heddlu. Mae Heddlu De Cymru'n sgorio'n dda o ran bodlonrwydd diodefwr, gan gynnwys hwylustod cysylltu a'r driniaeth a roddir i ddiodefwr.
- Mae'r Heddlu'n gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r ymrwymadau yng Nghynllun Gweithredu Heddlu De Cymru ar gyfer Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched. Ceir manylion ynghylch hyn yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu, sy'n rhoi sylw i ostwng lefelau troseddu yn Ne Cymru ac a adlewyrchir yn Strategaeth Abertawe Fwy Diogel.
- Mae gweithwyr iechyd proffesiynol wedi cael eu recriwtio yn ardal pob bwrdd iechyd i wella'r adnabyddiaeth a'r atgyfeirio ar draws y gwasanaeth iechyd.
- Mae hyfforddiant ar Drais Seiliedig ar Anrhydedd yn cael ei gyflwyno i Swyddogion yr Heddlu ledled Cymru.
- Mae data ymosodiadau a data arall yn cael ei rannu'n fwy effeithiol rhwng yr Heddlu, Byrddau Iechyd Lleol a'r Gwasanaeth Ambiwlans.
- Mae 'Pwynt Cymorth' amlasiantaeth yn Abertawe wedi cynorthwyo mwy na 400 o bobl agored i niwed yn economi'r nos o fewn y tri mis cyntaf o fod yn weithredol, ac mae'n lleihau'r galwadau ar yr heddlu, yr ambiwlans ac adrannau Damweiniau ac Argyfwng.
- Cynhaliwyd digwyddiad amlasiantaeth i amlinellu'r dull o ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ne Cymru ac ymgynghori ar ddatblygu dull gweithredu cydlynus a chyson wrth roi'r Sbardun Cymunedol a Gwneud Iawn Cymunedol ar waith – camau gweithredu amgen i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae proses dendro ar y cyd yn cael ei datblygu gyda Rheolaeth Integredig ar Droseddwyr i ganfod system addas ar gyfer rheoli achosion i wella'r gwasanaethau i ddiodefwr ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau.
- Rhoi cynllun peilot ar waith i safoni'r broses asesu risg ar gyfer achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan wella lefelau bodlonrwydd diodefwr a lleihau'r achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

- Mae'r heddlu'n darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r rhai sy'n agored i niwed i staff drysau a heddweision er mwyn gwella'r ymyriadau cynnar ac atal trais, yn benodol trais rhywiol.
- Mae'r ymgyrch *Know the Score: #DrinkLessEnjoyMore* yn ymdrin ag agweddau at alcohol ac yn atgoffa pobl i "serve drinks not drunks". Mae gorfodi cyfrifoldebau deiliaid trwydded a defnyddwyr yn economi'r nos yn ffocws allweddol.
- Mae cytundeb wedi cael ei lunio rhwng yr Heddlu a Gwarchod Cymdogaeth De Cymru, yn nodi'r dull gweithredu ac yn ceisio canfod anghenion lleol, deall beth sy'n gweithio a chanolbwyntio ar leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ogystal â chynyddu hyder y cyhoedd trwy gydweithio i ddatblygu atebion.
- Mae adfywio'r Ddinas, ynghyd â datblygiad llwybrau beicio di-dor ar hyd y bae a gwelliannau i'r ffyrdd i leihau tagfeydd ar hyd Ffordd Fabian wedi hwyluso mynediad mwy diogel i'r ddinas.
- Mae cynlluniau gwyllo cyflymder cymunedol wedi'u sefydlu mewn ardaloedd lleol ledled De Cymru, gan roi i wirfoddolwyr yr offer a'r hyfforddiant i gyflawni gweithrediadau monitro cyflymder ochr yn ochr â'r Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol.
- Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru yn cynyddu ymwybyddiaeth gyrrwyr newydd o brif achosion damweiniau traffig.
- Cyflwynwyd prosiect Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn 2014/15 yn ardal Cymunedau yn Gyntaf Townhill, ac roedd yn cynnwys cyflwyno ardaloedd sylweddol gyda therfyn cyflymder o 20mya yn agos at yr ysgolion ac yn yr ardaloedd preswyl o'u hamgylch. Ers hynny, mae mentrau tebyg wedi cael eu cyflwyno ar draws y sir, ac mae bwriad i gyflwyno rhagor. Penodwyd Swyddog Ysgolion Sustrans i gadw mewn cysylltiad ag ysgolion ynghylch eu hanghenion teithio.
- Mae gwasanaeth bws hygyrch, sy'n rhedeg yn fynych wedi cael ei ddatblygu i gampws newydd Prifysgol Abertawe, ynghyd â llwybr beicio newydd a gwelliannau i'r llwybr presennol ar hyd Ffordd Fabian. Gosodwyd cyfeirbwyntiau newydd yng nghanol y ddinas, ac mae gwaith wedi cychwyn ar rwydwaith beicio yng nghanol y ddinas, gan gynnwys llwybrau di-draffig, oddi ar yr hewl.
- Mae Prifysgol Abertawe wedi mabwysiadu cynllun teithio cynaliadwy yn ffurfiol ar gyfer y ddau gampws, gyda chynllun lefel uchel parhaus a phrosiectau teithio niferus yn rhan ohono. Maent hefyd wedi ymrwymo i gynnal arolwg teithio llawn o staff a myfyrwyr bob dwy flynedd.

Newidiadau dros amser

- Mae nifer yr adroddiadau ynghylch trais domestig wedi gostwng rhwng 2014/15 a 2015/16. Fodd bynnag, gwelir y ffigurau'n codi'n sydyn ar adegau penodol megis y Nadolig neu yn ystod digwyddiadau chwaraeon fel y Gemau Olympaidd, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig ag yfed alcohol. *Gweler sbardun A2 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Trais Domestig*
- Gostyngodd lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Abertawe yn gyson yn ystod y 5 mis rhwng Ebrill a Medi 2015; fodd bynnag, ers hynny mae'r gostyngiad wedi arafu'n amlwg.
- Mae angen mwy o waith i ddeall effaith y troseddu sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Cymharu â mannau eraill

- Yn 2015 digwyddodd 5,543 o ddamweiniau ffordd a achosodd anaf personol yn y Deyrnas Unedig. Arweiniodd y damweiniau hyn a gofnodwyd at anafu 7,682 o bobl, sef 526 yn llai nag yn 2014. O fewn y cyfanswm hwn, lladdwyd 105 o bobl ar hewlydd Cymru, sef 2 yn fwy nag yn 2014; anafwyd 1,081 o bobl yn ddifrifol, sef 79 (7%) yn llai nag yn 2014; cafodd 6,496 o bobl fân anafiadau, sef 449 (6%) yn llai nag yn 2014. Nid oes data penodol ynghylch Abertawe ar gael eto.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Ni chasglwyd data/tystiolaeth o'r ardal leol ar hyn o bryd.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Roedd canlyniadau Arolwg Compass, arolwg o'r trigolion lleol gan Heddlu De Cymru (Rhagfyr 2014) yn awgrymu bod:
 - 84.1% o drigolion Abertawe yn yr arolwg yn dweud eu bod yn teimlo bod De Cymru yn ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel
 - 92.0% o drigolion Abertawe yn dweud eu bod yn teimlo bod eu cymdogaeth leol yn weddol ddiogel neu'n ddiogel iawn.
- Nododd adroddiad blynyddol gan Lywodraeth Cymru (2013) fod anafiadau i gerddwyr yn cynrychioli 23% o'r rhai a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol (KSI) mewn damweiniau traffig ffyrdd, ac 11% o'r mân anafiadau yng Nghymru. Yn 2013, cafodd 27 o gerddwyr eu lladd, anafwyd 233 o gerddwyr yn ddifrifol, a chafodd 792 o gerddwyr fân anafiadau. Plant hŷn (8-11 oed), pobl ifanc yn eu harddegau cynnar (12-15 oed) ac oedolion hŷn (80+) sy'n wynebu'r risg uchaf o gael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol. Mae'r cerddwyr sy'n cael eu hanafu o blith oedolion 'oedran gwaith' yn gysylltiedig ag adegau pan fydd unigolion yn gadael gwaith, neu'n gadael tafarndai a chlybiau nos.
- Mae Ystadegau Cenedlaethol Cymru'n adrodd bod yr Adran Trafnidiaeth yn crynhoi costau ariannol pob math o anaf i'r gymdeithas fesul achos (2012) fel a ganlyn:
 - Angheuol: £1,917,766
 - Difrifol: £219,043
 - Mân anaf: £23,336.

Rhagolygon at y dyfodol

- Er bod nifer y rhai a anafir yn gostwng yn gyffredinol, yn unol â thargedau 2020, mae'r data'n dangos bod nifer anghymesur o bobl ifanc yn cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru fel canran o'r boblogaeth gyfan. Gellid cyflawni 'arbedion' sylweddol i gymdeithas trwy leihau nifer yr anafiadau.
- Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ehangu eu cynnyrch Diogelwch Cartref i greu mentrau Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) a Byw'n Ddiogel, yn Dda ac yn Annibynnol (SWAIL) a fydd yn cynnwys blaenoriaethau asiantaethau/partneriaid eraill megis atal syrthio, atal troseddu, diogelu, ac yn y blaen.
- Mae cam-drin domestig yn fater pwysig i blant a phobl ifanc yn Abertawe – roedd yn un o'r themâu a ddewiswyd ganddynt ar gyfer y 'Sgwrs Fawr' yn 2016/17.
- Mae pobl sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dymuno gweld gwell ymwybyddiaeth o'r materion hyn a'r gwasnaethau sydd ar gael,

gwell hyfforddiant i staff, gwell opsiynau tai i'r bobl yr effeithir arnynt mwy o allu gan wasanaethau iechyd i ymateb i anghneion, datblygu rhwydweithiau a grwpiau cefnogi, cyngor ar faterion ariannol, diogelwch i ddioddefwyr pan fydd tramgwyddwyr yn symud drwy'r system cyfiawnder troseddol ac yn cael eu rhyddhau o'r carchar, cefnogaeth i blant sydd wedi byw mewn aelwydydd lle ceir camdriniaeth a chefnogaeth i dramgwyddwyr er mwyn iddynt newid eu hymddygiad.


Sut olwg fyddai ar welliant?

- Gostyngiad pellach yn ffigurau marwolaeth ac anafiadau gyrywyr a theithwyr ifanc mewn damweiniau traffig ffyrdd.
- Cynnydd cychwynnol yn y niferoedd sy'n rhoi gwybod am gam-drin domestig wrth i hyder yn yr heddlu a gwasanaethau lleol gynyddu ac i ddigwyddiadau cynyddu ymwybyddiaeth gael effaith.
- Gostyngiad pellach yn ffigurau'r marwolaethau a'r anafiadau yn sgîl digwyddiadau cysylltiedig â thân.
- Gostyngiad pellach yn nifer y tanau.
- Gostyngiad pellach mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yng nghyswllt mân achosion o gynau tanau yn fwriadol.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae tystiolaeth ynghylch trais yn erbyn menywod a phlant wedi'i chynnwys yn sbardun A2.
- Ni chyrchwyd data diogelwch ffyrdd lleol.
- Gallai ystadegau tân allweddol gael eu hychwanegu at y dystiolaeth hon yn ddiweddarach.

Canlyniad F: Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw



Ynghylch y Canlyniad hwn

Gall amgylchedd naturiol amrywiol, o ansawdd uchel gael effaith gadarnhaol ar iechyd corff a meddwl trwy ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer ymarfer corff, mwynhad a hamdden, yn ogystal â diwallu ein hanghenion sylfaenol, sef bwyd, dŵr ac aer glân. Gall ansawdd ein cymdogaethau, ein canolfannau trefol, ein systemau cludiant a'n hisadeiledd cynhaliol i gyd gael effaith uniongyrchol ar ein hiechyd a'n llesiant cymdeithasol, diogelwch, yr economi a diwylliant. Mae newid yn yr hinsawdd wedi dod yn ystyriaeth bwysicach, ac mae'n peri risg i'r amgylcheddau mae pobl yn byw ynddynt ynghyd â lles pobl yn lleol a ledled y byd. Gall rheoli ein hadnoddau naturiol a'n hamgylcheddau adeiledig ddatblygu mewn modd mwy effeithiol a chynaliadwy os ceir gwell dealltwriaeth a mynd ati i gynnwys y gymuned.

Mae diagram y sbardunau'n rhannu Canlyniad F yn dair elfen gyffredinol ar 'fannau da', sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol (Sbardun Sylfaenol F1), yr amgylchedd adeiledig ac isadeiledd (F2), a chymunedau cynaliadwy (F3), ac mae'n cynnwys sbardun sylfaenol ychwanegol ynghylch cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol (F4). Fodd bynnag, mae cysylltiad rhwng pob un o'r chwe canlyniad poblogaeth a'i gilydd a hefyd gall ffactorau (neu sbardunau) eraill effeithio ar y canlyniad - 'Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw'.

I grynhoi mae agweddau cadarnhaol a negyddol i bob un o'r pedwar sbardun; adlewyrchir hynny gan sgoriau llesiant a gynigir sy'n amrywio o 4 i 6 ym mhob achos. Mae'r amgylchedd naturiol (F1) yn cynnwys ystod eang o ddeunydd, felly mae darlun cymysg (o ran cryfderau/asedau a phryderon) yn anochel i ryw raddau. Yn yr un modd, mae materion ynghylch yr amgylchedd adeiledig ac isadeiledd (F2) yn cynnwys elfennau cadarnhaol a negyddol, er bod y darlun cyffredinol rywfaint yn llai ffafriol. Mae'r ffactorau sy'n ymwneud â byw mewn cymunedau cynaliadwy (F3) eto'n amrywiol iawn, ac er bod y data'n dangos darlun mwy cadarnhaol ar gyfer rhai agweddau, mae llawer mwy o gynnydd i'w wneud o hyd.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch sbardun newydd F4 eto yn gadarnhaol gan mwyaf; fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu rhai agweddau ar ei sylfaen dystiolaeth ar y cam hwn – daw dystiolaeth ar gyfer y sbardun hwn yn bennaf o safbwynt gwasanaethau diwylliannol y cyngor. Mae'r dadansoddiad hwn hefyd yn cynnwys yr ystyriaeth gychwynnol o'r Gymraeg yn Abertawe.

Adolygiad o'r Sbardunau Unigol: Canlyniad F

F1: Yr amgylchedd naturiol yn iach ac yn wyd

Tystiolaeth:	Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) [CNC]
	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe [SBP]
	Adroddiad Cyflwr Byd Natur 2016 [RSPB]
	LANDMAP [NRW]
	Archwiliad RIGS (Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol) [DSA]
	Asesiad Mannau Agored [DSA]
	Cynllun Rheoli AoHNE [DSA]
	Canran yr ardaloedd dyfrol sy'n cyflawni statws cyffredinol dda neu uchel (NI45) [CNC]
	Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer Abertawe 2016 a data ansawdd aer [DSA]
	Adroddiad Prosiect Ymgynghori Cymunedol Arbrofol Tawe [SEF]
	Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe 2016 [SEF]
Sgôr llesiant a a chrynodeb:	5 - Mae rhai agweddau ar ein hamgylchedd naturiol mewn sefyllfa gadarnhaol, ond mae parhau i gollu bioamrywiaeth a manau gwyrdd hygyrch, ynghyd â statws ecolegol ein hardaloedd dyfrol ac ansawdd aer gwael mewn rhai manau, yn destun pryder difrifol oherwydd gallant gael effaith andwyol ar iechyd pawb. Mae angen cydnabod gwasanaethau ecosystem a'u defnyddio mewn modd mwy effeithiol a chynaliadwy i sicrhau y gall lles gael ei wella yn awr a'i gynnal yn y dyfodol.
Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Chwe -17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. • Y prif fater a nodwyd yn y sbardun hwn oedd gwarchod manau gwyrdd ac asedau naturiol

Cryfderau Abertawe

- Amrywiaeth mawr ac ansawdd ei thirweddau, ei chynefinoedd, ei rhywogaethau a'i daeareg (mae 50% o'r sir o werth ecolegol sylweddol).
- Mae'r amgylchedd naturiol yn dod â budd sylweddol i'r economi ac ansawdd bywyd (fel atyniad sylfaenol ar gyfer twristiaid, busnesau a thrigolion).
- Mae ansawdd y dŵr ymdrochi'n rhagorol mewn chwech o wyth pwynt dynodedig, ac mae eraill yn dda (5 traeth Baner Las a marina).
- Lefel dda o fannau gwyrdd hygyrch ar draws y rhan fwyaf o'r sir (Asesiad Mannau Agored).
- 15 Baner Werdd ar gyfer parciau (7) a manau gwyrdd cymunedol (8).
- Mae ansawdd aer da yn ardaloedd gwledig ac arfordirol y sir.
- Mae'r amgylchedd naturiol yn dal i gynnal peth amaeth a physgodfeydd.

Newidiadau dros amser

- Mae bioamrywiaeth yn colli tir. (Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol).

- Mae'r manau gwyrdd sydd ar gael yn lleihau gan nad oes digon o dir llwyd ar gael ar gyfer nifer y tai y mae angen eu hadeiladu i fodloni twf rhagamcanol aelwydydd y Llywodraeth.
- Mae'r manau gwyrdd yn lleihau.
- Mae ansawdd y dŵr ymdrochi wedi gwella, ond ni welwyd ond newid bychan yn ansawdd y dŵr yn gyffredinol (a fesurir o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) yn ystod y blynyddoedd diwethaf.
- Mae'r ardaloedd yn Abertawe a aseswyd fel rhai sydd ag ansawdd aer gwael neu sydd mewn perygl o hynny wedi cynyddu, ac mae'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) wedi cael ei hestyn.

Cymharu â manau eraill

- Mae amgylchedd naturiol Abertawe yn cael ei gydnabod yn eang, yn arbennig o ran ansawdd y tirweddau a'r traethau (yr AoHNE gyntaf a'r Warchodfa Natur Leol gyntaf).
- Mae'n cymharu'n ffafriol â manau eraill yng Nghymru o ran Baneri Gwyrdd, gan ddangos bod llawer o fannau gwyrdd yn cael eu rheoli i safon uchel, rhai ohonynt gyda chyfranogiad y gymuned.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Ceir mwy o safleoedd natur dynodedig yn gyffredinol yng ngorllewin y sir, e.e. Ardaloedd Cymunedol Gorllewin y Bae a Llŵchwyr.
- Mae ansawdd dŵr gwaelach yn amlycach yn y dwyrain (e.e. Tawe Isaf, yn Ardaloedd Cymunedol y Ddinas a Chwm Tawe).
- Yr ardal a ddynodwyd yn AQMA hwyaf yw un o ardaloedd lleiaf cefnog Abertawe (Hafod) ond mae'r ardaloedd eraill dynodedig yn gymysg (Sgeti a Fforestfach).

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae dinasyddion yn barnu bod yr amgylchedd naturiol yn bwysig ond yn meddwl ei fod yn colli tir (Adroddiad Prosiect Ymgynghoriad Cymunedol Arbrofol Tawe).
- Mae dinasyddion yn credu bod rheoli'r adnoddau naturiol yn gyfrifoldeb a rennir, ac mae llawer yn dweud y bydden nhw'n hoffi cael rhoi barn neu chwarae rhan.
- Mae pwysau ariannol a diffyg dealltwriaeth yn tanseilio polisiau i gadw neu ychwanegu at fioamrywiaeth a manau gwyrdd hygyrch e.e. drwy werthu tir a diffyg rheolaeth briodol.
- Mae'n debygol nad yw dirywiad amgylcheddol yn cael ei gydnabod yn ddigonol yn sgîl y newid mewn gwaelodliniau e.e. mae pobl yn cyfarwyddo â diflaniad rhywogaethau bywyd gwyllt (storïol)

Rhagolygon at y dyfodol

Heb ymyrraeth weithredol/yn y dyfodol:

- Mae dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth, colli cysylltedd a rhywogaethau yn debygol.
- Mae'n debygol y collir manau gwyrdd hygyrch ar gyfer datblygiadau a chodi tai.
- Mae cynnydd yn ymlediad rhywogaethau ymwthiol (e.e. canclwm Siapan) yn debygol.

- Ni fyddai ansawdd dŵr yn gwella.
- Mae'r data'n awgrymu tuedd ar i lawr yn achos llygredd aer yn achos dwy o'r tair AQMA, ond gallai datblygiadau arfaethedig yng nghanol y ddinas gyflwyno defnydd preswyl mewn ardaloedd lle mae llif traffig uchel a chynyddu'r risg o ddod i gysylltiad â hyn.
- Bydd gwasanaethau ecosystemau yn llai sicr a cholir cyfleoedd.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Byddai'r amgylchedd naturiol yn cael ei weld fel blaenoriaeth glir ac yn destun buddsoddi.
- Ni fyddai bioamrywiaeth yn colli rhagor o dir.
- Byddai safleoedd sy'n werthfawr yn ecolegol yn cael eu diogelu'n llawn.
- Byddai rhywogaethau ymwthiol o dan reolaeth.
- Byddai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn cael eu mabwysiadu a'u gyrru gan ffermwyr.
- Byddai mesurau'n cael eu rhoi ar waith i wella ansawdd dŵr ac ansawdd aer.
- Byddai cynllunio gofodol yn hybu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.
- Byddai egwyddorion gwyrdd yn cael eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd.
- Byddai cynllunio gofodol yn hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy e.e. drwy'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a fabwysiadwyd.
- Byddai egwyddorion isadeiledd gwyrdd yn cael eu hymgorffori i ddatblygiadau newydd, yn unol â'r CDLI.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae mwyafrif y dystiolaeth o ansawdd uchel, yn gadarn ac yn gyfredol, ond mae peth yn genedlaethol, a heb ei dadgrynhai i lefel leol.
- Mae angen mapio'r gwasanaethau ecosystem yn Abertawe ac mae angen rhagor o ymchwil i farn y cyhoedd ynghylch yr amgylchedd naturiol.
- Mae angen manteisio ar ymchwil i effeithiau ansawdd dŵr ac aer gwael ar iechyd, ac effeithiau cadarnhaol posibl yr amgylchedd naturiol ar iechyd corff a meddwl.

F2: Pobl yn meddu ar amgylchedd adeiledig o ansawdd da ac isadeiledd cynhaliol

Tystiolaeth:	Adolygiad o Gapasiti Adwerthu, Potensial Buddsoddi a Strategaeth (2013) [DSA]
	Data nifer y bobl sy'n ymweld â chanol y ddinas [DSA]
	Data Atal Digartrefedd (NI34) [DSA]
	Canran yr anheddau sy'n perfformio'n ddigonol o ran ynni (NI33) [DSA]
	Arolwg Cyflwr Stoc Tai Preifat (2010) [DSA]
	Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe 2016 [SEF]
Sgôr llesiant a chrynodeb:	4 - Er bod rhai datblygiadau cadarnhaol a gwelliannau wedi'u cyflawni i ardaloedd trefol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Abertawe yn dal i fethu â chyflawni ei photensial fel canolfan ranbarthol, a hynny o gryn dipyn, gan fod diffygion sylweddol yn parhau yn lefel ac ansawdd y tai a'r isadeiledd cynhaliol mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Nodyn: Ymgynghoriad Cyhoeddus (Feb-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 4. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. • Y prif faterion a nodwyd o fewn y sbardun hwn oedd yr effaith y caiff tai newydd ar ffyrdd, traffig ac ysgolion, bod angen mwy o dai fforddiadwy a mwy o ddatblygiadau arloesol.
--	--

Cryfderau Abertawe

- Mae canol y ddinas yn agos at draeth, afon a choedwig drefol sy'n galluogi dinasyddion ac ymwelwyr i gael mynediad hawdd i fan gwyrdd/glas ac yn atyniad i fuddsoddwyr.
- Mae dwy brifysgol yn y ddinas sy'n galluogi dinasyddion i gael mynediad hawdd i addysg uwch ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, partneriaeth ac ymchwil.
- Nifer cynyddol o ddatblygiadau wedi'u hadeiladu i safonau Rhagoriaeth BREEAM.
- Lefel uchel o foddhad gan y cyhoedd ynghylch cymdogaethau lleol (Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe).
- Mae gorsaf fysus newydd a gorsafoedd trenau sydd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar (Abertawe a Thregŵyr) wedi helpu i wneud y defnydd o gludiant cyhoeddus yn fwy deniadol.
- Stoc tai'r Cyngor yn gwella a thai cymdeithasol newydd yn cael eu codi (Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe).
- Lefel dda o gefnogaeth ar gael ar gyfer gwelliannau i dai preifat, gan gynnwys addasiadau a chynlluniau datblygu trefol
- Tai fforddiadwy ar gael mewn rhai ardaloedd yn Abertawe.
- Lefel uchel o ganlyniadau llwyddiannus i'r rhai sy'n dweud wrth y cyngor eu bod yn ddigartref.
- Lefel uchel o ganlyniadau llwyddiannus i'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain i'r cyngor fel pobl ddigartref.
- Rhai llwybrau beicio da oddi ar yr hewl, e.e. o amgylch y bae ac ar hyd glan yr afon.
- Mae cysylltedd digidol yn dda ym mwyafrif ardaloedd y sir.
- Mae cynlluniau ar waith i wneud gwaith datblygu ac adfywio sylweddol yng nghanol y ddinas.
- Mae'r CDLI sy'n dod i'r amlwg yn canolbwyntio ar wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig ac isadeiledd.

Newidiadau dros amser

- Gostyngodd nifer y bobl oedd yn ymweld â chanol y ddinas 26% rhwng 2010 a 2012, ond yna sefydlogodd (data nifer yr ymwelwyr â chanol dinas Abertawe).
- Mae rhai datblygiadau darniog wedi cael eu hadeiladu heb isadeiledd cynhaliol.
- Mae lefelau glendid ar y strydoedd wedi gwella (Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe).
- Mae nifer y tai wedi cynyddu, ond ymhell o dan lefel y galw.
- Mae cyfran y tai cymdeithasol sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) yn dal i gynyddu.
- Mae nifer yr eiddo gwag sy'n cael eu defnyddio eto neu sy'n derbyn sylw ar gynnydd.

- Mae'r defnydd o safleoedd parcio a theithio wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf (caewyd un safle).
- Mae beicio wedi cynyddu, ond mae rhai gwasanaethau cludiant cyhoeddus wedi lleihau (Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe).
- Cynnydd yn yr achosion o atal digartrefedd.

Cymharu â mannau eraill

- Mae sgôr adwerthu canol y ddinas wedi gostwng (o gymharu â dinasoedd eraill).
- Mae mynediad cyfyngedig i gludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig lle mae mwy o ddibyniaeth ar y car.
- Mae mynediad gwaeth i wasanaethau a chyfleusterau mewn ardaloedd gwledig.
- Ar hyn o bryd mae 17% o gyflogaeth Abertawe yng nghanol y ddinas, o gymharu â 30-40% mewn trefi/dinasoedd tebyg eu maint – byddai lefelau cyflogaeth uwch yng nghanol y ddinas yn cynyddu nifer y bobl sy'n dod yno ac yn symbylu economi canol y ddinas.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Diffyg tai fforddiadwy yng ngorllewin Abertawe a'r ardaloedd gwledig.
- Nifer anghymesur o'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref yn dod o grwpiau bregus.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Canfyddir Canol Dinas Abertawe fel lle blinedig sydd wedi dyddio ac sy'n dirywio, heb ddim byd allan o'r cyffredin i'w gynnig, system draffig gymhleth, tagfeydd a chyfleusterau parcio gwael/drud.
- Mae'r hyn sydd gan Ganol y Ddinas i'w gynnig o ran adwerthu a hamdden yn lleihau ar hyn o bryd oherwydd mannau adwerthu sydd wedi'u cyflunio'n wael, amgylchedd sydd wedi dyddio, a phroffil tenantiaid.
- Mae'r arwynebedd llawr i swyddfeydd yng Nghanol y Ddinas o ansawdd gwael ac yn stoc sydd wedi dyddio, ac mae'r rhenti isel am swyddfeydd (yn nodweddiadol o dan £8/tr.sg.) yn tanseilio dichonolrwydd datblygiadau a arweinir gan y sector preifat. O ganlyniad, mae diffyg swyddfeydd addas ar gyfer cwmnïau cychwynol neu ddeilliadol (yn arbennig busnesau technegol).
- Mae arolygon Lleisiau Abertawe yn awgrymu nad oes gan y cyhoedd farn uchel ynghylch glendid cyffredinol na gwedd allanol Canol y Ddinas.
- Mae arolygon Lleisiau Abertawe'n awgrymu bod y cyhoedd yn ystyried bod canol y ddinas yn wael o ran glendid a golwg cyffredinol.

Rhagolygon at y dyfodol

- Heb ymyrraeth sylweddol, bydd dirywiad pellach yn y sgôr adwerthu a gostyngiad yn nifer y bobl a'r busnesau sy'n cael eu denu i ganol y ddinas.
- Mae cynlluniau ar waith i holl dai cymdeithasol Abertawe fodloni WHQS erbyn 2020 ond mae'r ddarpariaeth dai yn debygol o barhau ar lefel gryn dipyn yn is na'r galw.
- Bydd newidiadau i'r Lwfans Tai Lleol a diwygiadau lles eraill yn cynyddu'r angen am fwy o opsiynau tai a rennir fforddiadwy.

- Gallai datblygiadau arfaethedig yng nghanol y ddinas, gan gynnwys y Fargen Ddinesig a'r morlyn llanw, ynghyd â thrydaneiddio gwasanaethau rheilffordd i Abertawe, gael effaith sylweddol ar wydroi'r tueddiadau.
- Bydd y CDLI yn sicrhau bod datblygiad yn gwella ansawdd lleoedd ac yn gynaliadwy.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Lefel uwch o fyw a chyflogaeth yng nghanol y ddinas, a phobl yn dod yno.
- Adfywio llwyddiannus yng nghanol y ddinas a'r cyffiniau.
- Mwy o isadeiledd gwyrdd yn ei le a chysylltedd da ag asedau naturiol.
- Digon o dai i ateb y galw ac ymateb i anghenion sy'n newid, gan gynnwys tai fforddiadwy a chymdeithasol, a mwy o opsiynau cynaliadwy ar gyfer rhannu.
- Mwy o deithio llesol a chlodiant cyhoeddus fforddiadwy, o ansawdd uchel.
- Mwy o fannau cyhoeddus, celf gyhoeddus a datblygiadau cyhoeddus sy'n gwella ansawdd lleoedd ac yn ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar gyd-destun a chymeriad, gan gyfrannu at ymdeimlad o le.
- Datblygiad sy'n ychwanegu at ansawdd lleoedd ac yn ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar y cyd-destun a'r cymeriad lleol sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae peth data wedi dyddio ac mae peth yn gyfyngedig ei gwmpas.
- Mae diffyg penodol o ran data cyfredol ynghylch defnydd o gludiant a hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau.
- Mae'r data SAP cyfredol yn cyfeirio at stoc tai'r cyngor yn unig, ac mae angen gwybodaeth am stoc breifat ac eiddo annomestig.
- Nid yw rhai arolygon ynghylch canfyddiadau'r cyhoedd wedi'u diweddarau.
- Dylai data gael ei gasglu ar gyflwr isadeiledd hanfodol a chynllunio ar gyfer isadeiledd hanfodol.

F3: Pobl yn byw mewn cymunedau cadarn ac amgylcheddol gynaliadwy

Tystiolaeth:	Asesiad Ynni Adnewyddadwy [DSA] / Lleolydd Ynni Adnewyddadwy [Y Gynghrair Werdd]
	Canran y gwastraff trefol sy'n cael ei ailgylchu, ei gompostio neu ei aildefnyddio [DSA]
	Eiddo sy'n wynebu risg ganolig neu uchel o ddioddef llifogydd (NI32) [CNC]
	Canran yr anheddau sydd â pherfformiad ynni digonol (NI33) [DSA]
	Adroddiad Prosiect Ymgynghori Cymunedol Arbrofol Tawe [SEF]
	Adolygiad Cynnydd Strategaeth Amgylcheddol Abertawe 2016 [SEF]
Sgôr llesiant a chrynodeb:	4 - Mae rhai agweddau ar wneud cymunedau'n gryfach ac yn gynaliadwy'n gwella, megis rheoli gwastraff, lleihau perygl llifogydd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Serch hynny, bydd angen ymgysylltu'n fwy â'r gymuned a sicrhau mwy o gyfranogiad ganddi os yw'r newidiadau angenrheidiol o ran ffordd o fyw ac arferion i gael eu gwireddu ac effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd ar les yn mynd i gael eu lleihau.
Nodyn:	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad draft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 5. Y sgôr

Ymgynghoriad Cyhoeddus (Feb-17)	gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 4. <ul style="list-style-type: none"> • Roedd prif faterion a nodwyd o fewn y sbardun hwn yn cynnwys bod angen gwneud mwy i ddiogelu mannau gwrydd yn Abertawe, mwy o ysgogiadau ar gyfer byw bywydau mwy cynaliadwy a newidiadau i wastraff ac ailgylchu yn Abertawe. Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 4 i'r sbardun hwn.
---------------------------------------	---

Cryfderau Abertawe

- Nifer mawr o grwpiau a phartneriaethau'n cymryd rhan mewn gweithgarwch amgylcheddol, a lefel dda o gydweithio.
- Lefel effeithlonrwydd ynni sy'n gwella mewn cartrefi ac adeiladau eraill.
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy cynyddol yn lleol (domestig, cymunedol a masnachol).
- Cyflawni cyfradd ailgylchu trefol o 60% a gwasanaethau ailgylchu da.
- Lleihau nifer yr eiddo sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd (gwella gwerth eiddo).
- Ymwneud cynyddol â rheoli asedau cymunedol, e.e. grwpiau Ffrindiau Parciau, a thyfu bwyd yn y gymuned.

Newidiadau dros amser

- Mae sgôr effeithlonrwydd ynni (SAP) stoc tai'r cyngor wedi gwella.
- Mae'r awdurdod lleol a sefydliadau eraill wedi lleihau eu hallyriadau carbon.
- Mae'r ynni a gynhyrchir yn lleol o ffynonellau adnewyddadwy wedi cynyddu.
- Mae swm y gwastraff sy'n cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi (ei ailgylchu, ei gompostio neu ei aildefnyddio) wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae'r canlyniadau gwastraff o aelwydydd wedi lleihau.
- Cododd nifer yr achosion o ollwng sbwriel yn anghyfreithlon yn Abertawe yn sylweddol yn 2014/15 ar ôl gostwng yn gyson yn ystod y blynyddoedd blaenorol.
- Mae nifer yr ysgolion sy'n cyflawni yn y rhaglen EcoYsgolion a chynlluniau tebyg wedi cynyddu.

Cymharu â mannau eraill

- Mae Abertawe'n ddigon nodweddiadol o'r sefyllfa yng Nghymru yng nghyswllt ailgylchu, ond mae swm y gwastraff gweddillol y pen yn un o'r isaf yng Nghymru.
- Mae Canolfan yr Amgylchedd a'r hanes hir o weithio mewn partneriaeth amgylcheddol yn gwbl unigryw i Abertawe, o leiaf yng Nghymru, gan ddarparu sylfaen a dulliau cefnogi da ar gyfer cynnwys y cyhoedd a sefydliadau wrth wella cynladwyedd amgylcheddol.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae'r Lleolydd Ynni Adnewyddadwy yn gosod Abertawe tua'r canol o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Cymru a Lloegr, ond mae rhai siroedd cymdogol mewn safle llawer uwch.
- Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi bod yr 'ardaloedd heb gyfyngiadau' ar gyfer cynlluniau newydd wedi'u lleoli'n bennaf yng ngogledd Abertawe (e.e. Ardal Gymunedol Lluchwr).

- Mae cyfranogiad mewn cynlluniau ailgylchu o ymyl y ffordd yn amrywio ar draws Abertawe (mae'n gyffredinol is mewn ardaloedd llai cefnog).

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Mae gan ddinasyddion ddiddordeb yn eu hamgylchedd, a byddai llawer yn hoffi cael lleisio barn neu ymwneud â sut mae'n cael ei reoli. (Adroddiad Prosiect Ymgynghori Cymunedol Arbrofol Tawe).
- Canfu ymchwiliad craffu yn 2016 a oedd yn edrych ar weithredu yn y gymuned yn Abertawe fod angen gwneud mwy i gydnabod gwaith gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol a'r gwahaniaeth hanfodol maent yn ei wneud i'w cymunedau. Mae angen mwy o wirfoddolwyr yw cymunedau'n mynd i fod yn gyfrifol am reoli rhai gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.

Rhagolygon at y dyfodol

- Mae'n debygol y bydd gwelliannau'n parhau yng nghyswllt effeithlonrwydd ynni, cynhyrchu ynni, rheoli gwastraff a lleihau perygl llifogydd.
- Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth amgylcheddol yn debygol o gynyddu a dylai cyfranogiad cymunedol mewn gweithgaredd amgylcheddol ac arferion mwy cynaliadwy gynyddu, er nad o bosib ar y lefel na'r gyfradd sy'n angenrheidiol i sicrhau gwydnwch digonol yn wyneb newid yn yr hinsawdd a heriau eraill.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Bydd ôl-troed carbon ac ecolegol Abertawe yn lleihau wrth iddi symud tuag at lefel sero o wastraff, hunanddigonolrwydd ynni a lefel is o ddefnyddio adnoddau.
- Byddai lefel gref o wirfoddoli a rheolaeth gymunedol a/neu berchnogaeth ar asedau naturiol a chymunedol (safleoedd, cyfleusterau a gwasanaethau).
- Byddai llai o eiddo'n wynebu risg llifogydd.
- Byddai mwy o gartrefi'n effeithlon o ran ynni, a lefelau is o dlodi tanwydd.
- Byddai mwy o gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus.
- Byddai mwy o ficrogynhyrchu (ynni) a thyfu bwyd yn y gymuned ac mewn cartrefi i helpu cymunedau i fod yn fwy cryf a hunangynhaliol.

Ynghylch y dystiolaeth

- Mae peth o'r dystiolaeth yn gadarn ac yn gyson (e.e. gwastraff a risg llifogydd) ond yn achos y rhan fwyaf o agweddau sy'n rhan o'r sbardun hwn, mae diffyg data neu mae'n annigonol e.e. mwy o gyfranogaeth gan y gymuned ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.
- Mae angen rhagor o ddata ynghylch cyfranogiad cymunedol ac ymwybyddiaeth amgylcheddol.
- Byddai rhagor o wybodaeth am ôl-troed carbon a chynhyrchu ynni yn ddefnyddiol.

F4: Pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol yn Abertawe yn unol â'u hanghenion

Tystiolaeth:	Nifer yr Ymwelwyr Dyddiol a'r Ymwelwyr sy'n Aros yn Abertawe (ffigrau STEAM)
---------------------	--

	Nifer y bobl sy'n ymgysylltu â diwylliant (amgueddfeydd a defnydd diwylliannol)
	Nifer y bobl sy'n rhoi cynnig ar weithgaredd chwaraeon newydd – Plant (Arolwg Chwaraeon Ysgol) ac Oedolion (arolwg Oedolion Chwaraeon Cymru)(Mesur Llesiant Newydd)
	Ymwneud y gymuned â'r ddarpariaeth ddiwylliannol (Nifer y gwasanaethau a gynhelir yn y gymuned a fu gynt yn cael eu rheoli gan y Cyngor)
	Sgôr Llesiant iechyd meddwl cymedrig pobl (NI 29) – er mwyn mesur gweithgaredd diwylliannol a chymunedol (Mesur Llesiant Newydd – arolwg LIC)
	Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn (Mesur Llesiant Newydd – arolwg LIC)
	Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (Mesur Llesiant Newydd – arolwg LIC)
	Canran yr amgueddfeydd a'r archifau sy'n cadw casgliadau archifio/treftadaeth sy'n bodloni safonau achredu'r Deyrnas Unedig (Mesur Llesiant Newydd – arolwg LIC).
	Ystadegau cyfrifiad 2011 (a 2001) (y Gymraeg), Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol
Sgôr Llesiant a chrynodeb:	6 - Mae'r hyn sydd ar gael yn ddiwylliannol ar draws Abertawe yn cael ei ystyried yn werthfawr ac mae teimladau cadarnhaol yn ei gylch, gyda lefelau uchel o fanteisio arno, a llawer o argaeledd ac amrywiaeth. Serch hynny, gellid datblygu'r gwaith o gynnwys y gymuned ymhellach mewn rhai ardaloedd.
Note: Public Consultation (Feb-17)	<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yr ymgynghoriad drafft yn awgrymu y dylid rhoi sgôr o 6. Y sgôr gyfartalog a roddwyd gan y cyhoedd oedd 5. • Roedd y prif faterion a nodwyd o fewn y sbardun hwn yn cynnwys bod angen mwy o weithgareddau a chyfranogiad cymunedol a mwy o hysbysebu gweithgareddau am ddim ('<i>Mae cefnogaeth ar gyfer gweithgareddau cymunedol a diwylliannol yn fwy cyfyngedig byth</i>') • Ar ôl ystyriaeth, teimlwn y dylid rhoi sgôr o 6 i'r sbardun hwn.

Cryfderau Abertawe

- Diwylliant Abertawe yw ei delwedd ohoni ei hun – mae'n diffinio pwy ydym ni, pam rydym ni yma, ein gorffennol, a'n dyfodol; beth sy'n golygu mai ni yw *Abertawe*. Mae hi'n ddinas hanesyddol falch, ac mae gorffennol disglair ganddi. Mae diwylliant yn cyffwrdd â phob agwedd ar fywyd, weithiau heb i'r dinasyddion sylweddoli hynny.
- Mae'r cyfleoedd diwylliannol a chymunedol ar draws y Ddinas a'r Sir, er eu bod yn ddewisol, yn cael defnydd da ac yn boblogaidd. Mae gan gymunedau Abertawe hefyd eu hunaniaeth eu hunain, lle mae ymwneud a chyfranogiad yn bosibl.
- Mae'r cyfleoedd diwylliannol ffurfiol sy'n cael eu darparu gan y Cyngor a'i bartneriaid ar draws Abertawe yn cynnwys digwyddiadau cyhoeddus, arddangosfeydd, dramâu a pherfformiadau cerddorol. Mae lleoliadau'r cyngor yn cynnwys Theatr y Grand, Amgueddfa Abertawe, Oriel Gelf Glynn Vivian, canolfannau cymunedol, parciau, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden; tra bod y lleoliadau partner yn cynnwys Canolfan Celfyddydau Taliesin, Canol y Ddinas, grwpiau celfyddydau a theatr lleol,

corau ac eglwysi. Gallai'r symudiad at gomisiynu gwasanaethau awdurdod lleol arwain at y gymuned yn chwarae mwy fyth o ran.

- Mae llawer o gyfleoedd diwylliannol llai ffurfiol yn bodoli, a gellir eu cyrchu mewn lleoliadau cymunedol ar draws y sir – gan gynnwys amrywiaeth o ddsbarthiadau, dawns a theatr, sy'n cael eu darparu gan grwpiau cymunedol, clybiau, cymdeithasau, unigolion a'r cyfryngau. Mae llawer o hyn ar gael am ddim.
- Mae cyfleoedd chwaraeon yn cael eu darparu gan y Cyngor, ysgolion, colegau, clybiau chwaraeon a chyrff chwaraeon – sy'n amrywio o unigolion yn ymarfer chwaraeon mewn parc i dimau pêl-droed tafarnau i ddigwyddiadau chwaraeon mawr sy'n cael eu trefnu, fel ras 10k Bae Abertawe.
- Mae lefelau cyfranogiad cymunedol mewn gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn uchel.
- Mae manteision iechyd clir i weithgaredd diwylliannol. Mae pobl yn ymwybodol bod gweithgaredd corfforol a chyfranogiad yn bwysig i sicrhau ffordd iach o fyw. Gall gweithgareddau diwylliannol – celf, cerddoriaeth a pherfformio – hefyd gael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant.
- Mae iaith a llenyddiaeth yn rhan bwysig o gyfansoddiad diwylliannol Abertawe – mae Dylan Thomas, er enghraifft, yn bersonoliaeth o Abertawe sy'n enwog yn fyd-eang.
- Mae'r Gymraeg hefyd yn ddyledus iawn i hanes Abertawe; gellir olrhain gwreiddiau dwfn yr iaith a'i llenyddiaeth yn ôl y tu hwnt i'r cyfnod canoloesol drwy feirdd Cymreig a'u noddwyr (megis Casnodyn a Hopcyn ap Tomos), ymlaen i'r 19eg ganrif (Gwyrosydd, Daniel James, a ysgrifennodd Calon Lân) i'r presennol. Mae Abertawe wedi helpu i lunio traddodiadau diwylliannol Cymru.
- Abertawe yw prif ganolfan economaidd/diwylliannol De-orllewin Cymru, ac mae hanner siaradwyr Cymraeg Cymru'n byw o fewn taith awr mewn car o'r ddinas. Mae cyrff megis Fforwm Abertawe'n ceisio annog pobl i ddysgu a defnyddio'r iaith ar draws Abertawe.
- Mae gan y ddinas dreftadaeth gerddorol wych - o ffurfiau Cymraeg traddodiadol i'r traddodiad corawl yn Gymraeg ac yn Saesneg (Côr Orffews Treforys), cerddorion unigol (Spencer Davies, Terry Williams), bandiau fel Badfinger a chyfansoddwyr clasurol fel Syr Karl Jenkins.
- Mae polisiâu a phartneriaethau lleol cefnogol yn cyfrannu at y sbardun hwn, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Creu Abertawe Weithredol a Iach, Dinasoedd Iach, Partneriaeth Abertawe Greadigol, a'r Cynllun Peilot Diwylliant mewn Dinasoedd Cynaliadwy.
- Mae hefyd lawer o bartneriaethau'n gweithio trwy gyrff rheoli (e.e. Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe, clybiau chwaraeon), grwpiau masnach (Twristiaeth Bae Abertawe, Partneriaeth Abertawe Wledig), a grwpiau a chyrff cenedlaethol (Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Chwaraeon Cymru, Croeso Cymru, CyMAL).
- Y cyfoeth diwylliannol hwn yw'r sail y caiff cais Dinas Diwylliant 2021 ei adeiladu arni ac y bydd rhaglen 2021 yn datblygu ohoni.

Newidiadau dros amser

- Mae ffigurau defnydd cyfleusterau'r Cyngor yn arwydd da o'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau diwylliannol ledled Abertawe. Mae'r defnydd o gyfleusterau

diwylliannol yn parhau i gynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn enwedig os yw'n cynnwys cyfranogiad mewn digwyddiadau cyhoeddus. Bydd mesur dangosyddion cenedlaethol dros amser hefyd yn caniatáu meincnodi yn erbyn ardaloedd awdurdodau lleol eraill Cymru.

- Mae symudiad cyffredinol parhaus ar i fyny o ran defnydd trwy ddigwyddiadau arbennig, gyda'r Sioe Awyr a digwyddiadau eraill mawr untro yn rhoi hwb ychwanegol.
- Mae'r defnydd o amgueddfeydd ac orielau (gan gynnwys Oriel Gelf Glynn Vivian, Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau) yn dal i dueddu ar i fyny, yn enwedig wrth i Oriel Gelf Glynn Vivian ailagor ar ôl cael ei hadnewyddu (Hydref 2016).
- Mae'r cyfleusterau hamdden a chwaraeon cyfunedig o dan do ac yn yr awyr agored, trwy gyfleusterau'r cyngor a phartneriaid (e.e. yr LC, Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe, Canolfan Chwaraeon Dŵr 360), yn dangos tuedd ar i fyny o ran defnydd.
- Mae'r ymwelwyr dyddiol ag Abertawe wedi cynyddu yn ystod y naw mlynedd diwethaf.
- Mae'r defnydd o gyfleusterau cymunedol yn sefydlog, ac wrth i fwy o wasanaethau symud i ddefnydd cymunedol yn ystod y blynyddoedd nesaf bydd cymhelliad cynyddol i gymunedau chwarae rhan.
- Cynyddodd y defnydd o lyfrgelloedd pan agorodd y Llyfrgell Ganolog newydd, ond yna, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, gostyngodd rywfaint. Mae hyn bellach yn ymadfer wrth i lyfrgelloedd geisio gwneud eu hunain yn fwy deniadol trwy ddiwygio'r gwasanaethau a'r swyddogaethau maen nhw'n eu cynnig. Mae ffigurau defnydd o theatrau ar gael ar gyfer lleoliadau'r awdurdod lleol. Bydd defnydd o theatrau'r cyngor, felly, yn cael ei ychwanegu at y dadansoddiad hwn.
- Ers 2015, mae AberDewi, dathliad o'r ardal, ei threftadaeth Gymreig a threftadaeth y Gymraeg wedi darparu arddangosfa amlwg, gan hyrwyddo presenoldeb y Gymraeg yng nghanol y ddinas.
- Mae addysg Gymraeg wedi'i hyrwyddo'n eang, ac o ganlyniad, mae nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y sector hwn wedi cynyddu o 3,284 yn 2007 i 4,908 yn 2017 – gan godi o 9.8% (o gyfanswm poblogaeth yr ysgolion yn 2007) i 13.7% yn 2017.
- Mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, mae dros 80% o fyfyrwyr yn cyflawni'r graddau uwch (A*-C), ac mae'r niferoedd sy'n dewis astudio'r pwnc wedi cynyddu'n gyson i 254 yn 2016. Dengys y canlyniadau ar gyfer cwrs llawn TGAU Cymraeg Ail Iaith fod dros 90% yn cyflawni graddau A*-C a bod y niferoedd sy'n astudio'r pwnc wedi cynyddu – cyfradd gofrestru o 17.7% (426 wedi'u cofrestru ar gyfer yr arholiad) yn 2016 o'i chymharu â 9.2% (239 wedi'u cofrestru) dim ond pedair wythnos yng nghynt.

Cymharu â mannau eraill

- Mae data defnydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol ar gyfer llawer o wasanaethau diwylliannol.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi sawl Dangosydd Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â chyfranogiad diwylliannol a chymunedol (e.e. NIs 35-40). Mae peth o'r data'n lleol, ond mae'r rhan fwyaf yn cael ei grynhoi'n genedlaethol, e.e. trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae Cyngor y Celfyddydau Cymru hefyd yn casglu data

ynghylch defnydd o theatrau, sy'n golygu bod modd cymharu i ryw raddau ar draws Cymru.

- Gall NI 29 – sgôr iechyd meddwl a llesiant cymedrig – hefyd (i raddau) weithredu fel mesur o weithgaredd diwylliannol a chymunedol.
- Bydd y data yma'n cael ei ddadansoddi ymhellach yn ystod y misoedd sy'n dod, ac yna bydd modd ei ddadansoddi a'i baru â phrofiadau'r gymuned (e.e. o arolygon ymwelwyr a defnyddwyr).
- Dengys cyfrifiad 2011 fod gan Abertawe, sydd â 26,332 o siaradwyr Cymraeg, yr 8fed cyfanswm uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg (11.4% o'r rhai dros 3 oed) yn rhoi Abertawe yn y 13eg safle o'r 22 awdurdod. Mae hyn yn cymharu â 19.0% ar gyfer Cymru'n gyffredinol.
- Dengys ffigurau Cyfrifiad 2011 y bu gostyngiad o 2,606 yn nifer y siaradwyr Cymraeg ers 2001 (2.0% yn llai) – o'i gymharu â gostyngiadau o 20,352 ac 1.8% ledled Cymru.
- Yn 2011, cofnododd ein dau awdurdod lleol cyfagos – Sir Gâr a Chastell-nedd Port Talbot – 78,048 (43.9%) a 20,698 (15.3%) o siaradwyr Cymraeg yn eu tro.

Gwahaniaethau yn Abertawe

- Mae gan bob cymuned ryw fath o leoliad diwylliannol – o'r dafarn neu'r clwb lleol i stadiwm Liberty – ond bydd y math o weithgaredd diwylliannol yn amrywio.
- Mae gwahaniaethau o ran y cyfleoedd sydd ar gael mewn cymunedau gwledig a threfol, a sut mae eu cyrchu. Mae llawer o gymunedau gwledig yn hunan-gynhaliol neu'n annibynnol, gyda chydlyniant cymunedol cryf.
- Mae gwahaniaethau diwylliannol rhwng cymunedau trefol Abertawe; mae'r ochr Ddwyreiniol wedi cadw traddodiad y bandiau gorymdeithio, ac mae rhai canolfannau (e.e. Gorseinon) yn dal i gynnal carnifal blynyddol ar y stryd. Fodd bynnag, mae rhannau eraill o Abertawe wedi colli'r traddodiadau diwylliannol hyn yn ystod y degawdau diwethaf.
- Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn disgwyl teithio ymhellach i fanteisio ar gyfleoedd, ac mae'n ymddangos bod cymunedau trefol yn fwy amharod i deithio.
- Mae nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011) ym mhob un o chwe ardal gymunedol Abertawe'n amrywio o 7,823 (18.4%) yn 'Llwchwyr' a 6,957 (12.6%) yng 'Nghwm Tawe', i 2,426 (7.1%) yn y 'Ddinas' a 2,234 (7.5%) ym 'Mhenderi'.
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl ward etholiadol yn Abertawe'n amrywio o rhwng 5.8% yn Townhill (10.5% a pheth sgiliau Cymraeg) a 38.3% ym Mawr (52.1%).
- O ran niferoedd, mae gan Pennard y nifer lleiaf o siaradwyr Cymraeg sef 264 (10.1%) a Threforys sydd â'r nifer uchaf sef 1,931 (11.8%). Mae gan Lansamlet a Phontarddulais hefyd dros 1,900 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011).
- Ystyrir bod mwy o siaradwyr Cymraeg yn draddodiadol yng ngogledd a gogledd-orllewin yr awdurdod, ond mae'r poblogaethau hyn mewn rhai o'r ardaloedd hyn yn gymharol isel.

Canfyddiadau a safbwyntiau

- Bydd tystiolaeth yr arolwg ac ymchwil arall ynghylch y sbardun hwn yn cael eu datblygu ymhellach. Er enghraifft, mae'r gwasanaethau diwylliannol statudol (e.e. llyfrgelloedd, archifau) yn cynnal arolygon rheolaidd o ddefnyddwyr ac eraill, gan ddarparu adnodd a allai fod o ddefnydd.
- Bu gan y cyhoedd lefel uchel o ddiddordeb mewn cadw gwasanaethau diwylliannol pan fuont o dan fygythiad (e.e. Llyfrgell Pennard).
- Canfu ymchwiliad craffu yn 2016 a fu'n edrych ar weithredu gan y gymuned yn Abertawe fod angen gwneud mwy i gydnabod gwaith gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol a'r gwahaniaeth hanfodol maent yn ei wneud i'w cymunedau. Bydd angen mwy o wirfoddolwyr os yw cymunedau'n mynd i reoli rhai gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol.
- Mae canfyddiad mai'r Saesneg sy'n ganolog i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen camau gweithredu cadarnhaol gan gyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â hyn yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Efallai fod y niferoedd cymharol uwch o siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o boblogaeth uwch yn cuddio achosion o arwahanrwydd cymdeithasol a diffyg darpariaeth Gymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg unigol – yn enwedig o'i gymharu â'r ardaloedd hynny lle ceir canran uwch o bresenoldeb yr iaith a lle mae'n fwy amlwg.

Rhagolygon at y dyfodol

- Mae cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2021 yn gonglfaen y fframwaith diwylliannol ar gyfer y ddinas a'r sir; bydd gwaith partneriaeth ar draws yr awdurdod lleol, prifysgolion, y sector preifat a chyfranogwyr diwylliannol yn hanfodol i'r cais ac er mwyn adfywio'r ddinas yn ddiwylliannol ac yn economaidd.
- Bydd comisiynu gwasanaethau diwylliannol y Cyngor yn golygu bod llawer o leoliadau a gwasanaethau cymunedol ar gael drwy grwpiau cymunedol neu yn eu gofal.
- Bydd gwasanaethau'n parhau i gael eu cynnal gan y Cyngor, boed hynny ar eu pennau eu hunain neu mewn partneriaeth â gweithredwyr allanol, boed y rheiny'n fasnachol, yn ymddiriedolaethau elusennol neu'n sefydliadau cymunedol. Rhagwelir y bydd perchnogaeth gymunedol ar leoliadau a gweithgareddau diwylliannol yn cael effaith gadarnhaol ar gyfranogiad diwylliannol.
- Bydd cost cael mynediad i ddiwylliant neu chwaraeon yn effeithio'n anochel ar y rhai sy'n manteisio arnynt mewn ardaloedd llai cefnog. Gallai masnacholi cynyddol arwain hefyd at ddod â gweithgareddau annichonadwy i ben.
- Gall rhai gweithgareddau golli neu ennill tir yn ôl ffasiwn (e.e. criced a thenis).
- Mae grwpiau gwirfoddol yn dibynnu ar ymrwymiad y gwirfoddolwyr hynny – hebddynt bydd y grwpiau'n edwino (e.e. grwpiau theatr lleol). Fodd bynnag, gall delwedd neu gred gymunedol gref fod yn symbyliad gwych.
- Byddai cynnydd yn y nifer sy'n dewis cael addysg Gymraeg mewn ysgolion yn awgrymu bod cronfa o siaradwyr Cymraeg a fydd (ar ôl iddynt adael yr ysgol) yn gwireddu twf rhagamcanol y galw am y Gymraeg yn y dyfodol.

Sut olwg fyddai ar welliant?

- Proffil uwch i Abertawe fel dinas o bwys ym maes diwylliant a chwaraeon yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig wedi'i gadarnhau gan Abertawe'n llwyddo i fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2021.
- Pobl yn sicrhau gwell canlyniadau o addysg ffurfiol oherwydd cysylltiadau â chyfleoedd diwylliannol a diwylliant.
- Mwy o grwpiau diwylliannol cymunedol, o ran nifer ac amrywiaeth, a'r rheiny'n ffynnu.
- Gwell canlyniadau iechyd corff a meddwl i drigolion.
- Mwy o dwf economaidd yn sgîl gwariant cynyddol gan ymwelwyr yn y ddinas.
- Adfywio canol y ddinas yn sgîl datblygiad diwylliannol (e.e. llai o unedau gwag, mwy o wariant gan fuddsoddwyr).
- Gostyngiad mewn diweithdra a chynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth (h.y. nifer y bobl sy'n cael eu cynnal gan yr economi dwristiaeth, ddiwylliannol a chreadigol).
- Mwy o incwm i'r Cyngor a'i bartneriaid (llai o gymhorthdal).
- Siaradwyr Cymraeg â'r hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd dyddiol ac wrth iddynt ymdrin â'r cyhoedd a chyrff preifat, a'r disgwyliad y gallant dderbyn gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Ynghylch y dystiolaeth

- Dwr'r dystiolaeth sy'n cael ei chynnwys ar hyn o bryd yn bennaf o ffynonellau lleol sefydledig (e.e. data defnydd o wasanaethau) a ffynonellau cenedlaethol (e.e. STEAM), a gall amrywio o ran cwmpas.
- Mae rhai o ddangosyddion cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag agweddau ar gyfranogiad diwylliannol a chymunedol. Er bod y rhain heb eu cyhoeddi'n ffurfiol eto, gallai fod modd archwilio rhai agweddau ar ddata'r arolwg presennol ymhellach o bosibl.
- Gall fod angen arolygon ychwanegol neu gasglu rhagor o dystiolaeth i roi cipolwg mwy effeithiol ar faterion llesiant yng nghyswllt y sbardun hwn.
- Caiff data ei gasglu a'i gynhyrchu gan gais y Ddinas Diwylliant ac yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl y lansio wrth i'r rhaglen ddatblygu.
- Mae'r awdurdod yn gweithio gyda Menter Iaith Abertawe i gofnodi darpariaeth y Gymraeg yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd hyn yn darparu gwaelodlin y gellir mesur newid yn ei erbyn, ond hefyd yn helpu i nodi meysydd a sectorau y gall fod angen cefnogaeth arnynt i wella darpariaeth.

Cysylltiadau ar gyfer mwy o wybodaeth

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am asesiad o lesiant lleol Abertawe, mae'r ddogfen a'r atodiadau ar gael ar y we-dudalen www.abertawe.gov.uk/bgc

Fel arall, e-bostiwch Bwrdd Gwasnaethau Cyhoeddus Abertawe yn:

swanseapsb@swansea.gov.uk

Neu ysgrifennwch i'r canlynol:

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe
d/o Ystafell Gaerloyw
Neuadd y Ddinas
Abertawe
SA1 4PE.